	Cynnwys Gwnaethom wario cyfanswm o £182.4 miliwn ar y gwasanaethau hyn yn 2017/18	Cyrhaeddiad Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliwyd yn defnyddio gwasanaeth bob wythnos Y cyfnod o amser a dreuliodd defnyddiwr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos	Mynegai Gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100	Cost fesul cyrhaeddiad defnyddiwr Faint mae'n ei gostio i gyflwyno pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol
 Mae BBC Ar-lein yn cynnwys portfolio'r BBC o gynhyrchion ar-lein ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith, teledu cysylltiedig, dyfeisiau symudol a thabledi, yn cynnwys newyddion, chwaraeon a'r tywydd; ein gwasanaethau i blant sef CBBC a CBeebies; a Gwybodaeth a Dysgu – yn ogystal â gwasanaethau teledu a radio a ddarperir ar IP, gyda rhaglenni byw ac ar alw ar gael ar BBC iPlayer.	£182.4m 2016/17: £185.5m	dd/g* 2016/17: 63.3%	dd/g 2016/17: dd/g	dd/g 2016/17: dd/g	dd/g* 2016/17: 11.2p
 Mae BBC Three yn arloesi yn barhaus i annog cynulleidfaoedd rhwng 16 oed a'u tridegau i feddlw ac i'w difyrru gyda rhaglenni comedi, drama a ffeithiol gwreiddiol sy'n dathlu talent Brydeinig newydd.	8.2% Ebr-Meh 16: 3.5%	7.8% Gor-Medi 16: 4.7%	7.9% Hyd-Rhag 16: 5.3%	8.3% Ion-Maw 16: 8.1%	

Ffynhonnell: data wedi'u modelu gan y BBC gan ddefnyddio mewnbnw o: Facebook, comScore, BARB, Arolwg Cross-Media Insight gan GfK. Pobl 16 i 34 oed yn y DU.

* Mae'r BBC yn diweddarau ei systemau mesur. Ni chaiff ffigurau cyrhaeddiad wythnosol cymaradwy ar gyfer BBC Ar-lein a'r Botwm Coch eu cynnwys y flwyddyn hon ond caiff hyn ei unioni mewn blynyddoedd dilynol. Fel y dangosir ar dudalen 28, mae BBC Ar-lein yn cyrraedd 74% o oedolion yn y DU bob mis.

Cyllid a gweithrediadau



"LITTLE WOMEN"

Scene	Slate	Take
1/92,94	342	2
Roll A 103 878		
DIR: VANESSA CASWILL	LUT: DAY INT	WARM V
DOP: PIERS McGRAIL ISC		B+A
TE: 4 th August 2017		

t.67

Adolygiad cyllid gan y
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

t.69

Trosolwg ariannol

Adolygiad Ariannol y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol



“Mae ailddyfeisio'r BBC yn llwyddiannus ar gyfer cenhedlaeth newydd yn golygu mwy na dim ond yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei gyflwyno i'n cynulleidfaoedd.”

Anne Bulford
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

6%

o wariant rheoladwy wedi ei wario ar redeg y sefydliad, gyda 94% wedi ei gyfeirio at gynnwys a gwasanaethau ar gyfer cynulleidfaoedd.

Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar ailddyfeisio'r BBC ar gyfer cenhedlaeth newydd ynghyd â moderneiddio a symleiddio gweithgareddau er mwyn gwella gwasanaethau a sicrhau ein bod yn gwario cymaint o arian ffi'r drwydded â phosibl ar y cynnwys a'r gwasanaethau sydd o bwys i gynulleidfaoedd.

Nid yw ailddyfeisio'r BBC yn llwyddiannus ar gyfer cenhedlaeth newydd ond yn ymwneud â'r hyn a wnawn a sut i'w gyflwyno i'n cynulleidfaoedd. Mae a wnelo hefyd â'r hyn a wnawn y tu ôl i'r llenni i foderneiddio ein sefydliad ac i wneud y BBC yn un o'r llefydd gorau oll i weithio ynddo. Rydym yn parhau i wneud cynnydd go iawn o ran moderneiddio a diwygio'r sefydliad. Mae materion tegwch a chyflog cyfartal wedi cael llawer o sylw dros y misoedd diwethaf a chraffwyd yn ddwys ar y BBC. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn – ynghyd â gofynion treth hanesyddol a wynebir gan gyflwynwyr llawrydd a dalwyd drwy gwmnïau gwasanaeth personol – wedi bod ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Ein nod – o fewn ein gweithlu ac o ddydd i ddydd ar draws ein hallbwn – yw cynrychioli'r holl wlad a helpu i wneud y DU yn lle tecach.

O ran llywodraethu a rheoleiddio, mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un o drawsnewid a newid. Gwnaethom weithredu o dan y Siarter newydd am y flwyddyn gyfan a gweithredodd SAC fel ein harchwilydd ariannol. Gwnaethom hefyd sefydlu

Bwrdd newydd, gyda chyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, yn cynnig pwynt arwain unigol. Mae ein cenhadaeth – i hysbysu, addysgu a diddanu – yr un peth ag y bu erioed. Yn wir, mae ei angen yn fwy nag erioed. Ac, oherwydd hynny, rydym yn ystyriol o'r cyfrifoldebau sydd gennym i'r miliynau o bobl sy'n dibynnu ar y BBC bob dydd.

Ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom lansio BBC Studios fel is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lawn. Mae hwn yn gyfle i gyflwyno syniadau creadigol i gynulleidfaoedd newydd ledled y byd, oherwydd – am y tro cyntaf – bydd BBC Studios yn gallu gwneud rhaglenni creadigol, beiddgar, Prydeinig ar gyfer darlledwyr eraill, yn ogystal â chwarae rôl hollbwysig yn nyfodol y BBC drwy ddarparu rhaglenni o ansawdd a chreu eiddo deallusol gwerthfawr.

Sicrhau arbedion effeithlonrwydd

Ein nod yw sicrhau bod y sefydliad yn cael ei redeg mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, ac i ailgyfeirio gwariant a symleiddio gweithdrefnau mewn ffordd sy'n cefnogi BBC mwy cynaliadwy a chreadigol.

Mae ein record gadarn o sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn parhau. Gwnaethom gyflawni dros £1.6 biliwn mewn arbedion dros gyfnod diwethaf y Siarter. Rydym yn mynd i'r afael â'n heriau ariannol yn y dyfodol drwy geisio dod o hyd i

£800 miliwn yn rhagor o arbedion erbyn 2021/22. Mae hon yn dasg anodd. Rydym yn gwneud cynnydd da yn erbyn y targed hwn, gan gyflawni £160 miliwn o arbedion blynyddol eleni, gan sicrhau arbedion cronol o £244 miliwn. Cyflawnwyd £33 miliwn yn rhagor o arbedion o fewn yr is-adrannau a BBC Worldwide i ariannu blaenoriaethau newydd, gan gyflawni arbedion gwerth £277 miliwn i gyd.

Rydym wedi gwneud llawer o waith i wneud y BBC yn symlach, yn fwy darbodus ac yn fwy effeithlon. Rydym wedi ail-lunio strwythurau busnes a bellach mae gennyf BBC sydd â llai o haenau ac is-adrannau a hanner yr uwch-reolwyr o gymharu â 2011. Rydym yn darparu'r dechnoleg sydd ei hangen i greu gweithlu modern ac effeithlon, gan gynnwys ailgaffael rhai o'n gwasanaethau technoleg. Mae hyn wedi arwain at BBC sy'n cael ei reoli'n dda o safbwynt ariannol ac sy'n llai biwrocraidd – BBC sy'n fwy syml, gydag arweinwyr mwy gweladwy a hygyrch.

Rydym wedi lleihau gorbennion i lefelau sy'n arwain y diwydiant: dim ond 6% o gyfanswm ein costau. Mae hyn yn golygu ein bod yn y 25% mwyaf effeithlon o sefydliadau rheoledig nid er elw wedi'i meincodi yn y DU. Rhwng 2012/13 a 2017/18 gwnaethom leihau ein gwariant ar gontactau strategol mawr £288 miliwn – gan arbed 42%.

Mae 'Cystadlu neu Gymharu' wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith o ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd a bydd yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth nodi arbedion newydd, gan roi fframwaith cynaliadwy i ni ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r fframwaith yn sicrhau y caiff popeth a wnawn ei herio yn y farchnad neu ei feincodi yn ei herbyn, gan sicrhau gwerth am arian wrth gynnal ansawdd ar yr un pryd. Mae 'Cystadlu neu Gymharu' bellach wedi profi 94% o sylfaen costau'r BBC.

Mae cwtogi ein bil eiddo yn rhan allweddol arall o'n strategaeth busnes a bellach mae ein hól troed eiddo tua 40% yn llai nag yr oedd yn 1998, sy'n gyflawniad sylweddol. Yn gyffredinol, rydym wedi lleihau ein bil eiddo tua £90 miliwn y flwyddyn ers 2011/12, gan ragori ar ein targed gwreiddiol £35 miliwn. Y llynedd, gwnaethom ailariannu ein hadeilad, London Broadcasting House, a fydd yn arbed £10

miliwn arall y flwyddyn, gan aeddfedu'n raddol i tua £34 miliwn y flwyddyn pan ddaw tymor y brydles i ben yn 2033. Mae'n gytundeb sy'n rhoi gwerth am arian i genedlaethau i ddod – gan sicrhau dyfodol hirdymor ein canolfan yn Llundain a dangos ein hymrwymiad i'r heriau ariannol y mae'n rhaid i ni eu hwynebu yn ystod y Siarter hon.

Wrth gwrs, mae llawer mwy i'w wneud. Gwyddom y bydd yn rhaid i ni ymdrechu hyd yn oed yn galetach: i leihau haenau rheoli ymhellach, cynnal y pwysau ar orbenion a rheoli costau cynyddol gystal ag y gallwn. A gwyddom y bydd yr heriau ariannol sylweddol a wynebwn yn awr yn galw am wneud dewisiadau anodd.

Edrych ymlaen

Ar 1 Ebrill 2018, cyfunwyd BBC Worldwide â BBC Studios i greu un brand integredig, yn unol ag arfer y diwydiant. Disgwylir i'r broses uno atgyfnerthu proses gynhyrchu eiddo deallusol (IP) a gwella'r cyflenwad cynnwys, gan helpu i sicrhau dyfodol y BBC fel crëwr a pherchennog hirdymor y cynnwys Prydeinig o'r ansawdd gorau. Mae hyn yn cynrychioli cam hyderus yn y broses o ddatblygu uchelgeisiau cynnwys y BBC, a blaenoriaeth hollbwysig i'r busnes yn 2018/19 fydd sicrhau y gweithredir y broses uno hon yn llwyddiannus.

Mae'r DU yn newid, a hynny'n gyflym. Mae arferion cyfryngau ein cynulleidfaoedd yn wahanol iawn o gymharu â phum mlynedd yn ôl. Mae cynulleidfaoedd iau, yn benodol, yn defnyddio llai o'r BBC yn sgil mwy o gystadleuaeth am eu hamser gan ddarparwyr cyfryngau eraill, yn enwedig ar-lein, a mathau eraill o adloniant. Byddwn yn parhau i arloesi ar-lein, gan ymateb i'r datblygiadau diweddaraf wrth i fwy o gynulleidfaoedd ddewis cyrchu gwasanaethau a chynnwys yn ddigidol. Bydd hyn yn galw hefyd am fwy o fuddsoddiad yn y seilwaith ategol.

Mae cwmnïau mawr newydd fel Amazon a Netflix yn golygu bod y farchnad cyfryngau fyd-eang yn cael ei dominyddu'n gynyddol gan nifer fach o gwmnïau cyfryngau enfawr yn yr UD sydd â grym creadigol ac ariannol anhygoel.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld chwyddiant uwch mewn meysydd fel drama a chomedï, ac rydym bellach yn gweld yr effaith hon yn symud

94%

o sylfaen costau'r BBC wedi ei brofi yn unol â 'Cystadlu neu Gymharu'.

i feysydd allweddol eraill o'n hallbwn, fel rhaglenni ffeithiol. Mae cost hawliau darlledu chwaraeon wedi codi'n eithriadol o gyflym ond, yn gyffredinol, mae cost syniadau a thalent wedi codi'n gyflym.

Yn y cyd-destun hwn, her frys y BBC yw datblygu ffyrdd newydd o dyfu ein hincwm fel y gallwn ddal i fyny â datblygiadau yn y farchnad o'n hamgylch, yn ogystal â diogelu cynnwys Prydeinig nodedig a hanes creadigol Prydain yn llwyddiannus.

Bydd llwyddiant creadigol a masnachol ein timau yn y BBC Studios cyfunol newydd yn hollbwysig. Mae cyd-gynrychiadau â'r partneriaid byd-eang gorau eisoes yn rhan fawr o waith comisiynu'r BBC – ac mae cyfresi fel *Blue Planet II* yn gallu denu buddsoddiad o bob cwr o'r byd. Mae hwnnw'n fodel y byddwn yn parhau i'w ddilyn lle mae'n ein galluogi i ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd.

Ond ochr yn ochr â'r gwir botensial am gyd-gynhyrchu a thwff masnachol, rhaid i ni hefyd ystyried opsiynau eraill i arbed arian neu gynyddu incwm. Bydd yn golygu gwneud rhai penderfyniadau anodd ac mae'n debygol o alw am ddatl gyhoeddus wirioneddol am y math o BBC y mae'r DU am ei gael ac sydd ei angen arni.

Anne Bulford

Anne Bulford OBE

Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

21 Mehefin 2018

Trosolwg ariannol

Sut rydym yn defnyddio ffi'r drwydded

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn gosod cyfrifoldebau sylweddol ar y sefydliad i wneud y canlynol:

- rhoi gwerth am arian drwy ganolbwyntio gwariant ar y rhaglenni a'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd am eu cael fwyaf gan y BBC;
- sicrhau bod yr allbwn yn cael ei gyflwyno mewn ffordd mor gosteifeithlon â phosibl;
- sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon ar gyfer casglu ffi'r drwydded;
- sicrhau'r cyllid mwyaf o ffynonellau eraill, mewn ffordd sy'n gyson â thelerau ei Siarter a rhwymedigaethau eraill.

Canlyniadau ar gyfer y flwyddyn

Gall gwariant blynyddol amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar amseriad digwyddiadau chwaraeon mawr

a buddsoddiad mewn rhaglenni newid, gan gynnwys ailstrwythuro. Yn gyffredinol, amcan ariannol y BBC yw rheoli canlyniad incwm a gwariant manteledig dros amser, gan sicrhau bod cronfeydd arian parod wrth gefn a chyfleusterau benthyca digonol ar gael i reoli gwahaniaethau amseru a darparu arian wrth gefn.

Dengys ein canlyniadau eleni unwaith eto ein bod wedi llwyddo i ateb yr heriau ariannol sy'n ein hwynebu, gan roi sylfaen gadarn ar gyfer cyflawni ein hymrwymadau yn y dyfodol a'n huchelgeisiau strategol. Mae cynnydd yn incwm ffi'r drwydded a grant y World Service, ynghyd â gostyngiad mewn costau gweithredu drwy ein rhaglenni effeithlonrwydd, wedi arwain at warged grŵp o £180 miliwn am y flwyddyn (2017: diffyg o £129 miliwn).


Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r datganiad incwm.

Incwm

Cynyddodd cyfanswm incwm ffi'r drwydded 1.1% neu £43 miliwn o £3,787 miliwn i £3,830 miliwn, a oedd yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd CPI

Sut caiff eich ffi trwydded fisol ei gwario 2017/18

£12.25 fesul cartref
(2016/17: £12.13)



Teledu 2016/17	£6.40 £6.92
Radio 2016/17	£2.06 £2.02
BBC World Service 2016/17	£1.06 £0.90
Costau Gwasanaethau a Chynhyrchion Eraill 2016/17	£0.67 £0.82
BBC Ar-lein 2016/17	£0.91 £0.90
Casglu ffi'r drwydded a chostau diffyg pensiwn 2016/17	£1.15 £0.57

Datganiad incwm cyfunol cryno

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

Dosbarthiad y datganiad incwm	Beth ydyw?	2018 £m	2017 £m	Beth ddigwyddodd?
Incwm o ffi'r drwydded	Cyfanswm y ffioedd trwyddedau a gasglwyd	3,830	3,787	Cynydd o 1.1% yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn chwyddiant.
Incwm arall	Incwm masnachol	1,233	1,167	Cynydd oherwydd incwm ychwanegol World Service ac incwm allanol a gynhyrchir gan BBC Studios.
Cyfanswm incwm		5,063	4,954	
Costau gweithredu	Cost cynhyrchu'r holl gynnwys a rhedeg y BBC	(4,815)	(4,943)	Lleihad o ganlyniad i amseru digwyddiadau chwaraeon mawr (fel y Gemau Olympaidd a Phencampwriaeth Ewro 2016 UEFA) a newid i'r amcangyfrif cyfrifyddu mewn blwyddyn flaenorol mewn perthynas ag amorteiddio hawliau dosbarthu a ddelir gan BBC Worldwide.
Costau ailstrwythuro	Symiau a ddarparwyd er mwyn ariannu mentrau effeithlonrwydd yn y dyfodol	(14)	(50)	Parhau i ddatblygu cynlluniau arbed.
Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau	Ein cyfran o elw'r busnesau lle rydym yn rheoli 50% neu lai	36	46	Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu elw llai UKTV (buddsoddiad a ddelir gan BBC Worldwide).
Ennill o waredu asedau anghyfredol	Elw o waredu gweithrediadau ac asedau sefydlog	5	8	Elw a gynhyrchir o waredu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu o fewn BBC Worldwide.
Costau ariannu net	Y llog net ar asedau a rhwymedigaethau pensiwn y BBC, llog ar fenthyciadau a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau	(96)	(134)	Gostyngiad o ganlyniad i enillion y gyfradd gyfnewid ar fenthyciadau ac amrywiad yn y tâl sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn.
Tâl trethiant	Rhwymedigaeth dreth net y BBC ar ei elw trethadwy	1	(10)	Codir tâl treth ar weithgareddau masnachol. Fe'u gwrthbwysir gan effaith newidiadau yn y gyfradd dreth ar dreth ohiriedig yn 2017/18.
Gwarged/(diffyg) y Grŵp am y flwyddyn		180	(129)	

I gael rhagor o fanylion, darllenwch y datganiadau ariannol manwl ar dudalen 185.

a gymhwyswyd at ffi'r drwydded ar ôl ei rhewi am chwe blynedd, o £145.50 i £147.00. Daethpwyd i gytundeb â'r Llywodraeth ynghylch y cynnydd hwn yn ystod setliad diweddaraf ffi'r drwydded.

Casglu ffi'r drwydded

Mae systemau rheoli ariannol effeithiol yn rhan allweddol o gydberthynas unigryw'r BBC â'i gynulleidfaoedd. Mae hyn yn cynnwys gwario ffi'r drwydded yn effeithlon a chasglu ffi'r drwydded deledu gan bawb y mae'n ofynnol iddynt brynu un. Mae gan y BBC nifer o drefniadau cytundebol sy'n cwmpasu casglu, gweinyddu a gorfodi ffi'r drwydded, marchnata, rheoli sianelau talu a rhwydweithiau manwerthu. Mae'r mwyafrif o'r gwaith gweinyddol wedi ei roi ar contract i Capita Business Services Ltd. Dyma chweched flwyddyn y contract casglu cyfredol – sydd wedi sicrhau £140 miliwn o arbedion hyd yma. Disgwylir arbed cyfanswm o £220 miliwn mewn costau dros ddeng mlynedd y contract, gan ryddhau mwy o arian i'w wario ar ein rhaglenni a'n gwasanaethau.

Datganiad ffi'r drwydded

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r BBC yn paratoi datganiad refeniw ffi'r drwydded a gaiff ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym ac a dalwyd i Lywodraeth EM yn ystod y flwyddyn. Ynghyd â'i gwaith archwilio, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn edrych ar ein trefniadau casglu ac yn adrodd arnynt i'r Senedd. Ceir rhagor o wybodaeth am ddatganiad refeniw ffi'r drwydded ar wefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: www.nao.org.uk/report/bbc-licence.

Canolbwyntio gwariant

Mae'r BBC yn canolbwyntio ei wariant ar gynhyrchu rhaglenni nodedig a chynnwys arall a'r modd y'u cyflwynir i gynulleidfaoedd a defnyddwyr, ynghyd â'r seilwaith hanfodol i gefnogi hyn. Gall gwariant o flwyddyn i flwyddyn amrywio'n sylweddol oherwydd y cylch o ddigwyddiadau chwaraeon mawr. Gostyngodd cyfanswm y gwariant ar gynnwys 4% i £2,623 miliwn (2016/17: £2,734 miliwn) eleni, yn bennaf oherwydd y buddsoddiad ychwanegol yn ein darllediadau o Gemau Olympaidd 2016 Rio a Phencampwriaeth Pêl-droed Euro 2016 yn 2016/17.

Costau pensiwn

Ar 31 Mawrth 2018, roedd y diffyg pensiwn cyfrifyddu (fel y'i diffinnir gan IAS 19) wedi cynyddu 55% i £518 miliwn o gymharu ag £1,149 miliwn flwyddyn yn ôl. Roedd y gostyngiad yn ystod y flwyddyn gyfredol o ganlyniad i ennill net yn sgil newidiadau yn y tybiaethau prisio o £737 miliwn a chyfraniadau o £155 miliwn a dalwyd, wedi'u gwrthbwyso gan daliad gweithredu blynyddol o £236

miliwn a chostau cyllid net o £25 miliwn.

Dim ond 'cipolwg' ar ddyddiad penodol yw'r prisiad cyfrifyddu hwn, ac felly mae'n sensitif i amrywiadau byrdymor yn y farchnad. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar y gost arian parod wirioneddol sy'n gysylltiedig â thalu'r diffyg yn y cynllun pensiwn, a gaiff ei adolygu fel rhan o brisiadau actiwaraid teirblwydd.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblwydd diweddaraf ym mis Mehefin 2017 a dangosodd ddiffyg ariannu o £1,769 miliwn ar 1 Ebrill 2016. Mae'r BBC ac Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno ar gynllun ad-dalu sy'n para tan 31 Rhagfyr 2028. Ystyrir bod y cynllun hwn un fforddiadwy i ymdrin â'r diffyg, heb roi gwasanaethau i gynulleidfaoedd yn y fantol na pheryglu buddiannau aelodau'r cynllun pensiwn. Disgwylir i'r prisiad actiwaraid ffurfiol nesaf o'r Cynllun gael ei gynnal ar 1 Ebrill 2019. Mae'r BBC yn parhau i weithio gydag Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn i sicrhau bod y Cynllun yn rhoi diogelwch i aelodau a gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

Arian parod

Balans arian parod y BBC ar ddiwedd y flwyddyn yw £523 miliwn. Mae sefyllfa ariannol gadarn gyfredol y BBC yn adlewyrchu effaith gadarnhaol y cynnydd yn y CPI ar incwm ffi'r drwydded a lleihad y cytunwyd arno mewn rhwymedigaethau Band Eang, a chyflawni cynlluniau arbedion diweddar yn llwyddiannus. Defnyddir yr arian parod hwn i barhau i gyflwyno cynnwys o'r radd flaenaf i gynulleidfaoedd y BBC, gan fodloni rhwymedigaethau yn y dyfodol (sy'n cynnwys ad-daliadau diffyg pensiwn) a rheoli cost ac amseriad cyflawni rhaglenni arbedion, wrth ragweld ariannu trwyddedau i'r boblogaeth dros 75 oed.

Treth

Mae'r BBC yn ymrwymedig i dalu'r swm cywir o dreth (treth cyflogaeth, TAW a threth gorfforaeth) ar yr adeg iawn, ym mhob un o'r awdurdodaethau y mae'n gweithredu ynddynt. Mae'r BBC yn cydnabod pwysigrwydd talu'r swm cywir o dreth i'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt, ac mae'n cymryd ei rhwymedigaethau cymdffurfio â rheolau treth o ddifrif. Nid yw'r BBC yn llunio unrhyw drafodion gyda'r bwriad o leihau ei rhwymedigaeth treth mewn modd artiffisial nac ymosodol. Cyhoeddodd y BBC ei strategol treth yn unol â Deddf Cyllid 2016. Mae i'w gweld ar wefan y BBC: www.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/tax_strategy_17_18. Mae'r BBC yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth 'Gweithio oddi ar y gyflogres yn y Sector Cyhoeddus' a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2017 ac mae wedi ymwneud yn weithredol

â CThEM mewn perthynas â'r newid mawr hwn yn neddfwriaeth treth y DU.

Sicrhau arbedion effeithlonrwydd

Ers 2010 mae'r cyllid ar gyfer gwasanaethau'r BBC i gynulleidfaoedd y DU wedi gostwng mewn termau real 18%, gan fod ffi'r drwydded wedi ei rhewi am chwe blynedd ac roedd yn rhaid i'r BBC gymryd cyfrifoldeb am rwymedigaethau newydd. Er gwaethaf y gostyngiad hwn mewn cyllid, mae'r BBC wedi llwyddo i gynnal ansawdd a chyrrhaeddiad oherwydd rhaglen sylweddol a helaeth o reoli costau. Cyflawnwyd £1.6 biliwn o arbedion cylchol blynyddol yn ystod cyfnod diwethaf y Siarter. Ers cyflawni'r arbedion hyn, cyflawnwyd £244 miliwn ychwanegol o arbedion blynyddol – y cyflawnwyd £160 miliwn ohonynt yn ystod 2017/18. Mae hyn ar y blaen i'r targed o £226 miliwn hyd yma ac yn gam sylweddol tuag at y targed diweddaraf o £800 miliwn erbyn 2021/22. Cyflawnwyd £33 miliwn yn rhagor o arbedion o fewn yr is-adrannau a BBC Worldwide i ariannu blaenoriaethau newydd, gan gyflawni arbedion gwerth £277 miliwn i gyd.

Gwnaed llawer iawn o waith i wneud y BBC yn symlach, yn fwy darbodus ac yn fwy effeithlon. Cafodd gorbenion eu lleihau i lefelau sy'n arwain y diwydiant: dim ond 6% o gyfanswm y costau. Mae hyn yn golygu bod y BBC yn y 25% mwyaf effeithlon o sefydliadau rheoleddid nid er elw wedi'i meincnodi yn y wlad; ac yn y 25% mwyaf effeithlon o gwmnïau wedi'u meincnodi yn y sector telathrebu a chyfryngau. Mae bil eiddo'r BBC wedi gostwng tua £90 miliwn y flwyddyn ers 2011/12. Gwnaeth gwariant ar contractau strategol mawr ostwng £354 miliwn rhwng 2011/12 a 2017/18 – arbediad o 48%. Ailariannwyd London Broadcasting House y llynedd, gan arbed £10 miliwn arall y flwyddyn, gan aeddfedu'n raddol i tua £34 miliwn y flwyddyn pan ddaw tymor y brydles i ben yn 2033.

Mae 'Cystadlu neu Gymharu', dull y BBC o nodi arbedion effeithlonrwydd yn y sylfaen costau drwy gystadleuaeth neu feincnodi, yn elfen allweddol o ymdrechion y BBC i sicrhau arbedion effeithlonrwydd parhaus. Mae'r fframwaith yn sicrhau y caiff popeth y mae'r BBC yn ei wneud ei herio yn y farchnad neu'i feincnodi yn ei herbyn. Mae hyn yn gwella ansawdd ac yn lleihau costau. Daeth adolygiad mewnol yn ystod y flwyddyn i'r casgliad bod 94% o wariant rheoladwy'r BBC yn bodloni meini prawf 'Cystadlu neu Gymharu', naill ai drwy gystadleuaeth uniongyrchol neu drwy gymharu a meincnodi manwl (2016/17: 90%).

Costau eiddo

Mae torri costau eiddo yn elfen allweddol

o gynllun effeithlonrwydd y BBC. Mae'r BBC wedi lleihau ei ôl troed o ran eiddo tua 40% ers 1998 ac erbyn hyn, mae cyfanswm yr arbedion eiddo a sicrhawyd ers 2011 yn cyfateb i tua £90 miliwn y flwyddyn. Mae'r BBC yn parhau i adolygu ei adeiladau yn Llundain i ymchwilio i ffyrdd o ddarparu'r gwerth gorau am arian a gwneud defnydd mwy effeithlon o le, yn ogystal ag atgyfnerthu a gwella eiddo i greu amgylcheddau gwaith modern ac effeithlon. Yn ystod 2017/18, symudodd y BBC allan o sawl eiddo yn Llundain, gan gynnwys Grafton House, Brock House, Great Portland Street ac Euston Square. Disgwylir i faint yr ystad leihau ymhellach er mwyn cyrraedd targed ystad eiddo'r DU o 355,000m² erbyn 2020 – gostyngiad o dros 20% ers 2014. Disgwylir i'r gostyngiadau hyn gyflawni £14 miliwn o arbedion pellach y flwyddyn.

Caffael

Mae tîm caffael y BBC yn cael ei barchu'n fawr gan y diwydiant – gan ennill 'Rhoddwr Contractau Allanol Gorau'r Sector Cyhoeddus', a'r BBC hefyd oedd yr unig gorff cyhoeddus i gyflawni achrediad y Global Sourcing Association gyda theilyngdod. Mae'r gost o redeg yr adran draean yn is na'i meincnod 'o'r radd flaenaf'.

Mae'r BBC yn adolygu sefyllfa ariannol ei gyflenwyr gwasanaethau mawr ar contractau allanol yn rheolaidd, sy'n cynnwys dadansoddi adroddiadau gan asiantaethau credyd masnachol allanol. Mae'r trefniadau cytundebol a lunnir gyda'r cyflenwyr hyn yn cynnwys darpariaethau archwilio llyfr agored yn ogystal â pharhad busnes cynhwysfawr a rhwymedigaethau ymadael.

Rhwng 2012/13 a 2017/18 gostyngodd gwariant ar contractau strategol mawr o £684 miliwn i £396 miliwn, gan arbed 42%. Mae rheoli perfformiad cyflenwyr, awtomeiddio a thrawsnewid y broses gaffael oll wedi bod yn rhan annatod o sicrhau'r arbedion hyn. Mae rheolwyr contractau cyflenwyr penodedig yn atgyfnerthu dull rheoli contractau'r BBC drwy olrhain perfformiad yn erbyn gofynion busnes.

Technoleg

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y BBC ailgaffael y contract gwasanaethau technoleg craidd, sy'n darparu gwasanaethau technoleg a TG hollbwysig i wneuthurwyr rhaglenni a staff. Mae'r contract newydd wedi trawsnewid y ffordd y mae'r BBC yn darparu ac yn rheoli ei dechnoleg. Ers 2004, mae'r rhan fwyaf o wasanaethau technoleg y BBC ar contract allanol wedi'u darparu gan un darparwr allanol, ond nid yw'r contract newydd yn gyfyngol, a darperir gwasanaethau gan gyfuniad o drydydd

partion a thimau mewnol. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC a mynediad i dechnoleg newydd wrth iddi ddod i'r amlwg. Bydd yr ymarferion ail-gaffael technoleg hyn yn arwain at arbedion hirdymor gwerth cannoedd o filiynau o bunnoedd dros oes y contractau, gan gynnwys arbedion o tua £90 miliwn y flwyddyn ers 2014/15.

Ein pobl

Mae ystod eang o ddiwygiadau sefydliadol wedi eu gwneud, o leihau haenau rheoli i uno a symleiddio is-adrannau. Er bod lefelau staff wedi bod yn gyson dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r ffocws ar rolau cyflogaion wedi newid yn sylweddol tuag at wasanaethu'r gynulleidfa a meithrin gallu technolegol y BBC. Mae gostyngiadau mewn cymorth proffesiynol a gwasanaethau gweinyddol wedi caniatáu i ffi'r drwydded gefnogi'r gwaith o ymgymryd â'r World Service, creu cynnwys mwy gwreiddiol a gwella gwasanaethau digidol i gynulleidfa oedd y BBC.

Mae'r broses fawr o symud staff i Media City yn Salford, Mailbox yn Birmingham a Pacific Quay yn Glasgow, yn ogystal â chau'r Ganolfan Deledu a sawl eiddo arall yn Llundain, wedi helpu i newid agwedd ddaearyddol y BBC fel ei fod yn fwy cynrychioliadol o'r DU.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ganfyddiadau ei hadolygiad o'r modd y mae'r BBC yn rheoli ac yn cynllunio ei weithlu. Cydnabu'r adroddiad fod y BBC, rhwng 2010/11 a 2015/16, wedi lleihau cost y gweithlu ar ei gyflogres 6% ac wedi lleihau maint y gweithlu ar ei gyflogres 4%, gan gyflawni £59 miliwn o arbedion mewn termau real ar gyfer cyflogau.

Mae sefydliad symlach yn anochel yn gofyn am dîm arwain mwy penodol a llai o reolwyr, yn enwedig ar lefel uwch swyddogion. Mae BBC symlach hefyd yn golygu uwch arweinwyr sy'n fwy gweladwy, atebol a chyfeillgar. Mae'r BBC hefyd wedi sicrhau gostyngiad o 57% yn nifer yr uwch reolwyr sydd ganddo, o 614 ym mis Mawrth 2010 i 267 erbyn mis Mawrth 2018. Mae hyn wedi arbed £38 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd y BBC archwiliad Cyflog Cyfartal annibynnol gan PricewaterhouseCoopers LLP ac Eversheds Sutherland (International) LLP. Tynnodd yr adroddiad ar Gyflog Cyfartal sylw at

bwysigrwydd dull cyson o ran cyflogau a lwfansau. Mae'r BBC wedi datblygu set sylfaenol o ddiwygiadau mewn perthynas â'i systemau talu a graddio sy'n cynnwys gwerthuso swydd, telerau ac amodau newydd arfaethedig ac ystodau cyflogau mwy tryloyw wedi eu llywio gan y farchnad.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd y BBC, yn annibynnol, yn adolygu p'un a oes gan y sefydliad rywfaint o gyfrifoldeb dros gyflwynwyr llawrydd ar yr awyr sydd bellach yn wynebu galwadau hanesyddol gan CThEM ar ôl cael eu talu drwy gwmnïau gwasanaethau personol. Mae rhwymedigaeth wrth gefn wedi ei datgelu yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'r mater hwn. Ni ddarparwyd swm am fod y canlyniad yn ansicr. Mae trafodaethau â CThEM ar y materion hyn yn parhau.

Gweithgareddau masnachol ac incwm arall

Ategir ffi'r drwydded gan incwm a wneir o'r defnydd masnachol o gynnwys a seilwaith a ariennir gan ffi'r drwydded drwy bedwar is-gwmni masnachol – BBC Worldwide, BBC Studios, BBC Global News a BBC Studioworks.

BBC Worldwide

Mae BBC Worldwide yn cefnogi cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus y BBC ac yn cynhyrchu incwm ar gyfer grŵp y BBC. Eleni, cynhyrnodd y grŵp elw o £210 miliwn er budd grŵp y BBC (a oedd yn cynnwys difidendau a buddsoddiadau mewn rhaglenni), uwchlaw £200 miliwn am y bedwaredd flwyddyn yn olynol (2017: £210 miliwn). Mae'r grŵp yn sicrhau'r gwerth mwyaf o ran eiddo deallusol y BBC, gan ddarparu incwm i ariannu rhaglenni nodedig o ansawdd uchel i dalwr ffi'r drwydded, gan gefnogi diwydiant teledu'r DU ar lwyfan y byd hefyd.

Yn ystod 2017/18, cynhyrnodd BBC Worldwide brif werthiannau (gan gynnwys incwm o gyd-fentrau a phartneriaethau cyswllt) o £1,044 miliwn, sy'n ostyngiad o 2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2017: £1,060 miliwn). Sicrhodd y busnes dwf mewn sianelau wedi eu brandio gan y BBC, caffaelwyr buddran fwyafrol yn Sid Gentle Films Limited (cwmni cynhyrchu annibynnol) a llwyddwyd i gyfateb â record y flwyddyn flaenorol o ran gwerthiannau cynnwys, a'r busnes, unwaith eto, oedd

Gweithgarwch masnachol

	Prif werthiannau		EBITDA (gan gynnwys credydu treth)	
	2017/18 £m	2016/17 £m	2017/18 £m	2016/17 £m
BBC Worldwide	1,044	1,060	118	84
BBC Studios	432	–	7	–
BBC Global News	109	110	18	2
BBC Studioworks	31	26	3	4

dosbarthwr cynnwys mwyaf y DU. Hefyd, cynyddodd cynrychiadau a fformatau mewn Marchnadoedd Byd-eang ond gwnaeth y ffaith bod llai o oriau o *Dancing with the Stars* wedi cael eu darlledu adlewyrchu'r gostyngiad yn America. Cafodd y twf hwn mewn gwerthiannau fwy na'i wrthbwysu gan y broses ryng-gwmniol o drosglwyddo gwerthiannau hysbysebu i Global News, gan barhau â'r dirywiad yn y farchnad DVD ac effaith adnewyddu contractau yn UKTV.

Roedd EBITDA o £118 miliwn 40% yn uwch na'r llynedd. Adlewyrchodd hyn berfformiad cryf mewn gwerthiannau cynnwys, costeffeithlonwydd ar draws gwasanaethau wedi'u brandio ac arbedion o ran gorbenion. Gwnaeth y rhain wrthbwysu pwysau sylweddol o ran arian cyfred a dirywiad mewn cynhyrchion defnyddwyr. Roedd 2016/17 hefyd yn cynnwys newid i'r amcangyfrif cyfrifyddu untro mewn perthynas ag amorteiddio hawliau dosbarthu (£68 miliwn).

Roedd llif arian parod rhydd o £121 miliwn 33% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (2017: £91 miliwn). Ar ôl addasu ar gyfer eitemau penodol untro, ochr yn ochr â chyfnwid tramor a pherfformiad cyd-fentrau, mae hyn yn gynyddo o 41% mewn llif arian parod rhydd a berchenogir ac a weithredir.

Parhaodd rhaglen drawsnewid BBC Worldwide yn 2017/18, gyda ffocws cynyddol ar berchenogaeth eiddo deallusol (IP); ar gwsmeriaid a marchnadoedd gwerth uchel; ac ar frandiau rhyddfrait byd-eang. Buddsoddodd y grŵp £171 miliwn mewn cynnwys yn ystod y flwyddyn (2017: £174 miliwn), gyda buddsoddiad mewn cynnwys a gomisiynwyd gan y BBC yn cynyddu i £106 miliwn (2017: £99 miliwn), gan gefnogi rhaglenni ar y sgrin ar bob un o sianelau'r BBC. Parhawyd i feithrin cydberthnasau ar draws y sector annibynnol, gyda chyfanswm yr elw i gwmnïau annibynnol drwy fuddsoddiadau hawliau, breindaliadau a rhannu elw yn £149 miliwn yn ystod y flwyddyn (2017: £146 miliwn). Prynodd BBC Worldwide fuddsoddiadau ecwiti mewn tri chwmini cynhyrchu drama annibynnol Prydeinig, gan gefnogi entrepreneuriaeth ym Mhrydain a chynhyrchu eiddo deallusol gan wella dyfodol ei gyflenwad cynnwys ei hun ar yr un pryd.

Perfformiodd gwasanaethau rhyngwladol wedi'u brandio gan y BBC yn gryf, gyda BBC America yn cofnodi'r twf mwyaf erioed am y 13eg flwyddyn yn olynol o ran nifer y gwylwyr yn ystod oriau brig, BBC First oedd y sianel rhyngwladol fwyaf poblogaidd yn yr Iseldiroedd ers dechrau 2018, a dathlodd Sony BBC Earth (sianel menter ar y cyd â Sony Pictures) ei phen-blwydd cyntaf fel y sianel adloniant a gwybodaeth fwyaf poblogaidd mewn chwe dinas fetropolitanidd yn India.

Ymestynnodd ôl troed sianel linellol BBC Earth ar draws Groeg a'r Balcanau. Bu *Blue Planet II* yn llwyddiant ysgubol gyda chynulleidfaoedd rhyngwladol, a'r rhaglen gyntaf oedd y rhaglen natur wedi ei chefnogi gan hysbysebion a gafodd ei gwylwio fwyaf mewn bron wyth mlynedd yn USA. Cafodd cynnwys *Blue Planet II* ei weld dros 250 miliwn o weithiau ar blatfform VOD Tsieinaidd Tencent rhwng mis Medi 2017 a diwedd y flwyddyn.

Cafodd Britbox, y bartneriaeth tanysgrifio gwasanaeth fideo ar alw ag ITV plc, flwyddyn gyntaf gref yn USA. Lansiodd hefyd yng Nghanada ym mis Chwefror 2018 a chyrraeddodd garreg filltir o ran cyfanswm y tanysgrifwyr, sef 250,000 yn gyfunol ar gyfer USA a Chanada erbyn diwedd mis Chwefror 2018. Lluniodd y grŵp sawl cytundeb byd-eang newydd yn ystod 2017/18, gan gynnwys un gyda Shanghai Media Group Pictures (un o gwmnïau cyfryngau blaenllaw Tsieina) a fydd yn arwain at ehangu brand *Doctor Who* yn Tsieina; a chafodd partneriaethau â Foxtel, ABC, Sky a Fetch eu cadarnhau gyda chytundebau newydd neu barhaus yn Awstralia a Seland Newydd.

BBC Studios

BBC Studios yw cangen cynhyrchu teledu y BBC, sy'n creu cynnwys nodedig, poblogaidd ar draws ystod eang o genres. Mewn marchnad hynod gystadleuol, mae BBC Studios yn darparu ffynhonnell sefydlog ac ar raddfa fawr o eiddo deallusol ar gyfer grŵp y BBC, gan gynhyrchu gwerth i gynulleidfaoedd ac elw i dalwyr ffrîr drwydded.

Fel rhan o'r newid mawr i strategaeth cyflenwi cynnwys y BBC, daeth BBC Studios yn is-gwmni masnachol a berchenogir yn llawn gan y BBC ym mis Ebrill 2017. O ganlyniad, nid oes gan BBC Studios fusnes gwarantiedig gan y BBC mwyach, ond am y tro cyntaf mae'r cwmni wedi gallu gwneud rhaglenni i ddarlledwyr eraill. Mae hyn yn gyfle mawr i rannu syniadau creadigol â chynulleidfaoedd newydd ledled y byd a chynyddu refeniw i grŵp y BBC. Mae BBC Studios yn gwneud cynnydd cyflym wrth ennill comisiynau newydd ac mae eisoes wedi cyhoeddi cytundebau â Discovery, Channel 4 a Channel 5.

Blaenoriaeth BBC Studios eleni oedd trawsnewid y busnes ar gyfer yr amgylchedd mwy cystadleuol hwn, wedi ei lywio gan y farchnad. Strategaeth y grŵp yw datblygu portffolio mwy cytbwys o fusnes drwy barhau i ddarparu rhaglenni sydd eisoes yn bodoli i'r safonau creadigol uchaf gan fuddsoddi mewn cynhyrchu eiddo deallusol newydd ac arallgyfeirio ei sail cwsmeriaid y tu hwnt i'r BBC. I gefnogi'r strategaeth hon, cyflawnwyd arbedion effeithlonwydd i leihau

sylfaen costau'r cwmni a chyflwynwyd model gweithredu hyblyg newydd.

Mae'r mesurau hyn wedi helpu i gyflawni blwyddyn gyntaf lwyddiannus o fasnachu. Roedd y prif werthiannau yn £432 miliwn, a helpodd gostyngiadau mewn gorbenion i lywio EBITDA (gan gynnwys credydau treth) o £7 miliwn. Mae hyn yn eithrio enillion o ddefnydd eilaidd a byd-eang o eiddo deallusol a gedwir yn hanesyddol gan y Gwasanaeth Cyhoeddus (e.e. *Strictly Come Dancing*).

Cynhyrchodd BBC Studios dros 2,000 o oriau o gynnwys ar y teledu a'r radio yn 2017/18. Cafodd ei gydnabod yn y diwydiant yn eang ac enillodd fwy nag 80 o wobrau a chafodd ei enwebu 200 o weithiau, a hwn oedd y cynhyrchydd mwyaf llwyddiannus o ran gwobrau yn y DU. Darparodd hefyd rai o raglenni mwyaf poblogaidd y flwyddyn gyda chyngerdd *One Love Manchester*, *Strictly Come Dancing*, ac *EastEnders* a *Mrs Brown's Boys* dros y Nadolig. Pan lansiodd *Blue Planet II*, gyda chynulleidfa o 14 miliwn, hon oedd y rhaglen hanes naturiol fwyaf mewn 15 mlynedd, a dangosodd yr ymgyrch gwrth-blastig a ddeilliodd o'r rhaglen yr effaith gadarnhaol y gall teledu ei chael ar gymdeithas.

Gwnaeth BBC Studios gynydd da eleni wrth sicrhau busnes y tu hwnt i'r BBC, pwynt tystiolaeth allweddol ar gyfer y strategaeth newydd. Sicrhawyd comisiynau fel *Fatberg Autopsy* ar gyfer Channel 4, *Inside Hotel Chocolat* ar gyfer Channel 5 a rhaglen Cherry Healey yn ymchwilio i lawdriniaeth gosmetig ar gyfer UKTV.

BBC Global News

Mae BBC Global News yn gweithredu dau wasanaeth newyddion rhyngwladol y BBC a ariennir yn fasnachol: BBC World News, y sianel deledu newyddion byd-eang 24 awr, a'r llwyfan digidol bbc.com (gan gynnwys gwefan bbc.com, ap Newyddion ac ap Chwaraeon). Cenhadaeth BBC Global News yw sicrhau mai ef yw'r darparwr newyddion rhyngwladol gorau, yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd, a chynyddu cynulleidfaoedd newyddion rhyngwladol y BBC a gweithredu fel busnes sy'n effeithlon yn fasnachol.

Yn 2017/18 parhaodd ôl troed byd-eang BBC World News i ehangu, gan dyfu 2% dros y flwyddyn ac mae bellach ar gael i 458 miliwn o gartrefi, sef y nifer fwyaf erioed (o gymharu â 450 miliwn yn 2016/17). Ysgogwyd y twf hwn gan enillion yn Ewrop, Cyfandiroedd America a De Asia.

Cynyddodd lefelau ymgysylltu bbc.com yn ystod y flwyddyn, gan arwain at gyfanswm yr ymweliadau â thudalennau ar draws pob platfform (gwefan, apiau a theledu cysylltiol) yn parhau yn sefydlog ar gyfartaledd misol o 1.3 biliwn, er gwaethaf gostyngiad yn nifer y

gynulleidfa yn fisol, sef 88 miliwn o borwyr unigryw ar gyfartaledd yn 2017/18.

Mae defnyddio cynnwys y BBC oddi ar y platfform yn chwarae rhan bwysig yn strategaeth dosbarthu cynnwys a masnachol BBC Global News. Parhaodd BBC Global News â'i bartneriaethau llwyddiannus ac ymrwymodd i gytundeb newydd â News Republic. Presenoldeb BBC News ar y cyfryngau cymdeithasol yw un o'r rhai mwyaf o ran newyddion rhyngwladol gyda thros 46 miliwn o achosion o hoffi ar Facebook yn fyd-eang a thros 23 miliwn o ddilynwyr ar Twitter.

Yn 2017/18, cydnabuwyd BBC Global News am ragoriaeth ei newyddiaduraeth gyda nifer o wobrau, gan gynnwys Gwobr Peabody am ohebu ar helyntion ffoaduriaid Rohingya ar BBC World News, y Rhaglen Newyddion Orau yng Ngwobrau Teledu Asia ar gyfer *Newsday*, a Stori Newyddion Teledu y Flwyddyn yng ngwobrau Cymdeithas y Wasg Dramor am y rhaglen ddogfen *Our World's Starving Yemen*. Yng Ngwobrau Darlledu 2018, enillodd cyfweiliad yr Athro Robert Kelly ar BBC World News (lle gwnaeth ei blant darfu ar y cyfweiliad) Eiliad Teledu y Flwyddyn. Enillodd Online, gwefan nodwedd diwylliant *bbc.com* Webby am ei phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol ac enillodd y wefan nodwedd Teithio wobwr Aur Lowell Thomas am y wefan Newyddiaduraeth Teithio Orau.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd BBC Advertising (rhan o BBC Worldwide gynt) ei chynnwys yn BBC Global News, gan ddyblu nifer y staff y flwyddyn nesaf i 350 o staff. Fel y nodwyd yn Adolygiad Tirwedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o weithgareddau masnachol y BBC, crëwyd her ariannol sylweddol i BBC Global News o ganlyniad i gynnwys BBC Advertising. Gwnaed cynnydd cyflym

yn ystod y flwyddyn i ateb yr her hon a bwriedir gwneud gwelliannau proffidioldeb pellach yn ystod 2018/19 er mwyn sicrhau y cyflawnir targedau masnachol yn barhaus.

Cofnododd Global News EBITDA o £18 miliwn ac elw cyn trethiant o £16 miliwn yn 2017/18. Cafodd y cynnydd sylweddol mewn EBITDA ac elw cyn trethiant eu llywio gan enillion cyfnewid tramor sylweddol ar brisiad diwedd blwyddyn safleoedd wedi'u rhagfantoli (£15 miliwn). Ac eithrio'r enillion cyfnewid tramor hyn, gwnaeth BBC Global News elw sylfaenol cyn trethiant o £1 filiwn yn 2017/18, o ganlyniad i gyfuniad o berfformiad referniw cryf a rhaglen lleihau costau.

BBC Studioworks

Mae BBC Studioworks yn is-gwmni masnachol o dan berchenogaeth lawn y BBC, sy'n gwasanaethu'r BBC a chleientiaid allanol. Ym mis Medi 2017, agorodd y cwmni stiwdios newydd a rhai wedi'u hadnewyddu a chyfleusterau ôl-gynhyrchu yn y Ganolfan Ddarlledu (TVC) yng Ngorllewin Llundain. Mae hyn yn estyniad sylweddol i'r cwmni ac yn ategu'r portffolio presennol yn Elstree.

Bu perfformiad ariannol BBC Studioworks yn gryf yn ystod y flwyddyn, gan gynhyrchu £31 miliwn o incwm (2017: £26 miliwn) ac EBITDA o £3 miliwn (2017: £4 miliwn). Llywiodd y cynnydd o 19% mewn incwm gan y broses o ailgyflwyno TVC ym mhorthffolio'r cwmni, ond mae costau sefydlu uchel y cyfleuster newydd hwn wedi arwain at leihad mewn EBITDA.

Yn ystod y flwyddyn, croesawodd BBC Studioworks nifer o gleientiaid hen a newydd i'w stiwdios a'i gyfleusterau ôl-gynhyrchu. Ar gyfer y BBC a BBC Studios, gwnaeth gynnal rhaglenni Etholiad Cyffredinol 2017, y sioe gwis *Pointless*, y ddrama barhaol *EastEnders* a'r 15fed

gyfres o *Strictly Come Dancing*. Gweithiodd hefyd gydag ITV ar adleoli *Good Morning Britain*, *Lorraine*, *This Morning* a *Loose Women* i TVC ynghyd â chynyrchiadau stiwiol llwyddiannus eraill fel sioeau byw *The Voice UK* ar ITV, *Britain's Got Talent*, *The Jonathan Ross Show*, *Celebrity Juice* a chyfres *A League of their Own* ar Sky.

Gweithiodd y tîm ôl-gynhyrchu ar brosiectau niferus gan gynnwys *Strictly Come Dancing* ar y BBC, *EastEnders* a *Sounds Like Friday Night*, *The Chase* ar ITV a *The Russell Howard Hour* ar Sky.

BBC World Service

Mae BBC World Service yn gweithredu dan drwydded sy'n nodi cylch gwaith a chwmpas ei wasanaethau, ei gyllideb flynyddol a'i brif ymrwymadau. Caiff perfformiad y gwasanaeth ei adolygu yn rheolaidd yn erbyn ei drwydded. Mae'r Drwydded Gweithredu bresennol yn nodi targed o £254 miliwn y flwyddyn o leiaf ar gyfer cyfanswm y gwariant. Eleni, roedd cyfanswm gwariant BBC World Service, £268 miliwn, yn uwch na'r targed (2017: £268 miliwn).

Buddsoddodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) £86 miliwn yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'i hymrwymiad ariannu grantiau yn BBC World Service dros gyfnod o bedair blynedd hyd at fis Mawrth 2020. Bydd y buddsoddiad hwn yn ariannu'r gwaith o drawsnewid y World Service o wasanaeth radio tonfedd fer yn bennaf i wasanaeth hollol ddigidol yn gyntaf, yn ogystal â darparu mwy o gynnwys teledu, lansio cynnwys newyddion mewn 12 o ieithoedd newydd, a chynnydd sylweddol yn allbwn y World Service yn Rwseg, yn Arabeg ac yn Saesneg.

42%

Lleihad mewn gwariant ar brosiectau strategol mawr rhwng 2012/13 a 2017/18

Darparodd BBC Studioworks stiwdios a chyfleusterau ôl-gynhyrchu ar gyfer sioeau fel *Strictly Come Dancing*



Ein pobl

Mae ein pobl wrth wraidd beth sy'n gwneud y BBC yn arbennig. Maent yn dod o gefndiroedd amrywiol, gan adlewyrchu ein cynulleidfaoedd gwahanol ac maent yn hanfodol i'r broses barhaus o ddarparu rhaglenni a gwasanaethau eithriadol. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi bod yn cydweithio gan anelu at ein huchelgais i 'wneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo', gan geisio mynd i'r afael â phryderon ynghylch rhyw, tâl a thegwch, a chreu amgylchedd lle gall ein pobl ddefnyddio eu doniau creadigol i'r eithaf.

t.75

Ein pobl

Rydym yn gwneud y BBC yn lle hyd yn oed gwell i weithio ynddo, gan werthfawrogi a pharchu cyfraniadau amrywiol a dathlu llwyddiannau.

t.78


Datblygu ein pobl

Drwy Academi'r BBC, rhoddir hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i holl staff y BBC.

t.79

Amrywiaeth

Po fwyaf amrywiol yw'r gweithlu, y gorau y gallwn ymateb iddo ac adlewyrchu ein cynulleidfaoedd yn eu holl amrywiaeth.

 **Darllenwch fwy:** bbc.co.uk/diversity

t.84

Gwaith elusenol

Rydym wedi bod yn darlledu ac yn cefnogi apeliadau elusenol ers 1923 ac mae ein hapeliadau wedi dod yn rhan hanfodol o'n cylch gwaith.

 **Darllenwch fwy:** bbc.co.uk/charityappeals

t.86

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Ym mhob rhan o'r BBC, rydym yn gweithio'n galed i leihau effaith ein gweithrediadau ar yr amgylchedd, gan sefydlu arferion cynaliadwy wrth gynhyrchu rhaglenni ac ysbrydoli ein staff i weithredu.

 bbc.co.uk/responsibility/environment

*Digwyddiad staff y BBC
Grow Your Potential*

Dylunio sefydliad effeithlon ac effeithiol

Ar ddechrau'r flwyddyn, gwnaethom symud ein his-adran Studios o'r Gwasanaeth Cyhoeddus i endid masnachol newydd. Yn dilyn hyn, gwnaethom gyhoeddi ein bod yn creu un endid masnachol cyfreithiol a gweithredol newydd gan uno BBC Worldwide a Studios, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Gelwir yr endid newydd hwn yn BBC Studios.

Ym mhob rhan o'r BBC, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar foderneiddio a sicrhau bod y BBC yn lle mwy effeithlon ac effeithiol i weithio. Mae'r rhaglen symleiddio dwy flynedd o hyd, i gyfuno gweithgareddau technoleg a digidol, lleihau gwasanaethau cymorth proffesiynol, a lleihau haenau rheoli, wedi dod i ben. Mae nifer y swyddi wedi gostwng 1,036 yn y meysydd hyn, gan arwain at arbedion o £57 miliwn.

Mae egwyddorion dylunio sefydliadol yn parhau i gael eu cymhwyso at bob gweithgarwch ailstrwythuro ym mhob rhan o'r BBC. Mae'r haenau rheoli wedi'u lleihau ymhellach ac mae mwy na 96% o'n strwythurau bellach yn cynnwys saith haen neu lai. Mae nifer yr uwch reolwyr wedi parhau i leihau i 267 (1.5% o'n cyflogaion), ac yn gyffredinol, mae gennym un rheolwr i bob 8.3 cyflogai. Mae'r gwariant ar wasanaethau proffesiynol a gweithgareddau ategol wedi'i lleihau, gan alluogi 94% o'n gwariant rheoladwy i gael ei gyfeirio at gynnwys a gwasanaethau wedi'u hanelu at y gynulleidfa.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi bod yn symleiddio teitlau swyddi ac yn cyflwyno strwythurau gyrfa cliriach drwy gyflwyno Fframwaith Llwybrau Gyrfa'r BBC (CPF). Mae hyn bellach yn cwmpasu'r mwyafrif helaeth o rolau yn y BBC ac mae wedi arwain at ostyngiad o fwy na 5,000 o deitlau swyddi i tua 619, wedi'u strwythuro o fewn 27 o deuluoedd swyddi.

Rydym yn ymrwymedig o hyd i leoli o leiaf 50% o'n cyflogaion y tu allan i Lundain ac mae tua 53% wedi'u lleoli y tu allan i'r M25 ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn, mae BBC Three wedi dechrau symud o Lundain i Birmingham er mwyn datblygu canolfan ragoriaeth ddigidol yno a chafodd staff eu hadleoli i ffwrdd o'n safle yn Caversham Park.

Staff PSB y DU yn ôl gwlad (cyfwerth ag amser llawn) % (ac eithrio BBC Studios yn 2018)

Gwlad	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
Lloegr (ac eithrio Llundain)	35	34	36
Llundain	47	47	45
Yr Alban	7	7	7
Cymru	7	8	8
Gogledd Iwerddon	4	4	4

Nifer a chymysgedd ein gweithlu

Dros flwyddyn, mae nifer o ffactorau yn effeithio ar faint a phroffil gweithlu cyffredinol y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys y cymysgedd rhwng y cyflenwad o raglenni a chynnwys mewnl ac annibynnol; newidiadau i'n model gwasanaeth ar gontract mewnl/allanol; lansio mentrau newydd ar gyfer cynulleidfa; a gostyngiadau staff sy'n deillio o raglenni arbed. Mae cynlluniau gweithlu ar waith i sicrhau'r cymysgedd gorau o adnoddau sefydlog a hyblyg ac rydym yn adolygu ac yn rheoli ein niferoedd staff yn barhaus er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Cafwyd gostyngiad o 1,147 yn nifer y staff Gwasanaeth Cyhoeddus cyflogedig cyfartalog blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. Ar draws y Grŵp yn gyffredinol, cynyddodd 312, yn bennaf o ganlyniad i fuddsoddiadau yn World Service News.

Cyfanswm nifer y staff cyfartalog (cyfwerth ag amser llawn)

	2018	2017
UK Public Service Broadcasting	18,210	19,357
BBC Worldwide	1,514	1,706
BBC Studios	1,601	-
Busnesau masnachol eraill	258	208
Cyfanswm y Grŵp	21,583	21,271

Ymysg yr achosion mawr o symud staff roedd:

- Trosglwyddo 1,546 o staff yn yr is-adran Studios i endid masnachol newydd ar 1 Ebrill 2017.
- Dod â 315 o rolau i ben drwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i amrywiaeth o fentrau, yn cynnwys diwedd y Rhaglen Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf pum mlynedd, y Rhaglen Symleiddio a mentrau strategol sylweddol eraill.
- Buddsoddiadau mewn 418 o rolau a sgiliau newydd, fel digidol, sy'n ofynnol er mwyn cefnogi'r broses o adeiladu BBC y dyfodol.
- 774 o rolau newydd yn World Service News, o fewn y DU ac yn rhyngwladol, er mwyn gwella gwasanaethau iaith presennol a chefnogi 12 o rai newydd.

- 75 o brentisiaid a hyfforddeion ychwanegol – ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd 1.9% o'n gweithlu yn y rolau hyn.
- Recriwtio 77 o aelodau o staff ychwanegol yn y gwledydd – Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon – o ganlyniad i fuddsoddiadau ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018.

Mae nifer y staff yn parhau i gael ei monitro'n ofalus ac mae'n ofynnol i bob is-adran nodi a sicrhau rhagor o arbedion dros y tair blynedd nesaf. Mae cynlluniau ar waith i gyflawni hyn.

Rolau ar y sgrin

Ein nod yw sicrhau mai'r BBC yw'r lle y mae'r artistiaid gorau am weithio a darparu rhaglenni gwych. Ar draws radio, teledu a'n gwasanaethau digidol, mae ein cynulleidfa wedi'n disgwyl i ni gynnig yr amrywiaeth orau o dalentau poblogaidd, creadigol, diddorol, awdurdodol ac amrywiol ym maes darlledu ym Mhrydain.

Mae'r BBC yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfyngu gwariant ar dalent ar y sgrin ac ar yr awyr i ddim mwy na 15% o'r gwariant mewnl cyffredinol ar gynnwys (gyda goddefiad o 1%).

Yn 2017/18, roedd cyfanswm y gwariant ar dalent, sef £148 miliwn, yn cyfrif am 11.1% o wariant mewnl y BBC ar gynnwys. Mae hyn yn cynnwys y World Service.

Cydnabyddiaeth

Ein polisi yw rhoi cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r talentau allweddol sydd eu hangen i arwain ac i ddarparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf, gan gydnabod statws y BBC fel corfforaeth ariennir gan y cyhoedd y mae'n rhaid iddi sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded ar yr un pryd.

O dan delerau'r Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC sy'n nodi enwau'r bobl hynny sy'n gweithio i'r BBC sy'n cael eu talu mwy na £150,000 o refferni ffi'r drwydded yn ystod blwyddyn ariannol, ar ffurf bandiau cyflog o £10,000. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r adroddiadau newydd hyn ym mis Gorffennaf 2017. Gellir darllen adroddiad 2018 ar dudalen 101 o'r ddogfen hon.

Rydym hefyd yn rheoli nifer ein huwch reolwyr a'u cyflogau. Y bil cyflogau ar gyfer uwch reolwyr (gan gynnwys aelodau'r Bwrdd) bellach yw £37.7 miliwn o gymharu â £79 miliwn yn 2009, ac mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr uwch reolwyr yn dal i lofnodi'r holl addasiadau i gyflogau uwch reolwyr ac unrhyw un arall sy'n cael mwy na £75,000.

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi bod ein bwch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng i ganolrif o 7.6% (o 9.3% ym mis Hydref 2017), o gymharu â chanolrif cyfartalog cenedlaethol o 18.4%. Cyhoeddwyd adroddiad Archwilio Cyflog Cyfartal ym mis Hydref 2017. Cafodd ei gynnal gan PwC ac Eversheds a'i oruchwylio gan Syr Patrick Elias, CF, a daeth i'r casgliad nad oedd y BBC yn gwahaniaethu'n systemig yn erbyn menywod wrth wneud trefniadau cyflog. Fodd bynnag, os bydd gan unrhyw unigolion bryderon ynghylch cyflog cyfartal y maent am eu codi gyda ni, mae dull adolygu ar waith.

Yn ein dogfen Ymateb y Rheolwyr i'r adroddiadau hyn, gwnaethom ymrwymo i gau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau erbyn 2020. Gwnaethom hefyd gyflwyno egwyddorion cyflogau newydd ym mhob rhan o'r BBC:

- **Teg** – Mae tegwch o ran cyflogau yn gyfrifoldeb rydym yn ei gymryd yn wirioneddol o ddifrif – mae wrth wraidd ein gwerthoedd ac mae'n hanfodol ar gyfer ein huchelgais a'n llwyddiant creadigol.
- **Cyson** – Mae gennym fframweithiau cyson megis y fframwaith llwybrau gyrfa ac ystodau cyflog yn seiliedig ar y farchnad sy'n ategu'r ffordd rydym yn ymdrin â chyflogau ac sy'n ein galluogi i fod yn glir ac yn gyson yn y ffordd rydym yn ymdrin â phenderfyniadau cyflog unigol.

- **Tryloyw** – Rydym yn fwy tryloyw wrth adrodd ar gyflogau na'r hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith ac rydym yn ymrwymo i lefel o dryloywder ynghylch cyflogau sy'n fwy eang na sefydliadau eraill yn ein barn ni.
- **Cystadleuol** – Rydym yn cydbwysu'r angen i dalu'n gystadleuol gyda'r angen i sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.
- **Clir** – Rydym yn glir ynghylch sut y gwneir addasiadau cyflog.

Ochr yn ochr â hyn roedd ymrwymiad i adolygu'r ffordd rydym yn ymdrin â chyflogau cyflwynwyr ar yr awyr, golygyddion a gohebwyr. Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd adroddiad gan PwC a ddaeth i'r casgliad nad oedd unrhyw duedd systemig rhwng y rhywiau yn ein cyflogau ar gyfer cyflwynwyr ar yr awyr, ond beirniadodd y ffordd y cafodd rhai agweddau ar hyn eu rheoli yn y gorffennol. Gwnaeth nifer o argymhellion ar gyfer newid yn cynnwys fframwaith cyflogau newydd y cynhelir ymgynghoriad arnynt ar hyn o bryd.

Rydym wedi ymrwymo i gau'r bwch cyflog rhwng y rhywiau ac mae llawer o waith yn mynd rhagddo ar lefel is-adrannol yn cynnwys mynd i'r afael â mater sylfaenol cynrychiolaeth mewn rolau penodol.

Mae'r BBC wedi nodi proses adolygu annibynnol arfaethedig a fyddai'n

ystyried, ar gais, achosion penodol ar gyfer cyflwynwyr sydd wedi darparu eu gwasanaethau drwy PSC (Cwmni Gwasanaeth Personol) ac sydd bellach yn wynebu gofynion CThEM am Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr yn deillio o ddefnyddio PSC.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi bod yn cydweithio â'n Hundebau ar y Cyd er mwyn cynnal adolygiad sylfaenol o'n Telerau ac Amodau a'u moderneiddio – gan sicrhau eu bod yn decach, yn symlach ac yn fwy cyson. Datblygwyd cyfres o gynigion yn edrych ar bum maes allweddol – Cyflogau a Graddau, Polisiau, Contractau, Amserlenni a Phatrymau Gwaith, Llesiant.

Mae'r cynigion Cyflogau a Graddau yn adeiladu ar Fframwaith Llwybrau Gyrfa newydd y BBC. Datblygwyd ystodau cyflog arfaethedig sy'n seiliedig ar y farchnad ar gyfer y 600 o deitlau swyddi ac mae unigolion wedi cael y wybodaeth hon ar gyfer eu swyddi eu hunain. Pan fyddant mewn swydd lle mae mwy nag 20 o unigolion yn rhannu'r un teitl, byddant hefyd wedi cael gwybodaeth yn dangos y dosbarthiad cyflog.

Yn dilyn ymgynghoriad 18 mis o hyd, mae undebau llafur cydnabyddedig y BBC wedi derbyn yr holl gynigion. Mae ein cytundeb cyflog a gaiff ei drafod yn flynyddol a fyddai wedi dod yn weithredol ym mis Awst 2017 yn rhan o'r adolygiad hwn o'r Telerau ac Amodau. Y cytundeb yw codiad cyflog o 2% a 1.5% ychwanegol ar gyfer yr unigolion hynny yn chwarter isaf eu hystod cyflog. Gwnaed blaendal o £400 i bob aelod o staff ym mis Rhagfyr 2017 wrth i'r ymgynghoriad fynd rhagddo.

Mae nifer bresennol yr uwch reolwyr yn ôl band cyflog fel a ganlyn

Nifer yr uwch reolwyr yn y DU yn ôl band cyflog (2017/18 ac eithrio Studios)

Band	2017/18	2016/17
£50,000–£99,999	76	92
£100,000–£149,999	94	124
£150,000–£199,999	70	67
£200,000–£249,999	15	17
£250,000–£299,999	4	3
£300,000–£349,999	4	3
£350,000+	1	–
Cyfanswm*	264	306

* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau o Fwrdd y BBC

+ Ceir rhagor o wybodaeth ar ddatgeliadau cyflogau ar dudalen 101.

Gwariant ar rolau ar yr awyr

	2017/2018		2016/2017		Amrywiad £000oedd
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer	
Llai na £40k	48,782	27,039	69,922	40,328	(21,140)
£40k–£100k	62,812	1,098	72,346	1,278	(9,534)
£100k–£150k	11,983	100	16,717	136	(4,734)
£150k–£500k	13,814	59	21,256	89	(7,442)
£500k–£1m	1,687	3	3,348	5	(1,661)
£1m–£5m	3,418	2	3,959	2	(541)
Sefydliadau*	5,119	1,638	6,019	1,582	(900)
Cyfanswm	147,615	29,939	193,567	43,420	(45,652)

* Grwpiau o unigolion wedi'u contractio fel un yw sefydliadau – er enghraifft cerddorfeydd allanol. Nid yw'n bosibl rhestru nifer unigolion yn erbyn y gwariant hwn

Cefnogi ein pobl a chael y gorau ohonynt

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ein huchelgais craidd i 'Wneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo' gan ddilyn pedair elfen allweddol:

- **Symleiddio ein ffyrdd o weithio** – ceisio symleiddio neu ddileu arferion cymhleth a dod o hyd i ffyrdd o alluogi staff i wneud eu gwaith gorau
- **Gweithredu fel un BBC** – cydweithio a chydnabod ein bod yn gryfach pan fyddwn yn cydweithio
- **Gwerthfawrogi ein gilydd a dathlu llwyddiant** – parchu ein cyfraniadau amrywiol a chymryd amser i gydnabod ansawdd y gwaith a gynhyrchir gan bob aelod o staff
- **Bod yn weladwy a chymryd rhan** – sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddo ac yn cymryd rhan lawn, a bod rheolwyr ac arweinwyr yn weladwy nid yn unig i'w timau eu hunain, ond i'r sefydliad cyfan, gan wrando, rhannu ac ysbrydoli.

Taliadau diswyddo: pob aelod o staff (gan gynnwys uwch reolwyr)

Band taliadau	2017/18		2016/17	
	Gwariant £000oedd	Nifer	Gwariant £000oedd	Nifer
O dan £10k	310	56	348	59
£10k–£50k	8,189	265	6,622	220
£50k–£75k	8,357	136	5,672	92
£75k–£100k	7,753	91	3,880	44
£100k–£150k	12,327	97	16,567	124
Dros £150k	0	0	0	0
Cyfanswm	36,936	645	33,089	539

Mae'r BBC yn ymrwymedig i feithrin cydberthnasau cadarnhaol ac adeiladol â'n hundebau llafur a'u cynrychiolwyr etholedig ym mhob is-adran, gan ganiatáu amser i ffwrdd â thâl yn unol â Chytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau'r BBC/Undeb Llafur. Fel rhan o Reoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae bellach yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus adrodd gwybodaeth am amser cyfleuster a gymerir gan swyddogion undebau llafur dros gyfnod o 12 mis. (Mae amser cyfleuster yn cyfeirio at yr amser a gymerir i'n hundebau llafur cydnabyddedig gynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn amrywiaeth o faterion ym mhob rhan o'r BBC.) Nodir y manylion hyn yn y tabl isod. Yn ystod 2017/18, aeth un unigolyn ar streic am 12 awr.

Taliadau diswyddo

Mae gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy'r BBC yn cael effaith anochel ar swyddi ac rydym yn dal i fod yn gwbl ymrwymedig i reoli colledion swyddi drwy adleoli ac ailhyfforddi lle bynnag y bo'n bosibl.

Un mis o gyflog am bob blwyddyn o wasanaeth hyd at uchafswm o 12 mis o gyflog yw ein polisi o ran taliadau diswyddo. Ar gyfer y sawl a ymunodd cyn mis Ionawr 2013, mae'n uchafswm o 24 mis. Rydym wedi cynnal cap o £150,000 ar daliadau dileu swyddi ac uchafswm cyfnod rhybudd o chwe mis. Rydym yn dal i aros am eglurhad pellach ar gap arfaethedig y Llywodraeth ar daliadau dileu swyddi, a fydd yn gymwys i'r BBC yn ôl yr hyn a ddeallwn.

Lle y telir taliadau dileu swyddi, caiff rhybudd ei roi a'i weithio'n llawn. Os bydd unigolion am adael yn gynt na diwedd eu cyfnod rhybudd rhaid iddynt ildio hawl i'r cyfnod rhybudd sy'n weddill ac ni chânt dâl amdano. Mewn achosion eithriadol, er enghraifft pan fydd angen diogelu cyfrinachedd gwybodaeth sensitif, gellir gofyn i unigolion weithio gartref neu fod yn barod i gyflawni dyletswyddau eraill yn ystod eu cyfnod rhybudd.

Caiff taliadau dileu swyddi o fwy na £75,000 a phob taliad diswyddo arall eu cymeradwyo gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr uwch reolwyr. Yn ystod y flwyddyn, bu dau achos lle cafodd cyflogaeth dâl yn lle rhybudd; roedd un mewn setliad hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth yn dilyn ymddiswyddiad, a'r llall ochr yn ochr â thaliad statudol lleol i gyflogai dramor yn dilyn pryderon ynghylch perfformiad. Gwnaed tri thaliad diswyddo arall; un mewn setliad hawliad Tribiwnlys Cyflogaeth a dau fel rhan o ymadawiad y cytunwyd arno a drafodwyd gyda'r cyflogai (un gyda thaliad diswyddo y cytunwyd arno, a'r llall gyda thaliad dileu swydd ac iawndal am anaf personol).

Hawliau dynol

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol y sawl sy'n gweithio i ni neu gyda ni. Mae hyn yn gymwys i bob cyflogai, gweithiwr dros dro neu weithiwr yn ein cadwyn gyflenwi, yn y DU a ledled y byd. Mae gan bawb yr hawl i amgylchedd gwaith diogel; i gael eu talu ac i weithio oriau yn unol â deddfwriaeth leol o leiaf; i sefydlu undebau llafur; ac i gael eu trin â pharch.

Darperir gwybodaeth yn unol â Rheoliadau Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 – atodlen 2 (1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018)

Swyddogion undeb perthnasol

Nifer y swyddogion undeb

267 (cyfwerth ag amser llawn 259)

Canran yr amser a dreulir ar amser cyfleuster	Nifer y cyflogaeth
0%	0
1-50%	261
51%-99%	0
100%	6*
Cyfanswm cost amser cyfleuster	£721,817
Cyfanswm bil cyflogau cymwys*	£965,005,430
Canran cyfanswm y bil cyflogau a gaiff ei gwario ar amser cyfleuster	0.07%
Gweithgareddau undeb llafur â thâl	
Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur â thâl fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	80%

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y darparwyd y wybodaeth hon, mae niferoedd bras yn seiliedig ar gynrychiolwyr undeb hysbys wedi'u cynnwys.

* Cyfwerth â phum aelod o staff amser llawn.

** Caiff cyfanswm y bil cyflogau ar gyfer cyfnod perthnasol ei gyfrifo fel y nodir yn y ddeddfwriaeth Undebau Llafur sy'n creu ffigur sy'n wahanol yn nominal i'r bil cyflogau a nodwyd ar dudalen 197. Fodd bynnag, mae canran yr amser a dreulir ar amser cyfleuster yr un fath.

Ar gyfer y sawl sy'n gweithio mewn amgylcheddau risg uwch, fel mewn sefyllfaoedd gelyniaethus, fflmio cudd neu ddarlledu o ddigwyddiadau fel digwyddiadau terfysgol, rydym yn sicrhau eu bod wedi paratōi'n briodol. Mae ein Tîm Risg Uchel yn rhoi cyngor ac yn goruchwyllo hyfforddiant a'r broses o ddarparu cyfarpar.

Mae ein Telerau Masnach yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyflenwyr rydym yn cydweithio â nhw, ac unrhyw isgontractwyr a ddefnyddir ganddynt, ddilyn y codau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol i gyflenwyr ac isgontractwyr ddilyn ein Cod Polisi Moesegol sy'n nodi ein disgwyliadau mewn perthynas â hawliau dynol a masnachu'n foesebol.

Datganiad Caethwasiaeth Fodern

Rydym yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu'r broses o fynd i'r afael â'r achosion mwyaf difrifol o gam-drin hawliau dynol, yn cynnwys caethwasiaeth fodern. Rydym yn parhau i gefnogi nodau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn cyhoeddi ein trydydd Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn unol â hyn. Rydym yn ymrwymedig i fynd ati i ddileu caethwasiaeth fodern, gan weithredu o fewn ein busnes a dylanwadu ar ein cyflenwyr i wneud yr un fath. Yn ein datganiad, gwnaethom nodi camau pellach a gymerwyd gennym dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn helpu i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn bodoli yn ein busnes na'n cadwyn gyflenwi. Rydym wedi canolbwyntio ar ddeall ymhellach lle mae risg yn codi a dylunio rhaglen wedi'i thargedu mewn ymateb i hynny.

Mae'r datganiad llawn ar gael yn: bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/howwework/reports/bbcmsa2016

Datblygu ein pobl

Drwy Academi'r BBC, darperir hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer holl staff y BBC.

Caiff y rhan fwyaf o hyfforddiant ei gynnal ar-lein neu o bell, er mwyn rhoi hyblygrwydd i staff ac er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a lleihau teithio hefyd. Yn ystod y flwyddyn, cafodd mwy na 70,000 o sesiynau hyfforddiant unigryw eu cwblhau, yr oedd 64% ohonynt ar-lein.

Ymysg y gweithgareddau hyfforddi allweddol roedd:

- Cyflwyno mwy na 50 o raglenni tair wythnos i newydd-ddyfodiadaid i fwy na 400 o recriwtiaid newydd ar gyfer prosiect ehangu World Service, yn Llundain ac mewn sawl swyddfa ryngwladol, yn cynnwys Moscow, Lagos, Nairobi a Delhi.
- Cyfres newydd o gyrsiau i gefnogi ein rolau cynrychiadau mewnol. Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Creative Skillset a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol, ymysg eraill, er mwyn cefnogi'r diwydiant ehangach a'r sector annibynnol.
- Hyfforddiant 'OpenMedia' i fwy na 3,500 o bobl yn yr is-adran Newyddion er mwyn cefnogi ein proses o symud i lwyfan newydd.
- Hyfforddi 800 o aelodau o staff mewn ymwybyddiaeth iechyd meddwl, y mae eu hanner wedi dod yn Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, a 765 pellach o aelodau o staff mewn cymorth cyntaf mewn argyfwng.
- Trydydd tymor o uwchsgilio digidol ar gyfer pob aelod o staff y BBC, gan feithrin sgiliau ar-lein er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd ifanc ac amrywiol ac ymgysylltu â nhw. Mae mwy na 13,000 wedi cymryd rhan dros y tair blynedd ddiwethaf.
- Mwy na 40 o ddigwyddiadau yn cyflwyno pynciau yn amrywio o bodlediadau, realiti rhithwir, creu cynnwys ffurf fer ar gyfer BBC Three a Dyfodol Cyfryngau Cymdeithasol.

Eleni, cawsom gydnabyddiaeth genedlaethol fel un o brif gyflogwyr prentisiaeth y DU a chawsom ein cynnwys yn y tri safle uchaf yng nghategori Cyflogwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaeth Cenedlaethol 2018. Roeddem hefyd yn y 11eg safle drwy'r DU ar restr 100 Uchaf y Times ar gyfer cyflogwyr graddedig.

Hyfforddiant Academi'r BBC

Cyrhaeddiad	2017/18	2016/17
Cyfanswm y cyrsiau hyfforddiant a gwblhawyd*	70,154	64,931
Wyneb yn Wyneb %	36%	40%
Ar-lein %	64%	60%
Staff y BBC a gwblhaodd 1 cwrs neu fwy	84%	88%
Cyfanswm yr Oriau Dysgu a Datblygu Wyneb yn Wyneb ac Ar-lein	259,625	219,046
Nifer y diwrnodau Dysgu a Datblygu fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn	1.57	1.51
Cyfanswm y Defnydd Ar-lein**	44,826	38,695
Gwerth am Arian	2017/18	2016/17
Gwariant ar Gyflwyno Hyfforddiant (£m)***	£13,421	£14,123
Cost Dysgu a Datblygu fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn****	£568.75	£601.85

Nodiadau:

Mae data hyfforddiant a ffigurau ar gyfer aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y BBC cyfan, yn cynnwys PSB, Worldwide ac is-gwmnïau masnachol eraill.

* Cyrsiau hyfforddiant unigol wyneb yn wyneb ac ar-lein a gwblhawyd.

** Cyrsiau unigol ar-lein a gwblhawyd a'r rhai gyda statws 'yn mynd rhagddo'.

*** Cyfanswm y gwariant ar gyflwyno hyfforddiant yr Academi ac eithrio prosiectau mawr.

**** Cyfanswm y gwariant ar gyflwyno hyfforddiant yr Academi wedi'i rannu â chyfanswm yr aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn prentisiaethau (ar gyfer rhai nad ydynt yn raddedigion) a hyfforddeion (graddedigion yn bennaf) ac rydym ar y trywydd cywir i gyflawni ein targed y bydd 2.3% o'n cyflogeion yn brentisiaid neu'n hyfforddeion erbyn diwedd 2019. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd gennym 210 o brentisiaid a 133 o hyfforddeion sy'n raddedigion a 37 ar gynlluniau datblygu eraill. Gwnaethom hefyd gynnig lleoliadau profiad gwaith i bron i 1,000 o bobl drwy gydol y flwyddyn.

Allgymorth a chyflwyno sgiliau newydd i'r diwydiant

Gan weithio mewn partneriaeth â BBC Newyddion, cyrhaeddodd prosiect Bwletin Ysgol yr Academi fwy na 1,000 o ysgolion er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau llythrennedd y cyfryngau mewn perthynas â newyddion ffug; newyddiaduraeth a chreu cynnwys digidol ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed. Rhoddodd y fenter hefyd gyfleoedd mentora a gwirfoddoli i staff y BBC ac arweiniodd at 'News Day' llwyddiannus ar 15 Mawrth gyda chynulleidfaoedd ifanc, amrywiol yn creu cynnwys ar wasanaethau a llwyfannau BBC Newyddion.

Dychwelodd menter glodwiw Merched Arbenigol gyda thri digwyddiad yn Llundain a Glasgow wedi'u hanelu at ddatblygu wynebau a lleisiau newydd ar gyfer allbwn BBC Newyddion. Gwnaeth bron i 3,000 o arbenigwyr pwnc gais am 72 o lefydd a diwrnod i gael hyfforddiant am ddim ac i ymglyfarwyddo â'r cyfryngau. Ers hynny, mae llawer o'r menywod wedi ymddangos ar yr awyr gyda sawl un yn ymddangos y diwrnod canlynol.

Mae menter Dinasoedd Digidol yr Academi/Creative Skillset bellach yn ei thrydedd flwyddyn, gyda digwyddiadau sgiliau digidol a dysgu yn Birmingham, Bryste, Belfast, Manceinion a Chaerdydd. Gan weithio gyda phartneriaid fel Channel 4, Google a Chyngor y Celfyddydau, roedd y digwyddiadau ym mhob dinas yn cynnig gweithdai sgiliau am ddim a chyfleoedd i dalent newydd.

Rydym yn parhau i noddi'r NFTS a'r rhaglen cwrs byr, gyda mwy na 40 o fyfyrwr o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chefnidiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig yn cymryd rhan. Mae myfyrwr ar y cyrsiau byr hefyd wedi sicrhau gwaith ar nifer o ddramâu'r BBC yn cynnwys *Call the Midwife*, *Silent Witness* a *Holby City*.

Nodiadau: mae Atodlen 3, paragraff 13 o'r Cytundeb yn nodi bod yn rhaid i'r BBC wneud trefniadau ar gyfer hyfforddi staff a gwaith gyda phartneriaid yn y diwydiant. Rydym yn darparu hyn drwy ein gwaith gyda'r Academi a gwaith allgymorth yr Academi.

Amrywiaeth

Mae amrywiaeth a chynhwysiant yn y BBC yn hollbwysig yn greadigol. Dyna'r peth iawn i'w wneud hefyd. Gwyddom, drwy gael sefydliad sy'n adlewyrchu ei gynulleidfaedd, ein bod yn parhau i fod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn cynhyrchu'r cynnwys a'r gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein gorau.

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth yn y BBC. Mae'r adran hon yn adrodd ar ein gweithgareddau yn unol â'n dyletswydd o dan Atodlen 3 paragraff 12 o'r Cytundeb. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb ar dudalen 240.

Ein pobl

Ers lansio ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mis Ebrill 2016, rydym yn dal i ysgogi cynnydd er mwyn cyflwyno newid systemig. Gwnaethom addo erbyn 2020, y bydd gan y BBC weithlu sydd o leiaf yr un mor amrywiol, os nad yn fwy amrywiol, nag unrhyw ddarlledwr arall yn y diwydiant, ac rydym ar y trywydd cywir i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Rydym wedi lansio pedwar prosiect amrywiaeth newydd sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad gyrfa a diwylliant ar gyfer menywod, staff ag anableddau a staff o leiafrifoedd ethnig a chefnidiroedd economaidd-gymdeithasol is.

Mae gennym fwy o fenywod mewn swyddi uwch nag erioed o'r blaen ac mae cynrychiolaeth menywod yn y gweithlu yn gyffredinol yn gwella hefyd. Mae pedair o aelodau Bwrdd a Phwyllgor Gweithredol y BBC yn fenywod. Yn gyffredinol, ym mis Mawrth 2018, roedd ein rolau arwain yn cynnwys 43.3% o fenywod a 47.7% o'n gweithlu.

Ond rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud llawer mwy er mwyn cynyddu nifer yr uwch reolwyr sy'n fenywod ac o gefndir pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac rydym wrthi'n archwilio ffyrdd o wneud hyn.

Rydym yn gwneud cynnydd. Am y tro cyntaf rydym wedi cael ein cynnwys ar restr 50 Uchaf y Times ar gyfer Cyflogwyr Menywod yn 2018. Gwyddom fod mwy i'w wneud er mwyn cyrraedd ein targed o gydbwysedd o 50:50 rhwng y rhywiau ac rydym yn benderfynol o gyflawni hynny erbyn 2020.

Gwnaethom adrodd bwch o 7.6% mewn cyflogau rhwng y rhywiau o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 18.4%. Rydym am wneud yn well ac rydym wedi addo cau'r bwch hefyd erbyn 2020.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, yn ogystal â'n prosiect sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad gyrfa, mae gennym amrywiaeth o raglenni a chyfleoedd datblygu i ysbrydoli, annog a chefnogi menywod yn ein sefydliad. Cyflwynwyd ein rhaglen newydd Hilda Matheson Women into Leadership fel rhaglen i fenywod yn y gwledydd a'r rhanbarthau sydd am ddatblygu eu gyrfaedd yn y BBC. Rhaglen fentora sy'n ymwneud yn benodol â datblygiad personol menywod ar y Radio yw Sandy Chalmers, gyda rhaglenni tebyg ar waith ym meysydd Newyddion a Dylunio a Pheirianeg.

Menywod sydd â 43.3% o'r rolau arwain, ac mae 47.7% o'r gweithlu yn fenywod.



Cyfranogwyr Creative Access

Lansiwyd ein tymor Minds Matter sy'n edrych ar
techyd meddwl gyda Mind Over Marathon

Bydd holl aelodau o staff y BBC yn cael hyfforddiant tueddian anymwybodol ac rydym wedi datblygu pecyn hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd newydd ar gyfer rheolwyr a staff.



**GWOBRAU RHWYDWAITH
AMRYWIAETH GREADIGOL 2017**

Yng Ngwobrau Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol 2017, enillodd y BBC gyfanswm o chwe gwobr, yr oedd sawl un ohonynt yn amlygu natur amrywiol ein cynnwys.

- Drama: *Damilola, Our Loved Boy*
- Ffeithiol: *Life and Deaf*
- Cwmni Cynhyrchu'r Flwyddyn: Cynhyrchiad Mewnol y BBC i Blant
- Awdur/Swyddog Creadigol: Levi David Addai (Awdur, *Damilola, Our Loved Boy*)
- Comisiynydd neu Sianel y Flwyddyn: BBC Three
- Hyrwyddwr Amrywiaeth: Damian Kavanagh (BBC Three)

Mae cynrychiolaeth pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn 14.8% ar hyn o bryd yn y gweithlu ac yn 10.4% mewn rolau arwain. Mae'r BBC yn un o 66 o gyflogwyr a'r unig ddarlledwr a sefydliad cyfryngau a gafodd ei gynnwys yn rhestr Cyflogwyr Gorau ar gyfer Hil 2017.

Fodd bynnag, er bod ffigur ein gweithlu yn agos at ein targed ar gyfer 2020 (15%), rydym yn bell iawn o'n targed o ran arweinyddiaeth (15% hefyd) ac mae angen rhoi sylw i hyn. Rydym hefyd yn cydnabod bod y gyfran uchaf o staff BAME yn y meysydd Gwasanaeth Proffesiynol a Grŵp World Service ar hyn o bryd, felly mae angen i ni wneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod dosbarthiad ar draws y BBC. Ceir rhagor o fanylion, yn cynnwys dadansoddiad llawn o amrywiaeth fesul is-adran, yn yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb, ar dudalen 240.

Mae chwe lleoliad y flwyddyn ar gael ar ein rhaglen Arweinyddiaeth Clore y BBC sydd wedi'i hanelu at ddarpar arweinwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir, ac eleni rydym wedi dyblu nifer y llefydd ar ein rhaglen datblygu a mentora BAME glodwiw, RISE.

Mae diwylliant cwbl gynhwysol yn golygu bod pawb yn teimlo'n gyfforddus i fod yn nhw eu hunain yn y gwaith. Mae dros 98% o'n gweithlu wedi rhoi gwybodaeth i ni am eu hethnigrwydd, 94% am eu statws anabledd ac mae 84% wedi dweud wrthym am eu cyfeiriadedd rhywiol. Yn ein cyfrifiad staff diwethaf, gwelwyd cynnydd dramatig yn nifer y staff a ddatgelodd gyfeiriadedd rhywiol ac anabledd.

Rydym wedi mandadu hyfforddiant tueddian anymwybodol ar gyfer pob aelod o staff ac wedi datblygu pecyn hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd newydd ar gyfer rheolwyr a staff a gaiff ei gyflwyno yn 2018/19. Rydym wedi dyblu nifer y llefydd ar ELEV8, ein cynllun mentora ar gyfer staff anabl. Mae Extend, cynllun lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ag anabledau yn rhoi chwe mis o waith â thâl gyda'r BBC i ychydig dros 20 o bobl.

Mae amrywiaeth economaidd-gymdeithasol yn flaenoriaeth uchel o hyd i'r BBC a dyma un o'r pedwar maes allweddol rydym yn canolbwyntio arnynt. Yn ein cyfrifiad staff diwethaf, am y tro cyntaf gwnaethom ofyn cwestiynau ar gefndir economaidd-gymdeithasol unigolion.

Pob aelod o staff ac arweinwyr: 31 Mawrth 2018

Gweithlu	31 Mawrth 2018	Targed 2020
Menywod (pob aelod o staff)	47.7%	50%
Menywod (arweinyddiaeth)	43.3%	50%
Anabledd (pob aelod o staff)	10.4%	8%
Anabledd (arweinyddiaeth)	9.5%	8%
BAME (pob aelod o staff)	14.8%	15%
BAME (arweinyddiaeth)	10.4%	15%
LGBT (pob aelod o staff)	11.0%	8%
LGBT (arweinyddiaeth)	12.0%	8%



Yn fwyaf diweddar, cafodd y BBC ei roi yn yr 28ain safle yn rhestr 50 uchaf cyflogwyr y DU yn y Mynegai Symudedd Cymdeithasol am weithredu i wella symudedd cymdeithasol yn y gweithle. Ni yw'r unig ddarlledwr i gyhoeddi'r data hyn ac i gael ei restru yn y mynegai. Mae ein cynlluniau prentisiaeth yn ffordd wych o sicrhau gwell symudedd cymdeithasol yn y sefydliad.

Amrywiaeth ar yr awyr a thu ôl i'r camera

Mae Teledu a Radio'r BBC bellach yn fwy amrywiol nag erioed, gyda llu o enghreifftiau sy'n adlewyrchu amrywiaeth y genedl a wasanaethir gennym. Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, gwnaethom gyhoeddi ein Cod Ymarfer cyntaf ar Gomisiynu Amrywiaeth fel rhan o'n hymrwymiad i wella amrywiaeth ar yr awyr ac oddi ar yr awyr er mwyn adlewyrchu a chynrychioli'r DU heddiw. Mae'r Cod Ymarfer newydd yn rhoi amrywiaeth wrth wraidd prosesau comisiynu a fframweithiau adrodd y BBC ar draws cynnwys teledu, radio, ar-lein a digidol, gan safoni'r dull gweithredu ar draws yr holl allbwn am y tro cyntaf, fel y gellir cytuno ar y camau a gymerir mewn perthynas ag amrywiaeth a dilyn eu hynt.

Mae BBC Class Act yn rhaglen chwilio a sgiliau genedlaethol newydd ar gyfer talent actio anabl. Fe'i lanswyd yn 2017, a chynhaliwyd 330 o glyweliadau a dewiswyd 32 o actorion â lefelau amrywiol o brofiad i fod yn rhan o'r rhaglen a mynychu arddangosiad yn dwyn ynghyd llunwyr cynnwys, swyddogion castio ac asiantau o bob rhan o'r diwydiant.

Drama BBC Two, Man In An Orange Shirt, rhan o'n tymor Gay Britannia

380 o bobl ar gynlluniau talent newydd ar draws y BBC



Mae Radio 3 wedi cynyddu nifer y menywod sy'n adolygu recordiau i fwy na 50% ar ei rhaglen wythnosol er mwyn cynyddu'r amrywiaeth o leisiau ac mae hefyd yn ymrwymedig i recordio a darlledu gwaith nad yw wedi cael ei recordio'n flaenorol gan bum cyfansoddwraig 'a aed yn angof' gyda Cherddorfeydd a Chorau'r BBC. Perfformiodd Chineke!, cerddorfa gyntaf y DU sy'n cynnwys mwyafrif o bobl o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ym Mhroms y BBC am y tro cyntaf eleni, a oedd yn cynnwys comisiwn BBC Radio 3 ar gyfer y Proms gan y gyfansoddwraig Hannah Kendall, ac mae Sheku Kanneh-Mason a enillodd gystadleuaeth anrhydeddus Cerddor Ifanc y BBC yn 2016 wedi ymddangos yn rheolaidd ar ein rhaglenni radio ers hynny.

Mewn manau eraill, mae Nosweithiau Comedi Asian Network yn hyrwyddo talent amrywiol ac mae allbwn Radio 1 a 1Xtra ar gyfer pobl ifanc yn enghreifftiau o wasanaethau sydd eisoes wedi arwain y ffordd a gwasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau mewn ffyrdd gwahanol.

Mae rhannu ein hadroddiad cyntaf ar y sgrin a thu ôl i'r camera (oddi ar y sgrin) ar gyfer ein holl gyflenwyr yn garreg filltir bwysig yn ein hymrwymiad i wella'r broses o fesur amrywiaeth yn ein cynnwys ar y teledu ac adrodd ar gynnydd yn erbyn ein targedau. Rydym wedi defnyddio Diamond i wneud hyn.

Adnodd ar-lein yw Diamond a ddefnyddir gan y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky i gael data cyson ar amrywiaeth ar raglenni. Cefnogir y fenter gan Pact a Creative Skillset, a chaiff ei chyflwyno drwy'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol.

Gwyddom fod amrywiaeth timau cynhyrchu a phwy mae ein cynulleidfya yn ei weld a'i glywed ar ein rhaglenni yn hanfodol o ran sut rydym yn adlewyrchu Prydain fodern. Eglurodd y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a lanswyd gennym yn 2016 ein hymrwymiad cadarn ar gyfer newid erbyn 2020 a'n nod yw sicrhau:

- 50% o fenywod ar y sgrin, ar yr awyr ac mewn prif rannau ym mhob genre o ddrama i newyddion;
- 15% o bobl dduon, Asiaidd ac o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ar y sgrin, ar yr awyr ac mewn prif rannau ym mhob genre;
- 8% o bobl anabl, ar y sgrin ac ar yr awyr yn cynnwys rhai prif rannau;
- 8% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn cael eu portreadu ar y sgrin yn cynnwys rhai prif rannau.



Mae'r cyhoeddiad cyntaf hwn o'n data gan Diamond yn rhoi cipolwg cychwynnol ar ein cynnydd tuag at ein targedau. Mae'r data yn cynrychioli 29% o'r holl oriau rhwydwaith a ddarledwyd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018 ar BBC One, BBC Two, BBC Four, CBBC a CBeebies. Nid yw cynnwys a rhaglenni newyddion ar-lein BBC Three wedi'u cynnwys er bod gwaith yn mynd rhagddo i gasglu data ar gyfer y ddau. Yr egwyddor yw bod pawb sy'n gweithio ar raglen yn cael eu gwahodd i gyflwyno data amrywiaeth; ar hyn o bryd, dim ond ar y 26% o unigolion sydd wedi rhannu eu data y gallwn adrodd. Rydym yn gweithio gyda'n holl gyflenwyr i gynyddu'r ganran honno.

Mae'r data oddi ar y sgrin yn cynnwys cyflenwyr mewnol ac allanol ac yn tynnu sylw at yr angen am fwy o gynnydd ym mhob rhan o'r diwydiant. Mae'r broses o gyhoeddi ein Cod Ymarfer ar Amrywiaeth yn nodi sut rydym yn parhau i weithio gyda chynhyrchwyr cynnwys er mwyn cynyddu amrywiaeth timau cynhyrchu.

Amrywiaeth wirioneddol ar y sgrin ac oddi ar y sgrin: 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018

Data a ddarparwyd o gyfraniadau gan unigolion sydd â rôl mewn rhaglenni cymwys.

	Gwirioneddol oddi ar y sgrin	Gwirioneddol ar y sgrin
Menyw	53.8%	52.3%
BAME	8.6%	27.3%
Anabl	5.4%	7.4%
Lesbiaidd, hoyw a deurywiol	12.3%	10.5%
Traws	0.1%	0.6%
Nifer y cyfraniadau*	73,523	27,777

Nodiadau:

Mae'r data yn cynnwys 29% o'r holl oriau rhwydwaith a ddarledwyd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Ni chaffi rhaglenni a gomisiynwyd cyn 15 Awst 2016 eu cynnwys.

Mae'r data yn seiliedig ar gyflenwyr mewnol ac allanol.

O'r sawl a wahodddwyd i gyflwyno data amrywiaeth, cafwyd cyfradd ymateb o 26%.

Sianelau: BBC One, BBC Two, BBC Four, CBBC, CBeebies (ac eithrio: cynnwys ar-lein BBC Three, rhaglenni newyddion, BBC Newyddion a BBC Parliament).

Y cyfnod adrodd a gwmpaswyd: 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

Dyddiad llunio'r adroddiad: 14 Mai 2018.

Ffynhonnell y data: Diamond/Silvermouse.

* Gall unigolyn wneud sawl cyfraniad i raglen neu raglenni.

Amrywiaeth ganfyddedig ar y sgrin: 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018

Mewnbyn data gan gwmnïau cynhyrchu sy'n ystyried safbwynt gwylwyr o beth maent yn ei weld a'i glywed.

	Canfyddedig ar y sgrin
Menyw	42.6%
BAME	20.7%
Anabl	5.1%
Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol	5.2%
Traws	0.1%
Nifer y cyfraniadau*	244,829
% y pennwyd nodweddion amrywiaeth ar eu cyfer	82.5%

+ Ceir rhagor o wybodaeth am Diamond yn: creativediversitynetwork.com/diamond/

Ein partneriaid

Credwn mai drwy gydweithio â'n partneriaid o fewn y diwydiant a'r tu allan i'r diwydiant y gallwn gael yr effaith fwyaf er mwyn cyflawni ein hymrwymadau o ran amrywiaeth. Mae'r BBC yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Amrywiaeth Greadigol i annog y diwydiant cyfan i gyfrannu at Diamond.

Rydym yn parhau i gwrdd â Grŵp Gweithredu Amrywiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol er mwyn gwella ymwybyddiaeth o ystod a graddau mentrau amrywiaeth a'r nifer sy'n ymgysylltu â nhw.

O ran amrywiaeth economaidd-gymdeithasol, rydym yn parhau i weithio gyda Grŵp Bridge yn dadansoddi ein data ar amrywiaeth gymdeithasol ymhellach. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r Business Disability Forum er mwyn sicrhau bod gennym ddiwylliant sy'n hygyrch ac yn addas at y diben ar gyfer staff anabl.

Mae Rhaglen Arweinyddiaeth Clore y BBC wedi'i hanelu at ddarpar arweinydd o gefndiroedd a dangynrychiolir, ac mae ar waith ers tair blynedd. Mae cyfanswm o 16 o gyflogeion wedi ymgymryd â'u lleoliad 12 mis sy'n cynnwys datblygiad personol.

Yn ystod haf 2017, gwnaethom groesawu naw intern o Leonard Cheshire. Nod y cynllun, a gaiff ei redeg gan yr elusen, yw creu cyfleoedd gyrfaoedd i bobl ifanc anabl drwy leoliadau gwaith tri mis o hyd.

Unwaith eto, gwnaethom gydweithio â Creative Access, menter gymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ddod o hyd i interniaethau yn y diwydiannau creadigol ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill nad ydynt yn wyn.

Drwy Brosiect Ieuencid MAMA, gwnaethom gynnig 20 o leoliadau pedair wythnos o hyd yng nghanol mis Mehefin ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed o grwpiau a dangynrychiolir neu sy'n cael cyfleoedd addysgol neu gyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig.

Mae bwrsari Felix Dexter yn cynnig dwy hyfforddeiaeth a bwrsari chwe mis o hyd ar gyfer dau awdur comedi â llawer o botensial o gefndiroedd BAME. Yn yr un modd, mae Bwrsari Caroline Aherne wedi'i anelu at awduron a pherfformwyr comedi benywaidd o ogledd Lloegr.

Rydym wedi cofrestru ar gyfer y Siarter Talent Technoleg er mwyn dangos ein hymrwymiad i roi canllawiau'r diwydiant TG ar waith ar gyfer cyflogi staff amrywiol. Rydym hefyd wedi adnewyddu ein haelodaeth â WISE er mwyn helpu i weithio tuag at gynyddu nifer y menywod yn y sector technoleg.

**Rhestr
Cyflogwyr
Gorau ar gyfer
Hil 2017**

Unig ddarlledwr
/sefydliad cyfryngau

**10
Uchaf**

VERCIDA –
Cyflogwr ar gyfer y
Rhywiâu a BAME

**100
Uchaf**

Rhestr Cyflogwyr
Prentisiaeth

2il

Rhestr Cwmnïau
Uchaf LinkedIn
2018

**50
Uchaf**

The Times, Rhestr
50 Uchaf o Gyflogwyr
ar gyfer Menywod 2018

3 Uchaf

Gwobr Y Brifysgol Agored
ar gyfer Macro-Gyflogwr y
Flwyddyn

**50
Uchaf**

Mynegai Cyflogwyr
Symudedd Cymdeithasol

Gwaith elusennol

Mae'r BBC wedi bod yn darlledu apeliadau ar gyfer elusennau ers 1923 ac maent yn rhan bwysig o'n cylch gwaith fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus.



BBC Plant mewn Angen

£50m

Codwyd y swm rhyfeddol o £50 miliwn ar gyfer BBC Plant mewn Angen, y cyfanswm uchaf erioed 'ar y noson'.

Ynghyd â chefnogaeth ar gyfer ein dwy elusen gorfforaethol – BBC Plant mewn Angen a BBC Media Action, a phartneriaethau â Comic Relief a St Martin-in-the-Fields – ceir apeliadau wythnosol a misol ar gyfer ystod eang o elusennau. Cododd y BBC dros £94 miliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.

BBC Plant mewn Angen

Mae BBC Plant mewn Angen yn bodoli er mwyn canfod ac ariannu syniadau ysbrydoledig sy'n newid bywydau plant. Gyda chymorth y BBC, mae'r elusen yn ariannu mwy na 2,600 o brosiectau ar hyn o bryd sy'n mynd i'r afael â'r heriau amrywiol a chymhleth a wynebir gan bobl ifanc ledled y DU.

Yn 2017, daeth pobl o bob cwr o'r DU ynghyd er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc dan anfantais. Fel bob amser, cefnogodd y BBC apêl flynyddol BBC Plant mewn Angen drwy gyfres o raglennu a gweithgareddau penodol, yn cynnwys ymgyrch codi arian Radio 2 a arweiniwyd gan Chris Evans; penodau arbennig o *Countryfile*, *DIY SOS* a *The Big Life Fix*, *BBC Children in Need Rocks the 80s*; a rhaglen ddogfen

ar BBC One, *Saying Goodbye*, a roddodd lais i nifer o blant a phobl ifanc dewr sy'n wynebu galar. Ar gyfer Her Rickshaw *The One Show*, seiclodd y cyflwynydd Matt Baker a thîm o bobl ifanc benderfynol bellter anhygoel o 500 o filltiroedd o Lundain i Glasgow, ac aeth cydweithwyr y BBC ledled y DU ar eu hanturiaethau eu hunain i godi arian, o'r Great Wellington Walk gan BBC Somerseset i Pedal for Pudsey gan BBC Radio Lancashire.

Uchafbwynt hyn i gyd oedd y rhaglen apêl BBC Plant mewn Angen a ddarlledwyd ar BBC One. Roedd y rhaglen yn cynnwys straeon ysbrydoledig pobl ifanc yn goresgyn heriau yn eu bywydau, a chreodd argraff ar lu o gefnogwyr hael ledled y DU. Ar ddiwedd y sioe, cyhoeddwyd ein bod wedi codi'r cyfanswm uchaf erioed 'ar y noson' sef tua £50 miliwn. Yn 2017/18, rhoddodd Stevie Spring y gorau i'w swydd fel Cadeirydd BBC Plant mewn Angen ar ôl tri thymor tair blwyddyn yr un. Ers cael ei benodi i fwrdd yr ymddiriedolwyr yn 2008, mae Stevie wedi helpu'r elusen i godi mwy na £470 miliwn er mwyn newid bywydau cannoedd o filoedd o blant a phobl ifanc dan anfantais ledled y DU.

BBC Media Action

BBC Media Action yw elusen datblygu rhyngwladol y BBC. Mae'n creu cynnwys teledu, radio ac amlygfrwng, ac mae'n mentora newyddiadurwyr a darlledwyr i helpu pobl yn rhai o rannau tlotaf y byd. O ganlyniad i waith BBC Media Action, mae pobl yn deall mwy am eu hawliau a'u cyfrifoldebau; maent yn gallu gwella eu bywoliaeth; a chymryd camau i ddiogelu eu hiechyd nhw a'u teuluoedd. Mewn llefydd yr effeithiwyd arnynt gan wrthdaro a thensiwn cymdeithasol, mae'n helpu i bontio rhaniadau gwleidyddol, ethnig a chymdeithasol drwy ddarparu llwyfannau trafod dibynadwy.

Yn 2017/18, cynhaliodd yr elusen a'i phartneriaid 88 o brosiectau yn Affrica, Asia, y Dwyrain Canol a Dwyrain Ewrop. Roedd hyn yn cynnwys helpu teuluoedd i frechu eu plant rhag polio yn Nigeria ac Affganistan, gan helpu mwy o fabanod cynamserol i oroesi yn Kenya, a rhoi gwybodaeth hanfodol i bobl sy'n byw mewn rhannau o Somalia sy'n wynebu sychder. Ymatebodd i argyfyngau yn cynnwys argyfwng ffoaduriaid Rohingya yn Bangladesh a llifogydd dinistriol yn Sierra Leone a De Asia. Yma, rhoddodd hyfforddiant BBC Media Action i ddarlledwyr lleol y sgiliau iddynt greu rhaglenni radio a roddodd wybodaeth hanfodol i'r sawl yr effeithiwyd arnynt yn y cyfnod yn union ar ôl yr argyfwng a thu hwnt.

Yn Sierra Leone, mae traean o'r boblogaeth dan 35 oed, mae lefelau uchel o ddiweithdra ymysg pobl ifanc ac

agweddau negyddol yn gyffredinol tuag at bobl ifanc. Ysbrydolodd rhaglen glodwiw BBC Media Action bobl fel Ishiaka Amara, cyn garcharor, i sefydlu busnesau bach neu i ymgymryd â rolau arweiniol yn eu cymunedau lleol. “Pan gefais fy rhyddhau o’r carchar y tro diwethaf, roeddwn yn ffodus i wrando,” meddai. “Mae’r stori hon wedi fy nhrawsnewid yn llwyr.”

Yn India, lle mae gwahaniaethu yn erbyn menywod yn seiliedig ar syniadau dwfn ynghylch rolau dynion a menywod, anogodd prosiect amlgyfrwng bobl ifanc i herio’r tybiaethau hyn a gwrthod cael eu dylanwadu gan eu cyfoedion. Roedd gêm ffôn deallus o’r enw ‘Nugget’, wedi’i hanelu at bobl ifanc, ymysg y deg gêm uchaf a lawrlwythwyd ar Google Play yn India.

Ni chaiff BBC Media Action ei hariannu gan ffi’r drwydded ac mae’n dibynnu ar roddion gan unigolion, sefydliadau a chorfforaethau. Yn 2017/18, cafodd gymorth gan ystod o gyllidwyr gan gynnwys Sefydliad Bill a Melinda Gates, Swyddfa Dramor a Chymanwlad y DU, Swedish International Development Cooperation Agency (SIDA), Adran Datblygu Rhyngwladol y DU (DFID), asiantaethau’r Cenhedloedd Unedig ac USAID.

Cyfanswm yr incwm yn 2017/18 oedd £33 miliwn.

Rhagor o wybodaeth – bbc.co.uk/mediaaction

Apeliadau darlledu

Eleni, mae apeliadau Radio 4 a Lifeline BBC One wedi codi dros £1.1 miliwn ar gyfer 60 o elusennau, gydag amrywiaeth eang o achosion yn y DU a thramor. Mae elusennau bellach yn rhannu straeon am eu hapeliadau radio a theledu yma: <http://www.bbc.co.uk/charityappeals/about/amounts-raised>. Mae’r apeliadau hyn, yn ogystal â chodi arian, yn eu galluogi i godi ymwybyddiaeth o’u gwaith gyda chynulleidfau lawer ehangach, sy’n rhywbeth arbennig o werthfawr i elusennau llai. Gall y sawl sy’n bodloni’r meini prawf wneud cais am apêl ar y BBC yma: <http://www.bbc.co.uk/charityappeals/appeals/apply-now>

Mae proses ddethol ar wahân ar gyfer apeliadau darlledu ar Deledu a Radio’r BBC yng Ngogledd Iwerddon, a ddarlledodd 15 apêl y llynedd yn ogystal ag apêl arbennig ar unigrwydd adeg y Nadolig.

Cododd Apêl Nadolig BBC Radio 4 gyda St Martin-in-the-Fields, sydd bellach yn ei 91fed blwyddyn, £3 miliwn, sef y swm uchaf erioed. Mae’r elusen yn gweithio gyda phobl ddigartref a’r sawl sy’n wynebu risg o ddigartrefedd yn y DU.

Darlledodd y BBC hefyd apêl Argyfwng Rohingya ar gyfer y Pwyllgor Argyfyngau, gan helpu i godi cyfanswm o £26 miliwn.

Comic Relief

Dychwelodd Sport Relief, ymgyrch codi arian a gynhelir am yn ail flwyddyn gan Comic Relief, yn 2018. Uchafbwynt hyn oedd noson wych o deledu byw ar y BBC, a ddarlledwyd o gartref BBC Chwaraeon ym Manceinion.

Dan faner ‘Whatever Moves You’, aeth Sport Relief ati i gael pobl ledled y DU i wneud ymarfer corff, codi arian a newid bywydau. Roedd y BBC cyfan yn cefnogi’r ymgyrch hon, gyda chynnwys pwrpasol gwych ar draws allbwn teledu, digidol a radio’r BBC. Cynhaliodd holl ranbarthau Lloegr eu gweithgareddau eu hunain, gan godi arian ac ymwybyddiaeth – ac am y tro cyntaf, cafwyd heriau penodol yng Nghymru a’r Alban, gyda’r comedïwr Des Clarke yn mynd i’r afael â’i ofnau a’r elfennau mewn TRY-athlon unigryw a’r seren rygbi Gareth Thomas yn wynebu ei ofn o uchder er mwyn cyflawni ei naid gyntaf allan o awyren.

Cafwyd heriau anhygoel unwaith eto eleni. Cefnogodd Radio 1 Greg James wrth iddo seiclo a cherdded i ben y mynyddoedd uchaf yng Nghymru, Lloegr a’r Alban ar gyfer Gregathlon: Pedal to the Peaks Radio 1, er gwaethaf y ffaith iddo wynebu’r ‘Dihiryn o’r Dwyrair’ ac enghreifftiau o’r tywydd gwaethaf a welwyd ers degawdau. Ar hyd y ffordd, ysbrydolodd sgwrs anhygoel gyda gwrandawyr ynghylch iechyd meddwl a chododd fwy na £1 filiwn.

Seiclodd Zoe Ball o Blackpool i’w chartref yn Brighton ar gyfer *The BT Sport Relief Challenge: Zoe’s Hardest Road Home*. Ar y rhaglen ddogfen a ysbrydolodd ar BBC One, dangoswyd dewrder anghredadwy Zoe wrth iddi wynebu ei thrychineb personol ei hun o golli ei phartner er mwyn codi proffil iechyd meddwl a hunanladdiad ymysg dynion. Mae ei dewrder eisoes wedi helpu sawl un arall i drafod eu profiadau eu hunain. Dangosodd y cyhoedd eu cefnogaeth drwy ei helpu i godi mwy na £1 filiwn i Sport Relief.

Ac yn olaf, cefnogodd *The One Show* ‘Mother of All Challenges’, gyda’r fam newydd Alex Jones a mamau anhygoel o bob cwr o’r DU yn codi proffil iechyd mamau, a chodi bron i £800,000 i Sport Relief. Cododd pob un o’r heriau hyn arian hanfodol ar gyfer y gwaith a ariennir gan Comic Relief ond, yr un mor bwysig, dangosodd y sgwrs a ysbrydolwyd ganddynt yr effaith fwy sy’n bosibl drwy ymdriniaeth unigryw Comic Relief a’r bartneriaeth â’r BBC.

Daeth yr ymgyrch i uchafbwynt gyda noson o deledu byw ar y BBC. Drwy gydol y noson, ymysg yr adloniant, dangoswyd ffilmiau cwbl rymus yn dangos rhai o’r prosiectau anhygoel y mae Comic Relief yn eu cefnogi yn y DU a ledled y byd.

£94m

Cododd y BBC dros £94 miliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.

Dros gyfnod Sport Relief, cymerodd pobl ledled y DU ran mewn sawl ffordd. Am y tro cyntaf, defnyddiodd Sport Relief ap newydd i herio’r DU – i geisio curo biliwn o gamau y dydd yn ystod wythnos Sport Relief. Diolch i boblogrwydd yr ap, cyflawnwyd y nod hwn ar ddiwrnod olaf yr ymgyrch – cyflawniad gwych gan ddangos gallu technoleg newydd i ddwyn pobl ynghyd mewn ymdrech ar y cyd. Ledled y DU, cymerodd mwy na 10,000 o ysgolion, meithrinfeydd a grwpiau ieuenctid ran mewn gweithgareddau yn cynnwys rhedeg milltir, neu heriau dyddiol i wneud ymarfer corff drwy gydol yr wythnos. Yn ogystal ag annog miloedd o ddisgyblion ledled y DU i wneud ymarfer corff, mae ysgolion ar y trywydd cywir i godi £4 miliwn, sy’n swm enfawr.

Hyd yma, mae Sport Relief 2018 wedi codi bron i £40 miliwn ac mae’r ffigur yn dal i godi. Mae hyn diolch i haelioni parhaus y cyhoedd, cefnogaeth wych llw o dalent o’r byd chwaraeon a’r byd adloniant a chefnogaeth barhaus ein partneriaid ymroddedig.

Craffu Allanol

Mae pob elusen sy’n cael sylw ar y BBC wedi’i chofrestru â’r Comisiwn Elusennau, sy’n rheoleiddio ac yn cofrestru elusennau yng Nghymru a Lloegr, neu’r cyrff rheoleiddio perthnasol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae Pwyllgor Cynghori Apeliadau’r BBC (AAC) yn gweithio gyda gwneuthurwyr rhaglenni a’r BBC ar amrywiaeth eang o elusennau, gan graffu ar brosesau llywodraethu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol ac arfer gorau. Ceir proses fanwl i ddewis yr holl elusennau ar gyfer yr apeliadau a ddarlledir ac mae arbenigwyr annibynnol yn craffu ar y ceisiadau, cyn i’r AAC wneud y penderfyniadau terfynol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor yn: bbc.co.uk/charityappeals/about/appeals-advisory-committee.

Cynaliadwyedd amgylcheddol

Yn 2017/18, mae ein rhaglenni, megis *Blue Planet II*, wedi cyflwyno materion amgylcheddol a materion cynaliadwyedd cyfareddol i gynulleidfaedd ledled y byd, gan godi ymwybyddiaeth a helpu i arwain newid. O fewn y BBC, rydym wedi parhau i leihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd, gan leihau ein hól-troed carbon, ailgylchu mwy a chodi ymwybyddiaeth gyda'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw.

Mae ein gwneuthurwyr rhaglenni wedi asesu eu hól-troed carbon ac maent yn cymryd camau i'w leihau

Rydym wedi parhau i hyrwyddo ffyrdd cynaliadwy o weithio yn y diwydiant, yn enwedig drwy gynhyrchu cynaliadwy. Ers mis Ebrill 2017, mae 39% o raglenni a gomisiynwyd gan BBC Content a BBC Children wedi cyfrifo eu hól-troed carbon gan ddefnyddio cyfrifiad 'Albert' BAFTA. Cafodd 122 o raglenni, yn cynnwys *Blue Peter*, *The Winter Olympics*, *Two Doors Down*, *EastEnders*, *Who Do You Think You Are* a *Peaky Blinders* ardystiad cynhyrchu cynaliadwy Albert i gydnabod eu hymdrechion wrth leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Rydym yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, yn ailgylchu mwy ac yn codi ymwybyddiaeth

Yn 2017/18, dechreuodd y mwyafrif o'n safleoedd yn y DU ddefnyddio trydan adnewyddadwy, a arweiniodd at ostyngiad mawr o 80% yn ein hól-troed carbon. Mae ein defnydd o ynni wedi gostwng 3% oherwydd newidiadau i'n portffolio eiddo a gwelliannau i effeithlonrwydd boeleri nwy.

Rydym bellach yn ailgylchu mwy nag erioed o'r blaen (69%) ac wedi gostwng cyfanswm ein gwastraff cyffredinol 19%. Credwn fod ein gwaith yn hyfforddi ein staff ac yn codi ymwybyddiaeth wedi cyfrannu'n fawr at y llwyddiannau hyn.

Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fwrriad i ddileu plastig defnydd untro o'n gweithrediadau. Erbyn diwedd 2018, caiff nwyddau plastig defnydd untro – fel cwpanau a chyllyll a ffyr – eu dileu o'n swyddfeydd. Yna, byddwn yn dileu cynwysyddion plastig defnydd untro o allfeydd arlwygo erbyn 2019 a phlastig defnydd untro o bob maes arall erbyn 2020. Mae ein campws MediaCityUK yn arwain y ffordd yn hyn o beth, gan ei fod eisoes wedi dileu plastig defnydd untro o'i gyfleusterau arlwygo ac wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer casglu bwyd gwastraff ac ailgylchu cwpanau coffi.

Cafodd rhaglenni yn cynnwys *EastEnders* eu cydnabod am leihau eu heffaith ar yr amgylchedd



Rydym hefyd yn falch o'n prosesau adrodd straeon o fewn y BBC. Yn ystod mis Chwefror 2018, roeddem yn ysbrydoli ac yn addysgu staff y BBC yn MediaCityUK i fyw a gweithio'n fwy cynaliadwy fel rhan o dymor cynaliadwyedd arbennig.




Rydym wedi pennu strategaeth newydd gyda thargedau clir i barhau i adeiladu ar ein cyflawniadau a pharatoi'r BBC ar gyfer y dyfodol

'Darlledu Gwyrddach' yw dull gweithredu'r BBC o greu effaith amgylcheddol gadarnhaol. Byddwn yn cyflawni hyn drwy leihau effaith uniongyrchol ein gweithrediadau a'n staff, llunio partneriaethau er mwyn creu diwydiant cynaliadwy a defnyddio ein sefyllfa unigryw i gyflwyno cynnwys ysbrydoledig a difyr i'n cynulleidfa.

Rydym wedi diffinio targedau amgylcheddol newydd yn erbyn sylfaen 2015/16 fel yr amlinellir yn y tabl. Mae'r targedau newydd yn herio'r BBC i leihau'r ynni a ddefnyddiwn, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella prosesau ailgylchu. Fel rhan o'r broses o bennu targedau, buom yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon er mwyn pennu targed lleihau carbon yn unol â methodoleg 'ar sail gwyddoniaeth' a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Gan ein bod wedi prynu trydan adnewyddadwy, rydym wedi gallu rhagori ar y targed cychwynnol a bydd hyn yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn adolygu'r targedau yn rheolaidd ac yn sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol ac yn heriol.

Mae'r tabl isod yn disgrifio'r targedau rydym yn anelu atynt erbyn 2022, ynghyd â'r cynnydd a wnaed gennym hyd yma. Byddwn yn parhau i weithredu yn y meysydd hyn ac yn adrodd ar ein cynnydd yn flynyddol. Lle rydym eisoes wedi rhagori ar ein targedau, byddwn yn adolygu ein huchelgais ar gyfer blynyddoedd i ddod o fewn y flwyddyn nesaf.

Targedau a mesurau BBC gwyrddach	Targed/mesur erbyn 2022 (sylfaen 2015/16)	Cynnydd 2017/18 yn erbyn 2015/16
CO₂e <small>CO₂e</small>	Gostwng 24%*	Gostyngiad o 80%
 Ynni	Gostwng 10%	Gostyngiad o 3%
 Gwastraff	Gostwng 10%	Gostyngiad o 19%
	Ailgylchu 75%	Wedi ailgylchu 69%
	'Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi'	Gwastraff i safleoedd tirlenwi 11%
	Dim plastig defnydd untro erbyn 2020	Mynd rhagddo
 Rhaglenni	100% cyfrifiad albert 25% o'r carbon a gynhyrchir wedi'i ardystio drwy albert	39% wedi'i gyfrifo 23% wedi'i ardystio 122 o raglenni

* Mae'r targed gostwng CO₂e yn mynd i'r afael ag allyriadau cwmpas 1 a 2, yn dilyn methodoleg targed ar sail gwyddoniaeth dull dadgarboneiddio'r sector. y.

Isod, rydym yn disgrifio ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a'n dwysedd carbon (gros a net), a gaiff eu monitro a'u datgelu'n flynyddol.

Allryiadau Nwyon Tŷ Gwydr 2017/18	Allryiadau 'gros'	Allryiadau 'net'
Allryiadau nwyon tŷ gwydr (tunelli o allyriadau CO ₂ e, cwmpas 1 a 2)	75,713	19,474
Dwysedd carbon (tunelli o allyriadau CO ₂ e/cyfanswm incwm y grŵp £m)	15.0	3.8

Mae'r data ar nwyon tŷ gwydr ar gyfer swyddfeydd yn y DU a rhai sy'n cynrychioli'r World Service. Mae allyriadau 'gros' yn defnyddio ffactor cyfartalog grid ar sail lleoliad, mae allyriadau 'Net' yn cyfrif am drydan adnewyddadwy a brynir ar gyfer y DU.

Ceir rhagor o wybodaeth a nodiadau esboniadol yn bbc.co.uk/responsibility/environment.



Mae campws Media City yn Salford yn arwain y ffordd yn hyn o beth gan ei fod eisoes wedi dileu plastig defnydd untro o'i gyfleusterau arlwyio.

Llywodraethu

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar rôl Bwrdd y BBC ac mae'n cynnwys adroddiadau gan is-bwyllgorau dirprwyedig y Bwrdd. Mae'r adran hefyd yn manylu ar ein dull cyffredinol o ymdrin â llywodraethu corfforaethol, ein sefyllfa reoleiddiol a chadarnhad o ddyletswyddau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol.

t.90

Bwrdd y BBC

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter.

t.92

Adroddiad Llywodraethu

Cydymffurfiwn ag arfer gorau llywodraethu corfforaethol.

t.93

Adroddiad Cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

t.101

Datgeliadau cyflogau

O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi enwau'r unigolion hynny sy'n gweithio i'r BBC sy'n cael eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded.



Darllenwch fwy yn: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/accountability

t.109

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'n adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnlol a rheoli risg.

t.118

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau golygyddol y BBC.

Bwrdd y BBC

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter. Disodlodd strwythur dwy haen Ymddiriedolaeth y BBC a Bwrdd Gweithredol y BBC fel corff llywodraethu'r Gorfforaeth ar 3 Ebrill 2017.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Syr David Clementi ac mae'n cynnwys deg cyfarwyddwr anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, a phedwar cyfarwyddwr gweithredol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Caiff y Cadeirydd a phedwar cyfarwyddwr anweithredol y gwledydd eu penodi gan EM Y Frenhines ar sail argymhelliad Gweinidogion a chaiff gweddill y Bwrdd eu penodi gan y BBC drwy Bwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd.

Gellir darllen bywgraffiadau llawn holl aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys eu rolau eraill, ar wefan y BBC: bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/managementstructure/bbcbboard.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i nifer o is-bwyllgorau ac mae'r adran hon yn cynnwys adroddiadau gan y pwyllgorau hynny, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn bennaf, fel sy'n ofynnol gan y Siarter.

Dyma aelodaeth y Bwrdd ym mis Mehefin 2018. Gweler tudalen 94 am ragor o fanylion am newidiadau i aelodaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol yn ystod y flwyddyn. Rhoddir manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac is-bwyllgorau ar dudalen 108.

Ni phenodwyd aelod o'r Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon eto, tra bo Gweithrediaeth newydd yng Ngogledd Iwerddon yn yr arfaeth.

Pwyllgor Gweithredol

Ynghyd â'r Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am redeg y BBC o ddydd i ddydd. Gwnaeth naw cyfarwyddwr, sy'n rheoli meysydd gweithredol mawr o'r Gorfforaeth, eistedd ar y pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn. Yr aelodau oedd:

Tony Hall, y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Anne Bulford, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol

Tim Davie, Prif Weithredwr BBC Studios a Chyfarwyddwr Global

Valerie Hughes D'Aeth, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp

James Harding, Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes (ymddiswyddodd o'r BBC ym mis Ionawr 2018)

Mark Linsey, Cyfarwyddwr BBC Studios

Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau

Charlotte Moore, Cyfarwyddwr Cynnwys


Matthew Postgate, Prif Swyddog Technoleg a Chynhyrchion

James Purnell, Cyfarwyddwr Radio ac Addysg

Fran Unsworth, Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes (dechreuodd yn y rôl ym mis Ionawr 2018)

Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC yn unol â'r strategaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd, ynghyd â phob agwedd ar reoli gweithredol.

Dysgwch fwy: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement.



+ Dysgwch fwy: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/bbcboard

Adroddiad Llywodraethu

Cydymffurfiwn ag arfer gorau llywodraethu corfforaethol

Diffinnir fframwaith llywodraethu corfforaethol y BBC yn ei Siarter a'r Cytundeb Fframwaith cysylltiedig. Mae'r Siarter a'r Cytundeb ar gael ar wefan y BBC yn: bbc.co.uk/corporate2/insidethebbc/managementstructure/bbccharterandagreement.

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, eto i gyd mae wedi dewis cymhwyso arfer gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2016 y Cyngor Adrodd Ariannol, lle bo hynny'n briodol. Rhydd y safonau llywodraethu sy'n gymwys i gwmnïau a restrir ar farchnad stoc reoleiddedig yr UE.

Mae'r BBC wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion llywodraethu corfforaethol y Siarter a'r Cytundeb ac wedi sicrhau cryn gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae nifer o elfennau o God Llywodraethu Corfforaethol y DU nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â Siarter neu Gytundeb y BBC yn drech na chydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Nodir y rhain isod. Yn ystod 2017/18 roedd Siarter y BBC yn drech na Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU mewn perthynas â'r cyrff llywodraethu.

Yn flaenorol, roedd yn ofynnol i'r BBC gael strwythur llywodraethu dwy haen, a oedd yn cynnwys Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol. Ar 3 Ebrill 2017, yn sgil cyflwyno Siarter newydd, sefydlwyd Bwrdd unigol yn ei le. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad allanol o'i effeithiolrwydd a'i berfformiad, er mwyn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu newydd o dan y Siarter yn gweithio'n dda. Holodd yr adolygiad farn pob aelod o'r Bwrdd a gwnaeth argymhellion a ystyriwyd gan y Bwrdd.

Cydymffurfiodd y BBC â gofynion ei Siarter a oedd yn drech nag egwyddorion canlynol y Cod Llywodraethu Corfforaethol:

- Gwerthuso'r Cadeirydd (egwyddor B6.3 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU).
- Ailethol Cyfarwyddwyr (egwyddor B.7 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU).
- Cyfrifoldeb am wneud argymhelliad ynghylch penodi, ailbenodi a rhoi'r gorau i ddefnyddio'r archwilwyr allanol (egwyddor C.3.7 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU).

Hefyd, mae dau faes lle nad yw Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn berthnasol i'r BBC, sef:

Cyfansoddiad cydnabyddiaeth (egwyddor D.1.1 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):

Mae'r BBC yn pennu lefelau cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol a ddylai fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymell cyfarwyddwyr o'r safon angenrheidiol i redeg y sefydliad yn llwyddiannus, yn unol â'r egwyddor hon. Fodd bynnag, o dan yr egwyddor hon mae'n rhaid hefyd gysoni cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol â'r syniad o wella gwerth i gyfranddalwyr drwy sicrhau bod elfennau o gydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn gyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth. Gan fod y BBC yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded a bod ganddo statws fel corfforaeth gyhoeddus, mae'r BBC wedi penderfynu y dylai swm y gydnabyddiaeth amrywiadwy (neu gydnabyddiaeth ar sail perfformiad) y gall staff ei hennill yn y gwasanaeth cyhoeddus fod yn gyfyngedig. Ni roddir tâl amrywiadwy i unrhyw un o gyfarwyddwyr gweithredol Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC a rhoddwyd y gorau i dalu bonws. Cafodd Tim Davie elfen o gyflog ar sail perfformiad yn ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide, fel y gwnaeth Mark Linsey yn ei rôl fel Prif Swyddog Gweithredol, BBC Studios.

Rhyngweithio â chyfranddalwyr (egwyddorion B.7.1, B.7.2, D.2.4 ac adran E o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):

Nid yw'r BBC yn gwmni â chyfranddalwyr sy'n anelu at wneud elw ac felly mae darpariaethau sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddalwyr yn amherthnasol.

Cost cydymffurfio

Yn 2017/18, amcangyfrifwyd bod y BBC wedi mynd i gostau o £19.3 miliwn (2016/17: £15.6 miliwn) er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â phob darn o ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys ffi reoleiddio flynyddol y BBC i Ofcom, sef £11.6 miliwn.

Rheoleidd-dra

Rhaid i'r broses o reoli holl adnoddau'r BBC fod yn unol â darpariaethau'r Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill a wna'r BBC â Gweinidogion y Llywodraeth. Ystyrir bod trafodion sy'n cyflawni'r dibenion a fwriadwyd ac sy'n unol ag awdurdodau perthnasol yn rhai 'rheolaidd'; caiff y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hyn eu hystyried yn 'afreolaidd'. Ymdrinnir â thrafodion twyllodrus a chosbau ariannol neu ddirwyon fel rhai 'afreolaidd'.

Yn ogystal ag adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o reoleidd-dra, cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygiad o fframwaith cydymffurfio â rheoleidd-dra'r BBC, gan gynnwys y prosesau, y rheolaethau a'r systemau sicrwydd sydd ar waith i reoli'r risg i reoleidd-dra mewn meysydd yr asesiir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o afreoleidd-dra. Gwnaeth cwmpas yr adolygiad ystyried y defnydd priodol o arian ffi'r drwydded, yr asesiad o newidiadau sylweddol, gweithredu o fewn terfynau benthyca a'r risg o dwyll. Ni nodwyd unrhyw eithriadau sylweddol o ganlyniad i'r adolygiad hwn ac nid yw'r rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw drafodion y gellid eu hystyried yn afreolaidd.

Gweler tudalen 169 am farn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am reoleidd-dra.

Adroddiad Cydnabyddiaeth

Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Dros y flwyddyn ddiwethaf craffwyd ar faterion cyflog a rhoddwyd cryn sylw iddynt yn y BBC. Fel Pwyllgor Cydnabyddiaeth Bwrdd y BBC ar ei newydd wedd, rydym wedi gweithio gyda rheolwyr y BBC er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys yr angen i gynyddu nifer yr uwch aelodau o staff sy'n ferched, cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a sicrhau bod y BBC yn lle tecach, symlach – a gwell – i weithio ynddo.

Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y llynedd, rhoddwyd cryn sylw i faterion yn ymwneud â chyflog rhwng y rhywiau, cyflog cyfartal a thegwch o ran cyflog, yn y BBC a'r DU yn gyffredinol. Comisiynodd y BBC nifer o adroddiadau – gan gynnwys archwiliad o gyflog cyfartal, a gynhaliwyd yn annibynnol ac a oruchwyliwyd gan Syr Patrick Elias CF – a hefyd, cyhoeddodd ei adroddiad statudol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Nododd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth na wnaeth yr adroddiadau hyn ganfod unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu systematig o ran cyflog rhwng y rhywiau. Mae bwlch canolrif y BBC o 9.3% sydd wedi'i gofnodi ar gyfer 2017/18 yn cymharu â bwlch canolrif cyfartalog cenedlaethol o 18.4% a chyhoeddodd y diwydiant gwybodaeth a chyfathrebu ganolrif cyfartalog o 17.4%. Serch hynny, tynnodd yr adolygiadau hyn – ynghyd â'r achosion unigol a godwyd gan aelodau o staff – sylw at nifer o enghreifftiau yr oedd angen eu hystyried ymhellach.

O ganlyniad, cynhaliodd y BBC nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn:

- adolygu cyflogau World Service a BBC Monitoring, gan edrych ar y ffordd mae ystodau cyflog yn y meysydd hyn yn cymharu â Newyddion Rhwydwaith a'r farchnad ehangach. Ar ôl yr adolygiad hwn, cymerwyd nifer o gamau i gysoni cyflogau World Service â Newyddion Rhwydwaith;
- gyda'r cyd-undebau, parhau i foderneiddio Telerau ac Amodau'r BBC, er mwyn eu gwneud yn symlach ac yn fwy cyson;
- parhau i weithredu Fframwaith Llwybr Gyrfa unigol yn y BBC, gan alluogi staff i weld eu safle yn ystod gyflog eu carfan o gydweithwyr;
- adolygu cyflogau cyflwynwyr ar yr awyr, golygyddion ar yr awyr a gohebwy'r BBC;
- ymrwymo i adolygu achosion a godir gan unigolion y mae newidiadau i asesiad statws treth CThEM cyflwynwyr a chyfranwyr llawrydd yn effeithio arnynt.

Yn ogystal â chyflogau, mae'r BBC hefyd yn ystyried sut mae gwahanol grwpiau ymhlith ei staff yn camu ymlaen i uwch rolau arwain. Sefydlwyd pedwar gweithgor o dan uwch gyfarwyddwyr y BBC er mwyn edrych ar ffyrdd o helpu menywod, cyflogeion o gefndir BAME, staff anabl, staff LGBT a chynnal cynhwysiant ar draws cefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Nodir perfformiad presennol yn erbyn targedau staff y BBC yn y tabl isod. Dengys fod cynnydd da yn cael ei wneud, ond bod angen canolbwyntio'n fwy ar gael staff BAME a menywod i mewn i uwch rolau arwain.

Pob aelod o staff ac arweinyddiaeth: 31 Mawrth 2018

Gweithlu	2018	Targed 2020
Menywod (pob aelod o staff)	47.7%	50%
Menywod (arweinyddiaeth)	43.3%	50%
Anabledd (pob aelod o staff)	10.4%	8%
Anabledd (arweinyddiaeth)	9.5%	8%
BAME (pob aelod o staff)	14.8%	15%
BAME (arweinyddiaeth)	10.4%	15%
LGBT (pob aelod o staff)	11.0%	8%
LGBT (arweinyddiaeth)	12.0%	8%

Mae'r Pwyllgor hefyd yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn bil cyflog uwch reolwyr a thargedau o ran eu niferoedd a osodwyd o dan hen Ymddiriedolaeth y BBC yn 2011. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae bil cyflog uwch reolwyr, gan gynnwys aelodau o'r Bwrdd, wedi lleihau £4.5 miliwn arall i £37.7 miliwn ac mae nifer yr uwch reolwyr wedi lleihau 42 arall, i 270.

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi rhestr lawn o bob unigolyn sydd wedi ennill dros £150,000 yn ystod y flwyddyn o ffrîr drwydded. Eleni, rydym wedi dewis cyflwyno'r wybodaeth hon mewn bandiau £10,000 culach, er mwyn hwyluso tryloywder. Dengys y datgeliadau eleni fod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth gau'r bwlch rhwng y dynion a'r menywod a gaiff y swm mwyaf o arian. Mae hefyd yn dda gweld y cyhoeddiad diweddar ynghylch bwlch cyflog llai rhwng y rhywiau ar gyfer blwyddyn adrodd 2018/19, sef 7.6%.

Fodd bynnag, fel Pwyllgor rydym yn glir bod angen i'r newid hwn ddigwydd yn gyflymach a disgwyliwn weld y bwlch yn cau ymhellach. Hefyd, credwn y gellid gwneud mwy i wneud y rhestrau datgeliadau yn fwy eglur. Fel y cyfryw, rydym wedi gofyn i reolwyr y BBC ddarparu rhagor o wybodaeth a chyd-destun er mwyn galluogi darllenwyr i ddeall gwaith unigolion yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd wedi gofyn i fwy gael ei wneud er mwyn dangos effaith newidiadau sy'n dal i gael eu gwneud. Caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi yma, ynghyd â'r rhestr lawn o ddatgeliadau ar gyfer 2017/18.

Yn ystod y flwyddyn cafodd BBC Studios ei lansio fel un o is-gwmnïau masnachol y BBC ac mae'r Pwyllgor wedi goruchwyllo'r gwaith o integreiddio cynlluniau cymell blaenorol BBC Studios a BBC Worldwide yn un system newydd gyfunol.

Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn parhau i archwilio ffyrdd o ddenu a chadw'r dalent orau, ym mhob carfan o staff, mewn marchnadoedd cyfryngau cystadleuol iawn, gan ddiogelu gwerth am arian talwyr ffrîr drwydded ar yr un pryd.

Steve Morrison
Cadeirydd
21 Mehefin 2018

Adroddiad cydnabyddiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth flynyddol a dderbyniwyd gan aelodau o Fwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmniâu a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2013 a Rheolau Rhestru yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Archwiliwyd yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan y grŵp hwn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, archwilyddwr statudol y BBC.

Crynodeb gweithredol

Dyma'r adroddiad cydnabyddiaeth cyntaf i'w lunio o dan y Siarter a'r Cytundeb newydd. Fel rhan o'r gwaith o ad-drefnu'r Gorfforaeth, gwnaed nifer o newidiadau i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ran strwythur ac aelodaeth. At ddbenion yr adroddiad hwn, dosberthir cyfarwyddwyr gweithredol fel y sawl sy'n eistedd ar y Bwrdd ynghyd â'r aelodau eraill o'r pwyllgor gweithredol (gweler tudalen 90 am fanylion).

O dan y Siarter newydd, mae gan y BBC strwythur llywodraethu newydd erbyn hyn, a arweinir gan Fwrdd unigol y BBC. Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Gweithredol, sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth weithredol y Gorfforaeth. O dan delerau'r Siarter, mae'r Bwrdd yn cynnwys 10 cyfarwyddwr anweithredol (y Cadeirydd, pum penodai'r BBC a phedwar cynrychiolydd y Gwledydd) a phedwar aelod gweithredol – gweler tudalennau 90 i 91 am ragor o fanylion. Yn 2017/18 roedd y Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys 10 aelod – pedwar aelod o'r Bwrdd, yn ogystal â Chyfarwyddwyr Cynnwys, Newyddion a Materion Cyfoes, Radio ac Addysg, Studios, Adnoddau Dynol a'r Prif Swyddog Technoleg.

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd Elen Closs Stephens i'r Bwrdd fel aelod Cymru. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i aelodaeth y Bwrdd. Ar y Pwyllgor Gweithredol, gadawodd James Harding ei swydd fel Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes ym mis Ionawr 2018, gyda Fran Unsworth yn cymryd ei le ar y Pwyllgor Gweithredol. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i aelodaeth y Pwyllgor Gweithredol yn ystod y flwyddyn.

Yn 2017/18, rhoddwyd cryn dipyn o sylw i gyflogau ar bob lefel yn y BBC, yn gysylltiedig â dull mwy manwl a chyson o reoli'r gweithlu cyfan. Rhoddwyd sawl menter ar waith er mwyn sicrhau bod penderfyniadau ynghylch cyflogau yn deg ac yn drolyow.

Mae'r BBC yn gweithredu mewn marchnad sy'n newid yn gyflym lle mae cystadleuaeth ddwys am dalent, a gwelwyd twf aruthrol ymhlith rhai cwmniâu newydd yn y cyfryngau sy'n cynnig pecynnau hynod ddeniadol. Mae'n werth nodi ein bod yn parhau i gymhwyso gostyngiad sylweddol o'n cyflogau lefel uwch at y farchnad, er ein bod yn gweithredu mewn marchnadoedd masnachol mwyfwy cystadleuol am y dalent orau a disgleiriaf.

Credwn y bydd y mentrau rydym wedi eu rhoi ar waith yn sicrhau y gall y sefydliad barhau i apelio i bawb sy'n teimlo'n gyffrous am y cyfleoedd i weithio ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, ers 1 Ebrill 2017, wedi bod yn gyfrifol am bennu'r strategaeth cydnabyddiaeth i Fwrdd y BBC ynghyd â phob agwedd ar gydnabyddiaeth y Pwyllgor Gweithredol a'r cyfarwyddwyr anweithredol. Mae ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Steve Morrison (Cadeirydd), Tanni Grey-Thompson a Nicholas Serota.

Gan gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol 2016 y DU, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, ceir cyngor annibynnol gan Willis Towers Watson ar faterion sy'n ymwneud â chymharu cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn y farchnad.

Sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Uwch Reolwyr ym mis Medi 2012, ac mae'n gyfrifol am gysoni anghenion gweithredol y BBC â'r fframwaith strategol a bennir gan y Bwrdd ac a weithredir gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw gydnabyddiaeth, iawndal neu bolisi buddiannau o fewn strategaeth cyflogau uwch reolwyr, sy'n cynnwys adolygu a chymeradwyo cyflogau cyflogaion sy'n ennill mwy na £75,000 y flwyddyn (cyfwerth ag amser llawn).

Elfennau cyflog cyfarwyddwyr gweithredol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymrwymedig i bennu cyflog priodol i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n denu, yn gymell ac yn cadw'r bobl orau i arwain y BBC a sicrhau gwerth i dalwyr ffi'r drwydded. Dylai strategaeth cyflog cyfarwyddwyr gweithredol y BBC fod yn deg, yn drolyow ac yn gyson yn gyffredinol â'r ffordd yr ymdrinnir â chyflogau pob cyflogai yn y BBC.

Parheir i wneud cynnydd tuag at y nodau hyn, gan gynnwys lleihau fesul cam y gwahaniaethau hanesyddol yn y ffordd yr ymdrinnir â chyflog a buddiannau rhwng uwch aelodau o staff ac aelodau eraill o staff.

Mae'r BBC wedi rhoi sawl menter ar waith yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys lansio set o egwyddorion cyflog ar draws y sefydliad, er mwyn sicrhau bod cydnabyddiaeth yn deg, yn gyson, yn drolyow, yn gystadleuol ac yn glir. Mae gwobrwo unigolion yn dal i fod ar frig ein agenda: mae'r BBC yn cael adborth rheolaidd ynglŷn â chyflog uwch aelodau o staff gan gyflogaion yn ystod cyd-drafodaethau cyflog blynyddol drwy'r undebau llafur a thrwy'r arrolwg blynyddol o ymgysylltu â staff. Ystyrir yr adborth hwn wrth bennu'r strategaeth cyflog i'r cyfarwyddwyr gweithredol. Wrth adolygu'r cyflog i'r cyfarwyddwyr gweithredol, mae'r Pwyllgor yn ystyried pob elfen o'r pecyn cydnabyddiaeth cyfan wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn ar draws y dudalen.

Sut mae'r polisi cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yn wahanol i'r polisi ar gyfer pob un o gyflogaion eraill y BBC?

Ni thalwyd bonysau i gyfarwyddwyr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus ers 2008 ac mae'r BBC wedi symud i ffordd o'r strwythur buddiannau dwy haen blaenorol drwy roi'r gorau i gynnis yswiriant meddygol preifat a lwfansau car yn raddol. Ni chafodd unrhyw gyfarwyddwr gweithredol newydd y buddiannau hyn ers mis Awst 2011. Mae'r newidiadau hyn wedi symleiddio trefniadau cyflog ymhlith cyflogaion ac wedi'u gwneud yn gyfartal. Gall pob aelod o staff ar bob lefel o'r sefydliad bellach brynu ystod lawn o fuddiannau o dan ein trefniadau buddiannau hyblyg.

Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol nac uwch reolwyr yr hawl i gael yr adolygiad blynyddol o gyflog y cytunwyd arno â'r Cyd-undebau ac nid oes ganddynt hawl awtomatig i gael unrhyw fath o godiad blynyddol na thaliad datblygiad. Dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau cyfarwyddwyr gweithredol a dim ond Pwyllgor Cydnabyddiaeth Uwch Reolwyr all wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau uwch reolwyr er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch.

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
Cyflog sylfaenol	<p>Mae cyflog sylfaenol yn gyson â chanolrif y farchnad ar gyfer cyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol (cyflog, bonws blynyddol a chymhelliant hirdymor blynyddol).</p> <p>Caiff disgownt o 50-80% o gymharu â chyfanswm cydnabyddiaeth uniongyrchol yn y sector masnachol ei gymhwyso at rolau cyfarwyddwyr gweithredol.</p>	<p>Defnyddir tri ffactor i bennu lefel y cyflog sylfaenol a roddir i gyfarwyddwr gweithredol:</p> <ul style="list-style-type: none"> — a fyddai'r gyfradd yn gyson â'r gyfradd wedi'i phennu'n is yn y farchnad ar gyfer y swydd? — a yw perfformiad personol y cyfarwyddwr gweithredol yn cyfiawnhau lefel y cyflog sylfaenol? — a yw'r lefel yn fforddiadwy i'r BBC ac a thbyr nad yw'n ormodol? 	<p>Ni phennir unrhyw uchafswm cyflog nac uchafswm cynnydd.</p>
Tâl amrywiadwy	<p>Mae cyfarwyddwyr gweithredol a gyflogir gan fusnesau masnachol y BBC yn gymwys i gael taliad bonws blynyddol ar sail perfformiad a ariennir gan y busnes masnachol ac nid ffi'r drwydded. Mae'n cynnig gwobr am gyflawni nodau strategol byrdymor a thwf mewn elw.</p>	<p>Nid oes gan gyfarwyddwyr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus yr hawl i gael taliad bonws ar sail perfformiad.</p> <p>Mae taliadau bonws ymhlith busnesau masnachol y BBC yn amodol ar gyflawni targed cyffredinol sy'n seiliedig ar gymysgedd o brif elw a llif arian eu busnes.</p>	<p>Nid oes unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael taliad bonws ers 2008.</p> <p>Ar gyfer 2017/18, cymerodd dau gyfarwyddwr gweithredol o fewn busnesau masnachol y BBC ran mewn cynllun bonws. Ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide, yr uchafswm bonws sy'n daladwy yw 70% o'i gyflog, lle mae'r bonws targed yn 50% o'i gyflog. Ar gyfer Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios, yr uchafswm bonws sy'n daladwy yw 50% o'i gyflog, lle mae'r bonws targed yn 45% o'i gyflog. Cytunodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth eleni y dylai BBC Studios ar ei newydd wedd gael cynllun cymhelliant cyfunol gyda bonws targed o 40% ac uchafswm o 50%.</p>
Buddiannau	<p>Cynigir pensiynau yn unol â threfniadau pensiwn pob cyflogai.</p> <p>Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill yw aswiriant bywyd.</p>	<p>Gall cyfarwyddwyr gweithredol ddewis ymuno â'r cynllun cyfraniadau diffiniedig, LifePlan.</p> <p>Mae cynllun buddiannau diffiniedig y BBC wedi'i gau i staff newydd sy'n ymuno.</p>	<p>Mae'r polisi cyfredol yn darparu cynllun cyfraniadau diffiniedig heb gap cyflog, ac uchafswm cyfraniad o 10% o gyflog gan y cyflogwr.</p> <p>Mae aelodau presennol o gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig yn destun cap ar lefel yr uchafswm cyflog ar gyfer eu cynllun pensiwn neu'n destun cap mewn twf mewn cyflog pensiynadwy.</p> <p>Darperir aswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o ddwywaith eu cyflog sylfaenol i gyfarwyddwyr gweithredol.</p> <p>Ar gyfer aelodau o Gynllun Pensiwn y BBC neu LifePlan (cynllun cyfraniadau diffiniedig y BBC), darperir aswiriant bywyd yn achos marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith eu cyflog sylfaenol.</p>
	<p>Ym mis Ebrill 2012, dilëwyd budd y lwfans car i bob cyfarwyddwr gweithredol newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.</p>	<p>Ni chaiff unrhyw gyfarwyddwr gweithredol lwfans car.</p> <p>Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i ddefnyddio car â gyrrwr ond nid oes ganddo hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Mae'r Cadeirydd yn dilyn yr un trefniadau. Yn ystod 2017/18 bu modd i gyfarwyddwyr gweithredol eraill ddilyn y trefniadau hyn hefyd, ar sail ranedig.</p>	<p>Ni chafodd unrhyw gyfarwyddwr gweithredol lwfans car.</p>

Elfen	Diben a'i chysylltiad â'r strategaeth	Gweithrediad	Y cyfle mwyaf
	Ym mis Ebrill 2011, dilêwyd budd gofal iechyd preifat i bob cyfarwyddwr gweithredol newydd gan y BBC er mwyn sicrhau bod y polisi yn y dyfodol yn gyson â threfniadau i holl gyflogeion y BBC.	Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol a oedd eisoes â hawl i gael yswiriant meddygol preifat wedi'i gadw. Y cyfarwyddwyr gweithredol a ddewisodd gael yswiriant meddygol preifat a ariennir yn 2017/18 oedd: Tim Davie, Charlotte Moore, Mark Linsey, Ken MacQuarrie a Fran Unsworth.	Yr uchafswm yswiriant a gynigir yw yswiriant teuluol. Budd hanesyddol yw hwn.
Contractau cyflogaeth a diswyddo	Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o chwe mis ar y mwyaf, ond gellir eu terfynu'n gynt am reswm penodol..	Nid oes hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os terfynir contract yn gynnar oni bai ei fod yn cael ei derfynu ar sail diswyddo.	Os caiff swydd cyfarwyddwr gweithredol ei dileu, mae ganddo hawl i gael taliadau sy'n hafal i fis y flwyddyn hyd at uchafswm taliad o £150,000.
Cydnabyddiaeth arall	Nid oes unrhyw hawl i unrhyw gydnabyddiaeth arall, felly ni chafwyd unrhyw daliadau o'r fath yn ystod y flwyddyn.	Os cynigir unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol, rhoddir ystyriaeth lawn i'r risg i enw da'r BBC a byddai angen i unrhyw daliad o'r fath gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth fesul achos, cyn gweithredu.	Nid oes unrhyw uchafswm penodedig.

Pensiwn

Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i barhau i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC (y Cynllun), sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig. Mae cyfarwyddwyr gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau cyfatebol i LifePlan am gyfraniadau cyflogeion rhwng 4% a 5%. Caiff cyfraniadau cyflogeion rhwng 6% a 7% eu cyfateb ynghyd ag 1% ychwanegol. Mae cyfraniadau cyflogeion o 8% neu fwy yn cael y cyfraniad cyflogwr uchaf o 10%. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu at LifePlan.

Caiff cyfarwyddwyr gweithredol sy'n penderfynu peidio ag ymuno â LifePlan neu nad ydynt eisoes yn aelod presennol o'r Cynllun, yn amodol ar fodloni'r meini prawf perthnasol, eu cofrestru'n awtomatig â'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Mae'r BBC a chyflogeion yn talu 1% o enillion cymwys i NEST. Gall unigolion ddewis eithrio o hyn.

Caiff trefniadau pensiwn cyfarwyddwyr gweithredol eu hadolygu a'u diwygio mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth neu ddatblygiadau tebyg.

Rhoddir nodweddion trefniadau pensiwn y BBC y mae ein cyfarwyddwyr gweithredol yn rhan ohonynt ochr yn ochr â chyflogeion eraill y BBC yn y tabl isod.

Mae manylion Cynllun Pensiwn y BBC ar gael yn www.bbc.co.uk/mypension/.

Cynllun	Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig y BBC				Cyfraniad diffiniedig LifePlan	Cyfraniad diffiniedig (trefniant cofrestru awtomatig) Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST)
	Hen fuddiannau	Buddiannau newydd	CAB 2006	CAB 2011		
Dyddiad y'i caewyd	30 Medi 1996	31 Hydref 2006	30 Tachwedd 2010	1 Ionawr 2012	Yn agored i bob cyflogai cymwys	Yn agored i bob cyflogai cymwys
Croniad	60fed cronriad	60fed cronriad	1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â chwyddiant	1.67% o groniad wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr	Bydd y BBC yn cyfrannu uchafswm o 10% o gyflog os bydd cyflogai yn cyfrannu 8% gyda graddfa symud is	Bydd y BBC yn cyfrannu 1% o enillion cymwys (2017/18)
Cyflog	Pensiynadwy terfynol	Pensiynadwy terfynol	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa	Enillion wedi'u hailbrisio cyfartaledd gyrfa		
Oedran pensiynadwy arferol	60	60	65	65	Dd/G	Dd/G
Cap ar enillion	Wedi ymuno cyn 1 Mehefin 1989, heb ei gapio, wedi'i gapio fel arall ar £154,200	Wedi'i gapio ar £154,200	Wedi'i gapio ar £154,200	Wedi'i gapio ar £145,800	Heb ei gapio	Isafswm enillion £5,876 y.f. Uchafswm enillion £45,000 y.f. (2017/18)
Twf mewn cyflog pensiynadwy cyn i'r cap ar enillion gael ei gymhwyso	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f	Wedi'i gyfyngu ar 1% y.f	Dim cyfyngiad	Dd/G	Dd/G
Cyfraniad cyflogai (% o gyflog pensiynadwy)	7.5%	7.5%	4%	6%	Isafswm cyfraniad y cyflogai yw 4%	1% o enillion cymwys

Adroddiad Cydnabyddiaeth Flynyddol Bwrdd y BBC

Cydnabyddiaeth flynyddol Bwrdd y BBC a'r Pwyllgor Gweithredol – manylion cydnabyddiaeth a dderbyniwyd (wedi'i Harchwilio)

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Bwrdd y BBC ar gyfer 2017/18. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gyntaf ar 3 Ebrill 2017 wrth weithredu Siarter a Chytundeb 2016, a amlinellodd drefniadau llywodraethu newydd ar gyfer y BBC. O ganlyniad, nid yw ffigurau blynyddoedd blaenorol yn gymwys i'r Bwrdd.

Mae Simon Burke, Ian Hargreaves, Tom llube a Steve Morrison i gyd yn cadeirio gwahanol Bwyllgorau'r BBC (gweler tudalen 91). Fel cadeiryddion, cânt £5,000 y flwyddyn ar ben eu ffioedd sylfaenol. Dechreuwyd cyflawni eu rolau fel cadeiryddion o 1 Mai 2017 ac mae eu ffioedd ar sail pro-rata am y flwyddyn fel sy'n briodol. Penodwyd Elan Closs Stephens i Fwrdd newydd y BBC gan DCMS, yn weithredol o 20 Gorffennaf 2017. Mae'r ffioedd a ddangosir yn rhai pro-rata.

Bwrdd y BBC

Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad dechrau cyfnod y penodiad	Dyddiad gorffen cyfnod y penodiad	2017/18 Cyflog sylfaenol	2017/18 Buddiannau trethadwy*	2017/18 Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn	2017/18 Cysylltiedig â pherfformiad	2017/18 Cyfanswm
Cyfarwyddwyr anweithredol							
David Clementi**	16/02/17	16/02/21	£100	£14	£0	£0	£114
Simon Burke	03/04/17	03/07/19	£37	£0	£0	£0	£37
Tanni Grey-Thompson	03/04/17	02/04/21	£33	£0	£0	£0	£33
Ian Hargreaves	03/04/17	02/04/20	£37	£0	£0	£0	£37
Tom llube	03/04/17	02/04/20	£37	£0	£0	£0	£37
Steve Morrison	03/04/17	02/04/21	£37	£0	£0	£0	£37
Nicholas Serota	03/04/17	02/04/21	£33	£0	£0	£0	£33
Ashley Steel	03/04/17	02/04/20	£33	£0	£0	£0	£33
Elan Closs Stephens	20/07/17	19/07/20	£23	£0	£0	£0	£23
Cyfanswm cyfarwyddwyr anweithredol			£370	£14	£0	£0	£384
Cyfarwyddwyr gweithredol							
Tony Hall**	03/04/17	dd/g***	£450	£30	£0	£0	£480
Anne Bulford	03/04/17	dd/g***	£435	£0	£0	£0	£435
Tim Davie****	03/04/17	02/04/19	£400	£2	£41	£248	£691
Ken MacQuarrie	03/04/17	02/04/19	£250	£2	£0	£0	£252
Cyfanswm cyfarwyddwyr gweithredol			£1,535	£34	£41	£248	£1,858
Cyfanswm y Bwrdd			£1,905	£48	£41	£248	£2,242

* Buddiannau trethadwy: lwfans car, yswiriant meddygol preifat a threuliau trethadwy eraill.

** Mae gan y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gael car â gyrrwr ond nid oes ganddynt hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Yn ystod 2017/18 bu modd i bob cyfarwyddwr gweithredol arall ddilyn y trefniadau hyn hefyd, ar sail ranedig.

*** Mae rolau Cyfarwyddwr Cyffredinol a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yn aelodau parhaol o'r Bwrdd.

**** Ariennir rôl Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide (Grŵp BBC Studios hefyd erbyn hyn), yn llwyr gan refferniw masnachol y BBC ac nid yw ffr'r drwydded yn talu amdanynt nac yn eu cymorthdal. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni prif elw ac arian parod cyffredinol i'r is-gwmni hwnnw, gyda thargedau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Mae'r gydnabyddiaeth ar sail perfformiad yn ymwneud â symiau a enillwyd yn y flwyddyn.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC ar gyfer 2017/18, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mewn blynyddoedd blaenorol, datgelwyd cydnabyddiaeth aelodau gweithredol o'r hen Fwrdd Gweithredol. O dan y trefniadau llywodraethu newydd rhoddir manylion am holl aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC bellach.

Aelodau Pwyllgor Gweithredol y BBC
Manylion y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Dyddiad y'i penodwyd i'r Pwyllgor	Blwyddyn	Cylog sylfaenol	Buddiannau trethadwy	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn***	Cysylltiedig â pherfformiad	Cyfanswm
Tony Hall	02/04/13	2017/18 2016/17	£450 £450	£30 £17	£0 £0	£0 £0	£480 £467
Anne Bulford	21/06/13	2017/18 2016/17	£435 £424	£0 £0	£0 £0	£0 £0	£435 £424
Tim Davie*	01/11/12	2017/18 2016/17	£400 £400	£2 £2	£41 £40	£248 £223	£691 £665
Ken MacQuarrie	22/09/16	2017/18 2016/17	£250 £131	£2 £1	£0 £0	£0 £0	£252 £132
Valerie Hughes-D'Aeth	01/08/14	2017/18 2016/17	£310 £310	£0 £0	£0 £7	£0 £0	£310 £317
Mark Linsey*	26/04/16	2017/18 2016/17	£340 £316	£2 £2	£50 £41	£136 £0	£528 £359
Matthew Postgate	01/04/16	2017/18 2016/17	£310 £310	£0 £0	£34 £44	£0 £0	£344 £354
Charlotte Moore	06/07/16	2017/18 2016/17	£333 £233	£2 £2	£36 £31	£0 £0	£371 £266
James Purnell	19/03/13	2017/18 2016/17	£295 £295	£0 £0	£25 £30	£0 £0	£320 £325
Fran Unsworth**	01/01/18	2017/18 2016/17	£85 -	£0 -	£0 -	£0 -	£85 -
James Harding**	12/08/13 Gadawodd 31/01/18	2017/18 2016/17	£283 £340	£0 £0	£26 £34	£0 £0	£309 £374
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol		2017/18 2016/17	£3,491 £3,209	£38 £24	£212 £227	£384 £223	£4,125 £3,683

* Ariennir rôl Tim Davie fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide (Grŵp BBC Studios hefyd erbyn hyn), a rôl flaenorol Mark Linsey fel Prif Swyddog Gweithredol BBC Studios yn llwyr gan reffeniw masnachol y BBC ac nid yw ffi'r drwydded yn talu amdanynt nac yn eu cymorthdal. Telir unrhyw fonws yn amodol ar gyflawni prif elw ac arian parod cyffredinol i'r is-gwmni hwnnw, gyda thargedau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Roedd y gydnabyddiaeth ar sail perfformiad i Tim Davie a Mark Linsey yn ymwneud â symiau a enillwyd yn y flwyddyn.

** Gadawodd James Harding y BBC ar 31 Ionawr 2018, yn dilyn cyfnod trosglwyddo gyda'r Cyfarwyddwr Newyddion newydd, Fran Unsworth, a ymunodd â'r Pwyllgor Gweithredol ar 1 Ionawr 2018. Dangosir eu cydnabyddiaeth (gan gynnwys buddiannau trethadwy) ar sail pro-rata ar gyfer y cyfnod a ddangosir yn y tabl.

*** Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogaion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn i'r trefniant aberthu cyflog gael ei gyflwyno. Yn gyffredinol, cyfrifir y ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn fel 20 gwaith y cynnydd yn y pensiwn cronodig dros y flwyddyn yn glir o chwyddiant, llai cyfraniadau buddiannau diffiniedig y cyfarwyddwyr, ynghyd â chyfraniadau diffiniedig y cyflogwr. Dangosir hyn yn fanwl hefyd yn y tabl hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig.

Cyfanswm cydnabyddiaeth (gwerthoedd mewn £000oedd)	2017/18	2016/17*
Cyfanswm y Pwyllgor Gweithredol (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol y Bwrdd)	£4,125	£3,683
Cyfarwyddwyr anweithredol y Bwrdd	£384	£205**
Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr	Dd/G	£535
Cyfanswm cydnabyddiaeth flynyddol	£4,509	£4,423

- * Rydym yn gweithredu o dan strwythur llywodraethu gwahanol i 2016/17, felly efallai na fydd modd cymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol. Rydym wedi dewis, o'n gwirfodd, i gyhoeddi cyflogau cyfarwyddwyr y Pwyllgor Gweithredol ochr yn ochr â'r Bwrdd.
- ** Fel rhan o'r strwythur llywodraethu newydd, penodwyd pob cyfarwyddwr anweithredol ers 3/4/17 felly nid oes unrhyw ddata i'w dangos ar gyfer 2016/17. Mae'r ffigur o £205,000 yn cynrychioli'r bwrdd anweithredol blaenorol oedd ar waith yn 2016/17.

Hawliadau posibl pensiwn buddiannau diffiniedig (gwerthoedd mewn £000oedd)

	Oedran ar 31/03/2018	Adran	Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2018 (neu ymddeol/ gadael y Bwrdd os yn gynharach)	Pensiwn a gronwyd ar 1 Ebrill 2017 (neu ymuno â'r Bwrdd os ar ôl hynny)	Cyfraniadau BD Cyfarwyddwr (drwy drefniant aberthu cyflog) 2017/18	Ffigur sengl sy'n gysylltiedig â phensiwn
Tim Davie	50	CAB 2011	£15	£12	£9	£41
Mark Linsey	57	CAB 2006	£27	£24	£6	£50
Charlotte Moore	49	Buddiannau newydd	£28	£25	£11	£36
Matthew Postgate	43	Buddiannau newydd	£32	£29	£11	£34
Fran Unsworth	60	Hen fuddiannau	£114	£113	£3	£0

Nodiadau:

Mae Tim Davie yn aelod gweithredol o adran CAB 2011 o fis Ionawr 2012 ac mae'n cadw buddiannau gohiredig yn yr adran buddiannau newydd ar gyfer ei wasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Mae'r pensiwn croniedig a ddangosir yn ymwneud â CAB 2011 yn unig.

Ymunodd Mark Linsey â'r BBC ar 1 Mai 2007. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Ymunodd Charlotte Moore â'r BBC ar 1 Mai 2006. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei phenodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Ymunodd Matthew Postgate â'r BBC ar 1 Mehefin 2005. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei benodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Ymunodd Fran Unsworth â'r BBC yn 1983 ac ymunodd â'r Cynllun ar 1 Gorffennaf 1984. Fe'i hailbenodwyd yn gyfarwyddwr gweithredol ar 1 Ionawr 2018, ar ôl bod yn gyfarwyddwr yn 2013. Mae'r pensiwnau a ddangosir yn cynnwys y cyfnod cyn ei phenodi'n gyfarwyddwr gweithredol.

Cylog cymharol drwy'r BBC cyfan: sut mae cyflog cyfarwyddwyr gweithredol yn cymharu â chyflog cyflogaion eraill y BBC?

Yn 2011, cytunodd y BBC o'i wirfodd i nodi lluosrif yr enillion uchaf o'i gymharu â'r enillion gwasanaeth cyhoeddus canolrifol fel y cynigiwyd yn adroddiad Hutton 'Fair Pay in the Public Sector'. Ers 2011, mae'r BBC wedi cyhoeddi'r ffigurau hyn yn flynyddol.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol o'u cymharu ag enillion canolrifol staff y BBC ac enillion cyfarwyddwyr gweithredol o'u cymharu â ffigurau enillion canolrifol ers 2011. Mae'r grŵp enghreifftiol ar gyfer grŵp y cyfarwyddwyr gweithredol bellach wedi ehangu i gynnwys yr holl Gyfarwyddwyr hynny ar y Pwyllgor Gweithredol, yn wahanol i'r Bwrdd yn unig. Mae'r grŵp enghreifftiol ar gyfer staff hefyd wedi newid, er mwyn dileu pawb a gyflogir gan BBC Studios, am iddo ddod yn endid masnachol ar gyfer 2017/18. O ganlyniad i'r newid hwn, mae canolrif staff Gwasanaeth Cyhoeddus wedi gostwng ac mae lluosrif y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cynyddu o 10.2 i 10.7. Dylid nodi, os na fyddai'r cyflogaion hyn wedi trosglwyddo, y byddai lluosrif y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi aros ar 10.2, a byddai lluosrif cyfarwyddwyr gweithredol wedi gostwng i 7.4.

	2018	2017	2016	2015	2014	2013	2012	2011
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	10.7	10.2	10.4	10.7	10.9	11.0	16.5	16.8
Enillion canolrifol y cyfarwyddwyr gweithredol	7.7	7.7	8.19	8.2	8.2	8.1	8.7	8.9

Mae'r cyfrifiad o enillion yn cynnwys: cyflog sylfaenol, bonws, lwfansau sy'n parhau, goramser a lwfansau eraill nad ydynt yn parhau. Cyfrifir ffigurau enillion canolrifol drwy ddefnyddio cyflogau blynyddol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys Prif Swyddog Gweithredol BBC Worldwide na Phrif Swyddog Gweithredol BBC Studios yr ariennir eu rolau yn llwyr gan weithrediadau masnachol y BBC.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r newidiadau i enillion arian parod y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2017/2018 o gymharu â'r newid yn enillion canolrifol y BBC cyfan dros yr un cyfnod. Gyrrir y gostyngiad mewn enillion canolrifol ar draws y BBC gan y ffaith na chynhwyswyd staff BBC Studios yn y cyfrifiad canolrifol eleni.

Ni fu unrhyw newidiadau i gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn 2017/18.

	2017/18 (gwerthoedd mewn £000oedd)	Newid ers 2016/17
Enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol	£450	0%
Enillion canolrifol drwy'r BBC cyfan	£42	-2%

* Dylid nodi y byddai ffigur enillion canolrifol ar draws y BBC wedi aros ar £44,000 os na fyddai cyflogaion BBC Studios wedi trosglwyddo.

Taliadau diswyddo

Ni thalwyd unrhyw daliadau diswyddo i gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Buddiannau allanol

Drwy gytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, gall aelodau Gweithredol Bwrdd y BBC ddal swyddi cyfarwyddwyr allanol â chydabyddiaeth. Dylai prif ddiben swydd cyfarwyddwr allanol ymwneud â chefnogi datblygiad personol a datblygiad gyrfa a thrwy hynny gyfrannu at y BBC. Gall yr unigolyn gadw cydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwyr allanol, ond rhaid cymeradwyo hynny'n ffurfiol. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi na thelir cydnabyddiaeth mewn perthynas â hwy y tu allan i'r BBC. Ni chaniateir mwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis i gyflawni'r holl ddyletswyddau allanol.

Yn ystod y flwyddyn, roedd gan un cyfarwyddwr gweithredol swydd cyfarwyddwr allanol arall â chydabyddiaeth, lle ildwyd ffioedd.

Busnesau masnachol y BBC

Yn ystod 2017/18, mae gan y BBC staff a gyflogir gan bedwar is-gwmni masnachol:

- BBC Worldwide
- BBC Studios
- BBC Studioworks
- BBC Global News Ltd

Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol cytundebol sydd ar gael i staff cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr, ac mae'n amrywio rhwng endidau masnachol. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol a'r bonws blynyddol eu hunanariannu gan refferniw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalw drwy ffi'r drwydded.

Ni reolir cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol gan bolisi cydnabyddiaeth y BBC ond mae'n amodol ar brosesau llywodraethu a chymeradwyo'r BBC.

Datgeliadau cyflogau

Yn 2016/17, roedd tua 25% o'r cyflwynwyr a gafodd eu talu dros £150,000 yn fenywod (heb gynnwys BBC Studios)

Yn ôl rhagamcanion 2018/19 bydd tua 40% o'r cyflwynwyr a gaiff eu talu dros £150,000 yn fenywod

2017/18: Blwyddyn o newid

Mae'r BBC yn sefydliad sy'n ymrwymedig i gydraddoldeb a bu 2017/18 yn flwyddyn o newid tuag at yr uchelgais honno.

Ar y tudalennau canlynol, rhown fanylion yr unigolion hynny a gafodd dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded. O dan y Siarter, mae'n ofynnol i gyhoeddi'r symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn, i'r unigolion hyn, wedi'u nodi mewn bandiau. Yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag, rydym yn mynd i tu hwnt i'r gofyniad hwnnw drwy gyhoeddi mwy o fanylion am y gwaith y mae unigolion ar yr awyr, yn arbennig, wedi'i wneud am eu cydnabyddiaeth. Rydym yn gwneud hyn er mwyn gwella tryloywder, ac er mwyn ei gwneud yn haws i gymharu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cryn dipyn o weithgarwch ar draws y BBC a fynd i'r afael â materion cyflog a chydraddoldeb i'n staff a'n cyflwynwyr ar yr awyr a gaiff eu talu'r mwyaf. Gwnaethom gwblhau ein hadolygiad o Delerau ac Amodau a gwnaethom ddatblygu fframwaith cyflog newydd i'n cyflwynwyr newyddion. Felly, mae'r taliadau a wnaed yn ystod 2017/18 – a ddechreuodd ym mis Ebrill 2017, bellach dros 15 mis cyn dyddiad yr adroddiad hwn – yn adlewyrchu hen ddarlun, ac nid yw'n dangos yr holl newidiadau rydym wedi bod yn eu gwneud yn ddiweddar.

Dyna pam rydym yn cyhoeddi manylion nid yn unig gyflwynwyr y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod 2017/18, ond crynodeb cyfredol o'r sefyllfa ym mis Mehefin 2018, gan ragamcanu ar gyfer 2018/19 i gyd.

Drwy ragamcanu cyflogau ar gyfer 2018/19 ar y cam hwn, rydym yn gwneud rhai tybiaethau ynghylch y patrwm gwaith dros y naw mis i ddod. Rydym wedi dibynnu ar ymrwymadau cytundebol, data cyflogau o fis Mehefin 2018 ac unrhyw newidiadau a gyhoeddwyd i raglenni, rolau ac amserlenni. Er ein bod wedi adlewyrchu'r wybodaeth gymeradwy ddiweddaraf am gyflogau yn y dadansoddiad hwn, rydym yn disgwyl i drafodaethau barhau gyda rhai unigolion. O ystyried natur dros dro data 2018/19, nid yw'r tabl hwn wedi cael ei archwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ond mae wedi bod yn destun gweithdrefnau sicrwydd archwilio mewnol.

Mae'r tabl isod yn dangos cryn gynnnydd mewn tri maes allweddol:

1. Ar draws y BBC, rydym yn disgwyl rhaniad o ryw 60:40 rhwng dynion a menywod ymhlith ein cyflwynwyr mwyaf proffil uchel yn 2018/19, sy'n newid o 75:25 ddwy flynedd yn ôl.
2. Disgwylir i gynrychiolaeth BAME yn 2018/19 fod oddeutu 20%, yn erbyn ein targed o 15% erbyn 2020.
3. Mae'r bwch cyflog rhwng dynion a menywod wedi lleihau, gyda nifer y menywod a gaiff eu talu dros £200,000 yn dyblu o 7 i 14, a nifer y dynion a gaiff eu talu dros £500,000 yn lleihau o 5 i 3.

Yr amser hwn y flwyddyn nesaf, rydym yn hyderus y bydd y sefyllfa yn dangos unwaith eto fwy o newid. Wrth i ni agosáu at 2019/20, disgwylir i'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ym meysydd Newyddion a Radio, wrth edrych ar y darlun mwyaf diweddar, fod yn agos at 50:50. Rydym yn anelu at fod wedi cyrraedd 50:50 o ran cynrychiolaeth menywod fel gwsteion, cyfranwyr ac arbenigwyr ar draws y BBC, yn ogystal â mwy o gynrychiolaeth BAME. Ac er mai dynion yw'r sawl a gaiff eu talu'r mwyaf o refeniw ffi'r drwydded o hyd, bydd y gwaith rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn hefyd yn dangos cryn newid y flwyddyn nesaf.

Bydd yn gofyn am flwyddyn arall o waith caled, parhaus. Ond bydd yn flwyddyn bwysig wrth i ni adeiladu BBC sy'n dangos esiampl ym maes cydraddoldeb, ac sydd wir yn adlewyrchu amrywiaeth y DU.

Talent ar yr awyr a gafodd ei thalu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded

	2016/17 (heb gynnwys BBC Studios)		2017/18		2018/19	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Dynion						
£150,000 – £199,999	18		16		14	
£200,000 – £299,999	12		11		16	
£300,000 – £399,999	4		3		4	
£400,000 – £499,999	5		7		4	
£500,000+	5		5		3	
Menywod						
£150,000 – £199,999	7		12		14	
£200,000 – £299,999	6		8		12	
£300,000 – £399,999	1		2		2	
£400,000 – £499,999	–		–		–	
£500,000+	–		–		–	
Cyfansymiau						
Cyfanswm Dynion	44	76%	42	66%	41	59%
Cyfanswm Menywod	14	24%	22	34%	28	41%
Cyfanswm	58	100%	64	100%	69	100%
Yn BAME	7	12%	10	16%	13	19%

Adroddiad gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth y BBC ar y bobl a gafodd eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.

Talent ar yr awyr

O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi enwau'r unigolion hynny sy'n gweithio i'r BBC sy'n cael eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Dangosir y rhain fesul categori: Newyddion, Radio, Chwaraeon, Teledu a chyflwynwyr sy'n gweithio'n rheolaidd ar draws sawl rhan o'r BBC. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn cynnwys taliadau o refeniw ffi'r drwydded a wnaed i unigolion o dan gontract am wasanaethau. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw aildaliadau, symiau a dalwyd, na buddsoddiadau mewn rhaglenni a wnaed gan ein hendidau masnachol – er enghraifft BBC Studios a BBC Worldwide. Hefyd ni chaiff taliadau a wnaed gan gynhyrchwyr annibynnol, breindaliadau, ffioedd ailddarledu, symiau adenilladwy cytundebol na threuliau eu cynnwys. Yn 2016/17 roedd BBC Studios yn rhan o weithrediadau'r BBC a ariannwyd gan ffi'r drwydded ac felly cafodd unigolion a dalwyd gan BBC Studios eu datgelu'n briodol. Nodir ymrwymadau rhaglenni ar sail ymrwymadau cytundebol neu batrymau gwaith eraill, ac maent wedi'u datgan i'r 10 agosaf. Mae'r rhain wedi'u datgelu'n gyson ar gyfer pob prif raglen neu genre. Ni chaiff penodau unigol eu cynnwys, oni fydd hyn yn cyfrif am ran sylweddol o waith unigolyn.

Newyddion a Materion Cyfoes

Prif raglen	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
<i>Today</i>	John Humphrys	tua 140 o raglenni	£400,000 – £409,999
	Nick Robinson	tua 140 o raglenni tua 40 pennod o <i>Political Thinking</i>	£250,000 – £259,999
	Mishal Husain	tua 100 o raglenni tua 40 diwrnod ar gyfer bwletinâu BBC One <i>From Our Home Correspondent</i>	£220,000 – £229,999
	Sarah Montague	tua 140 o raglenni	£160,000 – £169,999
	Justin Webb	tua 150 o raglenni	
<i>World at One</i>	Martha Kearney	tua 180 o raglenni	£200,000 – £209,999
<i>PM</i>	Eddie Mair	tua 220 o raglenni	£330,000 – £339,999
<i>BBC News at Six a BBC News at Ten</i>	Huw Edwards	tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One a sianel BBC News Etholiadau a Rhaglenni Newyddion Arbennig	£520,000 – £529,999
	George Alagiah	tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£290,000 – £299,999
	Fiona Bruce	tua 100 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One	£180,000 – £189,999
<i>BBC News at One</i>	Sophie Raworth	tua 180 o ddiwrnodau cyflwyno ar gyfer BBC One (gan gynnwys cyflenwi ar gyfer <i>News at Six a News at Ten</i>)	£200,000 – £209,999
<i>The Andrew Marr Show</i>	Andrew Marr	tua 40 o raglenni Rhaglenni dogfen BBC One tua 20 rhifyn o <i>Start the Week</i>	£400,000 – £409,999
<i>Newsnight</i>	Evan Davis	tua 110 diwrnod <i>The Bottom Line</i> ar Radio 4	£250,000 – £259,999
	Emily Maitlis	tua 100 diwrnod	£220,000 – £229,999
<i>Victoria Derbyshire</i>	Victoria Derbyshire	tua 220 o raglenni	£210,000 – £219,999
BBC News Channel	Ben Brown	Sianel BBC News Cyflenwi ar gyfer bwletinâu BBC One	£150,000 – £159,999
<i>Newsbeat</i>	Tina Daheley	<i>Newsbeat</i> a digwyddiadau Newyddion Cyflenwi ar gyfer <i>BBC Breakfast</i> a <i>Victoria Derbyshire</i>	£150,000 – £159,999
Golygyddion a Gohebwy'r ar yr Awyr	Jon Sopel	Golygydd Gogledd America	£230,000 – £239,999
	Laura Kuenssberg	Golygydd Gwleidyddol	£220,000 – £229,999
	Jeremy Bowen	Golygydd y Dwyrain Canol	£200,000 – £209,999
	Amol Rajan	Golygydd y Cyfryngau a'r <i>Media Show</i> Rhaglenni eraill ar Radio'r BBC	
	Katya Adler	Golygydd Ewrop	£170,000 – £179,999
	Mark Easton	Golygydd Cartref	
	James Naughtie	Cyflwynydd a Gohebydd	
	Kamal Ahmed	Golygydd Economaidd	£160,000 – £169,999
	John Simpson	Golygydd Materion y Byd	
	Simon Jack	Golygydd Busnes	£150,000 – £159,999
	Fergal Keane	Golygydd Affrica	
	John Pienaar	Dirprwy Olygydd Gwleidyddol a <i>Pienaar's Politics</i>	
	Sarah Smith	Golygydd yr Alban a <i>Sunday Politics</i>	

Radio

Priforsaf	Enw	Ymrwymadau rhaglen	Cyflog
BBC Radio 1	Nick Grimshaw	tua 230 rhifyn o <i>Breakfast Show</i> Radio 1 <i>Big Weekend</i> Radio 1 Teen Awards	£400,000 – £409,999
	Scott Mills	tua 190 o raglenni yn cyflenwi ar gyfer <i>Breakfast Show</i> Radio 1	£280,000 – £289,999
	Greg James	tua 230 o raglenni ar Radio 1	£170,000 – £179,999
BBC Radio 2	Chris Evans	tua 200 rhifyn o'r <i>Chris Evans Breakfast Show</i>	£1,660,000 – £1,669,000
	Steve Wright	tua 220 rhifyn o <i>Steve Wright in the Afternoon</i> tua 50 rhifyn o <i>Sunday Love Songs</i>	£550,000 – £559,999
	Simon Mayo	tua 230 rhifyn o <i>Simon Mayo Drivetime</i> tua 40 o <i>Kermode and Mayo</i> ar 5 live	£340,000 – £349,999
	Ken Bruce	tua 220 o raglenni ar Radio 2 Raglenni ychwanegol ar Radio 2	£300,000 – £309,999
	Mark Radcliffe	tua 200 rhifyn o <i>Radcliffe and Maconie</i> tua 50 rhifyn o'r <i>Folk Show</i>	£190,000 – £199,999
	Jo Whiley	tua 180 o raglenni ar Radio 2	£170,000 – £179,999
	Moira Stuart	tua 200 o ymddangosiadau ar y <i>Chris Evans Breakfast Show</i> tua 30 o raglenni ar Radio 2	£160,000 – £169,999
	Trevor Nelson	tua 50 o <i>Rhythm Nation</i> ar Radio 2 tua 140 o raglenni ar 1Xtra	£150,000 – £159,999
BBC Radio 5 live	Nicky Campbell	tua 210 rhifyn o <i>Breakfast</i> ar 5 live tua 210 rhifyn o <i>Your Call</i>	£410,000 – £419,999
	Rachel Burden	tua 230 rhifyn o <i>Breakfast</i> ar 5 live Cyflenwi ar gyfer <i>Your Call</i>	£150,000 – £159,999
BBC 6 Music	Lauren Laverne	tua 210 o raglenni ar 6 Music tua 40 pennod o <i>Recommends</i>	£230,000 – £239,999
	Shaun Keaveny	tua 220 o raglenni ar 6 Music	£170,000 – £179,999
Gorsafoedd gwahanol	Stephen Nolan	tua 210 sioe ar Radio Ulster tua 20 rhifyn o <i>Nolan Live</i> tua 30 o <i>Question Time Extra Time</i> tua 120 o <i>Stephen Nolan</i> ar 5 live	£400,000 – £409,999
	Vanessa Feltz	tua 210 o raglenni ar Radio 2 tua 230 o raglenni ar Radio London	£330,000 – £339,999
	Jane Garvey	tua 140 o raglenni <i>Woman's Hour</i> tua 20 o raglenni ar 5 live tua 40 pennod o <i>Fortunately</i>	£150,000 – £159,999

Chwaraeon

Prif gamp	Enw	Ymrwymïadau rhaglen	Cyflog
Pêl-droed dynion	Gary Lineker	<i>Match of the Day: Premier League and FA Cup Sports Personality of the Year</i>	£1,750,000 – £1,759,999
	Alan Shearer	<i>Match of the Day: Premier League and FA Cup</i>	£410,000 – £419,999
	Ian Wright	Rhifynnau wythnosol o 606 ar 5 live <i>Match of the Day: Premier League and FA Cup</i> 5 live Sport	£170,000 – £179,999
Criced	Jonathan Agnew	Gohebydd criced cyfresi prawf rhyngwladol, un diwrnod a Twenty20 y BBC	£180,000 – £189,999
Tenis	Sue Barker	Wimbledon, Queen's, Rowndiau Terfynol Taith y Byd ATP, Twrnaint Agored Awstralia	£190,000 – £199,999
	John McEnroe	Wimbledon	
Gwahanol gampau	Gabby Logan	Athletau <i>Premier League Show</i> Pêl-droed arall Gemau Rygbi Rhyngwladol yr Hydref a'r Chwe Gwlad <i>Sports Personality of the Year</i>	£230,000 – £239,999
	Mark Chapman	Rhifynnau o 5 live Sport ddwywaith yr wythnos Uchafbwyntiau wythnosol o Uwch Gynghrair Lloegr a <i>MOTD 2 Extra</i> Pêl-droed arall Gemau Cwpan y Byd a Chwpan Her Rygbi'r Gynghrair	£220,000 – £229,999
	Clare Balding	Gemau Olympaidd y Gaeaf Wimbledon Marchogaeth Y Ras Gychod Seiclo Trac y Byd Sports Personality of the Year <i>Ramblings</i> ar Radio 4 <i>Good Morning Sunday</i> ar Radio 2	£180,000 – £189,999

Genres gwahanol a Theledu

Mae nifer fach o unigolion sydd â chydberthnasau aml-flwyddyn â chomisynu'r BBC eisoes. Nid yw taliadau gan BBC Studios wedi eu cynnwys yn y datgeliad, ac efallai y cânt daliadau gan gynhyrchwyr annibynnol hefyd. Yn yr adran hon hefyd, rydym yn cynnwys cyflwynwyr sy'n treulio bron i 50% o'u hamser mewn mwy nag un maes o blith Teledu, Radio, Newyddion a Chwaraeon.

Prif weithgaredd	Enw	Ymrwymïadau rhaglen	Cyflog
Teledu	Nick Knowles	Ffi gan Deledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi Yn cynnwys ffi gyflwyno am <i>Who Dares Wins</i> a <i>Close Calls: On Camera</i>	£230,000 – £239,999
	Mary Berry	Ffi gan Deledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£190,000 – £199,999
Radio a Chwaraeon	Jason Mohammad	Rhaglen ddyddiol ar Radio Wales Rhaglen wythnosol ar 5 live <i>Final Score</i> a phêl-droed arall Snwcer <i>Good Morning Sunday</i> ar Radio 2	£260,000 – £269,999
Newyddion a Chwaraeon	Dan Walker	<i>Football Focus</i> <i>BBC Breakfast</i>	£220,000 – £229,999
Radio a Theledu	Graham Norton	Sioe wythnosol ar Radio 2 Ffi gan Deledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£600,000 – £609,999
	Jeremy Vine	Sioe ddyddiol ar Radio 2 tua 60 pennod o <i>Eggheads</i>	£440,000 – £449,999
	Claudia Winkleman	Sioe wythnosol ar Radio 2 Ffi gan Deledu'r BBC am amrywiaeth o raglenni a chyfresi	£370,000 – £379,999

Uwch swyddogion gweithredol

Bob chwarter, rydym yn datgelu union gyflogau, treuliau, rhoddion a lletygarwch yr holl uwch arweinwyr yng ngwasanaethau cyhoeddus y BBC. O dan delerau ein Siarter, mae'n rhaid i ni gyhoeddi adroddiad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n rhestru'r holl uwch swyddogion gweithredol yn y BBC sydd wedi cael eu talu dros £150,000 o refeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol, a nodir mewn bandiau cyflog. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw aildaliadau na symiau a dalwyd o'n hendidau masnachol.

Cyflog	Enw	Rôl
Cyfarwyddwr Cyffredinol		
£450,000 – £459,999	Tony Hall	Cyfarwyddwr Cyffredinol
Pwyllgor Gweithredol		
£240,000 – £249,999	Ken MacQuarrie	Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau
	Fran Unsworth	Cyfarwyddwr Newyddion a Materion Cyfoes
£290,000 – £299,999	James Purnell	Cyfarwyddwr Radio ac Addysg
£300,000 – £309,999	Valerie Hughes-D'Aeth	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Grŵp
	Matthew Postgate	Prif Swyddog Technoleg a Chynhyrchion
£330,000 – £339,999	Charlotte Moore	Cyfarwyddwr BBC Content
£430,000 – £439,999	Anne Bulford	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol
Swyddogaethau corfforaethol		
£150,000 – £159,999	Rhona Burns	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, Radio ac Addysg
	Tim Cavanagh	Cyfarwyddwr Eiddo Diriaethol Corfforaethol
	Pipa Doubtfire	Pennaeth Rheoli Refeniw
	Peter Farrell	Pennaeth Cyfreithiol
	Claire Paul	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Arweinyddiaeth, Datblygu a Thalent
	John Shield	Cyfarwyddwr Cyfathrebu
	Charlie Villar	Cyn-gyfarwyddwr Treth Cyllid Corfforaethol a'r Trysorlys
£160,000 – £169,999	Gautam Rangarajan	Cyfarwyddwr Strategaeth
	Peter Ranyard	Pennaeth Cyfreithiol Corfforaethol
	Clare Sumner	Cyfarwyddwr Polisi
	Gillian Taylor	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Gwobrwyo
£170,000 – £179,999	Rachel Currie	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cynnwys, Radio ac Addysg
	David Jordan	Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol
	Noel Scotford	Rheolwr Rhaglenni Adnoddau Dynol
£180,000 – £189,999	Shirley Cameron	Rheolwr Ariannol y Grŵp
	Anna Gronmark	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Grŵp y Dirprwy Gyfarwyddwr
£190,000 – £199,999	Joe Godwin	Cyfarwyddwr Academi'r BBC
	Dale Haddon	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Newyddion a Chysylltiadau Cyflogaion
£200,000 – £209,999	Balram Veliath	Cyfarwyddwr Ansawdd Risg a Sicrwydd
£240,000 – £249,999	Sarah Jones	Cwnsler Cyffredinol y Grŵp
£320,000 – £329,999	Bal Samra	Cyfarwyddwr Masnachol y Grŵp
Dylunio a Pheirianeg		
£150,000 – £159,999	Richard Cooper	Rheolwr Dosbarthu Digidol
	Matt Grest	Cyfarwyddwr Llywfannau
	Andrew Kaczor	Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau
£160,000 – £169,999	Mike Ford	Cyfarwyddwr Rhaglenni
	Sarah Hayes	Cyfarwyddwr Archifau'r BBC
	Gary Payne	Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth
£170,000 – £179,999	Jatin Aythora	Prif Bensaer
	Chris Condron	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau, Gogledd Lloegr a'r Gwledydd
£180,000 – £189,999	Andy Baker	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Peirianyddol
	Kieran Clifton	Cyfarwyddwr Dosbarthu a Datblygu Busnes
	Andy Conroy	Rheolwr Ymchwil a Datblygu
£190,000 – £199,999	Colin Burns	Prif Swyddog Dylunio
	Stuart Page	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau, Masnachol a Chorfforaethol
	Neelay Patel	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau, Teledu a Radio
£200,000 – £209,999	Robin Pembroke	Cyfarwyddwr Cynhyrchion a Systemau, Newyddion

Cyflog	Enw	Rôl
Marchnata a Chynulleidfaoedd		
£150,000 – £159,999	Justin Bairamian	Cyfarwyddwr BBC Creative
£160,000 – £169,999	Nick North	Cyfarwyddwr Chynulleidfaoedd
£180,000 – £189,999	Charlotte Lock	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd, Cynnwys, Radio ac Addysg
£210,000 – £219,999	Philip Almond	Cyfarwyddwr Marchnata a Chynulleidfaoedd
Y Gwledydd a'r Rhanbarthau		
£150,000 – £159,999	Peter Johnston	Cyfarwyddwr BBC Northern Ireland
£160,000 – £169,999	David Holdsworth	Rheolwr Rhanbarthau Lloegr
	Rhodri Talfan Davies	Cyfarwyddwr BBC Cymru
£170,000 – £179,999	Donalda MacKinnon	Cyfarwyddwr BBC Scotland
£240,000 – £249,999	Ian Haythornthwaite	Prif Swyddog Gweithredu'r Gwledydd a'r Rhanbarthau
Cynnwys		
£150,000 – £159,999	David Brindley	Pennaeth Ffeithiol Poblogaidd
	Clare Sillery	Pennaeth Comisiynu, Rhaglenni Dogfen
£160,000 – £169,999	Philip Bernie	Pennaeth Chwaraeon ar y Teledu
	Tessa Finch	Pennaeth Datblygu, Teledu, Cynnwys
	Rose Garnett	Cyfarwyddwr BBC Films
	Cassian Harrison	Golygydd Sianel BBC Four
	Elizabeth Kilgariff	Golygydd Comisiynu Drama
£170,000 – £179,999	Tom McDonald	Pennaeth Comisiynu Ffeithiol
	Lucy Richer	Golygydd Comisiynu Drama
£190,000 – £199,999	Richard Dawkins	Prif Swyddog Gweithredu
	Kate Phillips	Rheolwr Comisiynu Adloniant
£200,000 – £209,999	Patrick Holland	Rheolwr BBC Two
	Alison Kirkham	Rheolwr Comisiynu Ffeithiol
	Dan McGolpin	Rheolwr Rhaglennu ac yn ystod y Dydd
	Barbara Slater	Cyfarwyddwr BBC Chwaraeon
£210,000 – £219,999	Shane Allen	Rheolwr Comisiynu Comedi
	Damian Kavanagh	Rheolwr BBC Three
£240,000 – £249,999	Piers Wenger	Rheolwr Comisiynu Drama
Newyddion a Materion Cyfoes		
£150,000 – £159,999	Gavin Allen	Rheolwr Rhaglennu Newyddion Dyddiol
	Jamie Angus	Cyfarwyddwr Grŵp World Service
	Joanna Carr	Pennaeth Materion Cyfoes
	James Gray	Dirprwy Bennaeth Materion Cyfoes
£160,000 – £169,999	Fiona Campbell	Rheolwr BBC Newyddion, Symudol ac Ar-lein
	Mary Hockaday	Rheolwr World Service Saesneg
	Jonathan Munro	Pennaeth Newsgathering
£180,000 – £189,999	Alan Dickson	Prif Swyddog Ariannol a Gweithredu
£190,000 – £199,999	Adrian Van Klaveren	Pennaeth Newid Strategol, BBC Newyddion
Radio ac Addysg		
£150,000 – £159,999	Isabel Begg	Pennaeth Datblygu Busnes a Masnachol
	Helen Bullough	Pennaeth Cynhyrchu Cynnwys
£160,000 – £169,999	Mark Friend	Rheolwr Radio a Cherddoriaeth Aml-lwyfan
	Cheryl Taylor	Rheolwr CBBC
£170,000 – £179,999	Alan Davey	Rheolwr Radio 3, Proms y BBC a Grwpiau Perfformio
£190,000 – £199,999	Ben Cooper	Rheolwr Radio 1, 1Xtra ac Asian Network
	Alice Webb	Cyfarwyddwr Plant
	Gwyneth Williams	Rheolwr Radio 4 a Radio 4 Extra
£210,000 – £219,999	Graham Ellis	Rheolwr Cynhyrchu
£270,000 – £279,999	Bob Shennan	Cyfarwyddwr Radio a Cherddoriaeth
Cyn-aelodau o staff		
£160,000 – £169,999	Keith Blackmore	Rheolwr Olygydd
£280,000 – £289,999	James Harding	Cyfarwyddwr, Newyddion a Materion Cyfoes

Adroddiad Sicrwydd Annibynnol i Fwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, yn cydnabod bod y Senedd hefyd yn dibynnu ar Gyfrifon ac Adroddiad y Grŵp

Rwyf wedi cynnal gweithdrefnau sicrwydd annibynnol ar y datgeliadau a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynyddol y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC) yn deillio o'r gofyniad o dan y Siarter Frenhinol i'r BBC (y Siarter Frenhinol) barhau i gyhoeddi enwau holl swyddogion gweithredol y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno; ac enwau holl aelodau o staff eraill y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018. Nodir y datgeliadau hyn ar dudalennau 101 i 106 o Adroddiad Blynyddol y BBC (y "deunydd pwnc") ("Datgeliadau Cyflogau").

Cynhelir fy ngwaith yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000 *Ymrwymadau Sicrwydd ac eithrio Archwiliadau neu Adolygiadau o Wybodaeth Ariannol Hanesyddol*.

Priod gyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol

Ar gyfer y flwyddyn adrodd a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, roedd Bwrdd y BBC yn gyfrifol am gyhoeddi'r wybodaeth a oedd yn ofynnol gan y Siarter Frenhinol fel a ganlyn:

- enwau holl swyddogion gweithredol y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno;
- enwau holl aelodau o staff eraill y BBC a gafodd eu talu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded yn y flwyddyn ariannol honno wedi'u nodi mewn bandiau cyflog ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Rwyf yn gyfrifol am roi barn o ran p'un a yw'r Datgeliadau Cyflogau, ym mhob agwedd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Wrth gynnal y gwaith hwn, rwyf i a'm staff wedi cydymffurfio â Safon Foesebol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2016. Rwyf yn annibynnol ar y BBC yn unol â'r gofynion moesebol sy'n berthnasol i'm hymrwymiad sicrwydd. Rwyf i a'm staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesebol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Fy null gweithredu

Rwyf wedi cyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y diffinnir yn ISAE 3000. Wrth gyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol, cyflawnir y cyfryw weithdrefnau ag sydd eu hangen er mwyn cael gafael ar wybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn fy marn i, er mwyn mynegi barn o ran p'un a yw'r Datgeliadau Cyflogau, ym mhob agwedd berthnasol, yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Roedd fy ngwaith yn cynnwys:

- Deall y broses a fabwysiadwyd gan y BBC er mwyn llunio'r Datgeliadau Cyflogau, yn arbennig cyflawnder a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwyd;
- Profi cyflawnrwydd y Datgeliadau Cyflogau, gan gynnwys:
 - croesyfeirio at weithdrefnau archwilio statudol yn ymwneud â'r gyflogres a gwariant;
 - cymharu â'r flwyddyn flaenorol a'n dealltwriaeth o'r BBC;
 - adolygu unigolion a dalwyd yn y mis dilynol a dalwyd yn agos at y trothwy datgelu yn 2017/18.
- Sicrhau bod datgeliadau staff yn gyson â data'r gyflogres neu, lle na chaiff staff eu talu drwy gyflogres y BBC, sicrhau bod gwariant yn gyson â systemau eraill y BBC;
- Cyfateb y gwariant fesul unigolyn a gafodd ei dalu dros £150,000 o reffeniw ffi'r drwydded i'r band cyflog priodol;
- Ailgyfrifo nifer yr unigolion a gafodd eu cynnwys ym mhob band £10,000;
- Adolygu'r sylwadau ategol ynghylch rhesymoldeb ac eglurder o ran y sail datgelu.

Cyfyngiadau annatod

Cynlluniwyd fy ngweithdrefnau sicrwydd er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw lleihau risg ymrwymiad i lefel dderbyniol o isel o dan amgylchiadau'r ymrwymiad fel sail ar gyfer gallu mynegi fy nghasgliad mewn ffordd gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'n dileu'r risg hon yn llwyr. Yn arbennig, wrth baratoi'r Datgeliadau Cyflogau, mae'n ofynnol i Fwrdd y BBC lunio nifer o farnau sy'n cyflwyno elfen annatod o risg.

Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau fy ngweithdrefnau, yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r Datgeliadau Cyflogau yn gyflawn ac yn gywir ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r sail a nodir ynddynt.

Syr Amyas CE Morse KCB Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP
21 Mehefin 2018

Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

Penodiadau i'r Bwrdd

O dan Siarter 2016, mae Pwyllgor Enwebiadau'r Bwrdd yn gyfrifol am benodi cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol i'r Bwrdd, ac eithrio'r Cadeirydd ac aelodau'r gwledydd. Penodwyd y Bwrdd presennol o dan drefniadau trosiannol penodiadau fel y'u nodir yn y Siarter.

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnwys y Cadeirydd, Syr David Clementi, Simon Burke, yr uwch gyfarwyddwr annibynnol, Syr Nicholas Serota ac Ashley Steel sydd i gyd yn aelodau anweithredol o'r Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol hefyd yn aelod.

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am enwebu penodiadau i'r Bwrdd, mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am enwebu aelodau i is-bwyllgorau'r Bwrdd, a'i brif is-gwmnïau masnachol. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd yn ystyried ac yn adolygu annibyniaeth aelodau'r Bwrdd, gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer y Bwrdd. Mae'n asesu cyfansoddiad y Bwrdd a'i bwyllgorau cysylltiedig o ran y cydbwysedd gofynnol o sgiliau a phrofiad, ac er mwyn datblygu strategaeth cynllunio olyniaeth.

Eleni mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi cyfarfod ddwywaith yn ffurfiol ac mae ei waith wedi canolbwyntio ar benodi aelodau o'r Bwrdd i'w is-bwyllgorau cysylltiedig, fel sy'n ofynnol gan y Siarter.

Syr David Clementi Cadeirydd

21 Mehefin 2018

Presenoldeb ym Mhwyllgorau'r Bwrdd

	Bwrdd Cyffredin	Pwyllgor Archwilio a Risg Aelod	Pwyllgor Masnachu Teg Aelod	Pwyllgor Enwebiadau Aelod	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Aelod	Safonau a Chanllawiau Golygyddol Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Lloegr Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Yr Alban Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Cymru Aelod	Pwyllgor y Gwledydd - Gogledd Iwerddon Aelod
Nifer y cyfarfodydd ar anweithredol	11	5	2	2	7	2	1	1	1	2
Cyfarwyddwyr anweithredol										
David Clementi	11			2				1		2
Simon Burke	9	5		2						
Tanni Grey-Thompson	10				7	2				
Ian Hargreaves	11		2			2			1	
Tom Ilube	11	5	2				1			
Steve Morrison	11		2		7			1		
Nicholas Serota	11			1	7	2				
Ashley Steel	10	4		2			1			
Elan Closs Stephens	7/7		2						1	2
Cyfarwyddwyr gweithredol										
Tony Hall	11			2		2				
Anne Bulford	11									2
Tim Davie	11									
Ken MacQuarrie	10						1	1	1	2

Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys busnes a gynhaliwyd all-lein na chyfarfodydd diweddarau lle na chafodd unrhyw fusnes ffurfiol ei ystyried.

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad cyntaf Pwyllgor Archwilio a Risg Bwrdd newydd y BBC.

Ymhlith ein tasgau allweddol eleni roedd:

- goruchwylio'r broses o drosglwyddo archwiliad statudol y BBC o EY i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG);
- sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn bodloni gofynion y Siarter newydd;
- sefydlu'r Pwyllgor newydd a threfnu rhaglen sefydlu briodol ar gyfer aelodau newydd;
- adeiladu ar waith hen Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol wrth wella ein prosesau rheoli risg;
- parhau i wneud cynnydd da wrth gyflawni gweithgarwch sicrwydd a chlririo camau archwilio mewnol.

Cawsom bum cyfarfod yn ystod y flwyddyn, gydag aelodau gweithredol yn mynychu pob un ohonynt fel oedd yn briodol, gan gynnwys, ym mhob cyfarfod, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol. Hefyd cawsom gyfarfodydd preifat â'r SAG ar bob achlysur. Credaf ein bod wedi meithrin cydberthynas agored a chadarnhaol â'r SAG a'i bod yn gweithio'n dda.

Mae cryn dipyn o'n gwaith yn parhau fel yr oedd o dan y Siarter flaenorol, ond bu

rhai newidiadau hefyd. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor wedi ystyried yn fanwl gymhwyso rheoleidd-dra at weithgareddau'r BBC. Nod hyn yw sicrhau bod adnoddau'r BBC wedi'u defnyddio er mwyn cyflawni'r dibenion bwriadedig fel y nodir yn y Siarter, y Cytundeb Fframwaith a chytundebau eraill â'r Llywodraeth. Cawsom sicrwydd ynghylch hyn gan y rheolwyr a gwnaethom hefyd gynnal adolygiad er mwyn cadarnhau bod fframwaith rheoli addas ar waith er mwyn sicrhau bod y BBC yn cadw o fewn y rheolau rheoleidd-dra.

Cymerwn ddiddordeb mawr mewn prosiectau o bwys a'r broses o'u llywodraethu fel mater o drefn. Yn ystod y flwyddyn hon, cwblhawyd sawl prosiect allweddol yn llwyddiannus, a chafodd eraill eu cychwyn neu eu hailsefydlu. Un prosiect mawr a ailsefydlwyd eleni oedd ailddatblygiad arfaethedig set *EastEnders* yn Elstree, sy'n parhau i gael ei fonitro gan y Bwrdd a'r Pwyllgor. Erbyn hyn mae gan y BBC swyddfa rheoli prosiect sefydledig ac rydym yn cyfarfod â hi o bryd i'w gilydd er mwyn adolygu'r broses o lywodraethu prosiectau mawr.

Rydym hefyd yn ystyried materion perthnasol sy'n codi y tu hwnt i weithgareddau arferol y BBC. Rydym wedi bod ynghlwm wrth sawl mater yn ymwneud â chyflog, yn enwedig cyflog cyfartal a chymhwyso rheolau treth IR35 yn hanesyddol. Mae'r olaf o'r rhain yn fater cymhleth iawn a disgwyliwn chwarae rôl bwysig wrth i'r BBC fynd ati i'w ddatrys.

Rydym wedi treulio cryn dipyn o amser yn goruchwylio'r gwaith o wella systemau rheoli risg, yn arbennig cyflwyno darlun manylach o risg, sydd â chysylltiad clir â phrif amcanion y Gorfforaeth, a chyda metrigau a mesurau yn cael eu datblygu er mwyn i'r Bwrdd gael data manylach ar y ffordd yr ymdrinnir â risgiau allweddol ynghyd â'u lliniaru, a'u lefel weddilliol.

Rydym yn parhau i dalu sylw agos i ganfyddiadau gweithgarwch sicrwydd, a chaiff materion a godir eu monitro'n agos er mwyn sicrhau y cwblheir gwaith yn unol ag amserlenni cytûn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod disgyblaethau archwilio a sicrwydd yn cael eu cymryd o ddifrif o fewn y BBC, sy'n gwbl briodol wrth ymdrin ag arian talwyr ffi'r drwydded.

Caf fy nghefnogi'n fedrus gan fy nghyd-aelodau o'r Pwyllgor, sydd wedi mynd i'r afael â'n gwaith yn gyflym, a chan dîm risg a sicrwydd hynod broffesiynol. Er bod y BBC yn wynebu llawer o heriau wrth iddo ad-drefnu ei hun ar gyfer y byd digidol a marchnad cyfryngau sy'n newid yn gyflym, credaf fod gennym y rheolaethau a'r systemau sicrwydd i sicrhau, i'r graddau y bo'n bosibl, fod arian talwyr ffi'r drwydded yn cael ei wario'n ddoeth a bod y risg o golled ariannol mor fach â phosibl.

Simon Burke
Cadeirydd

21 Mehefin 2018

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg

Rôl

Prif ddiben y Pwyllgor Archwilio a Risg yw adolygu a goruchwyllo trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg. Er mwyn cael y sicrwydd hwn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am y canlynol:

- adolygu a goruchwyllo effeithiolrwydd prosesau rheolaeth fewnol a rheoli risg y BBC;
- goruchwyllo'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r BBC a'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau hynny i lefel dderbyniol;
- adolygu a herio, lle bo angen, gamau gweithredu a dyfarniadau rheolwyr o ran Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC a datganiadau ffurfiol cysylltiedig;
- goruchwyllo a phennu cyfeiriad gwaith swyddogaeth Archwilio Mewnol y BBC, gan gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd yn breifat er mwyn trafod materion fel sydd angen;
- rhoi sylw priodol i ddisgwyliadau'r Senedd o ran rheoli adnoddau'r BBC, fel y nodir yn adroddiadau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac adroddiadau Gwerth am Arian gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol;
- adolygu cwmphas a strategaeth archwilio arfaethedig yr archwilydd allanol, gan sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau anghyfiawn;
- adolygu gweithdrefnau rheoli ansawdd yr archwilydd a'r camau a gymerir gan yr archwilydd er mwyn ymateb i newidiadau i ofynion rheoleiddiol a gofynion eraill;
- cyfarfod gyda'r archwilydd allanol ar wahân er mwyn trafod unrhyw faterion y dylid eu trafod yn breifat, ym marn y Pwyllgor neu'r archwilydd;
- ystyried annibyniaeth yr archwilydd allanol;

- goruchwyllo ystyriaethau rheoleidd-dra, gan gynnwys cydymffurfiaeth â Fframwaith Awdurdodau'r BBC;
- adolygu systemau'r BBC ar gyfer canfod ac atal twyll, llwgrwobrwyo a gwyngalchu arian;
- adolygu trefniadau i staff y cwmni godi pryderon, yn gyfrinachol, ynglŷn ag achosion posibl o amhriodoldeb mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag adrodd ariannol, anghyfreithlondeb neu faterion eraill.

Mae Rheolau Sefydlog y Pwyllgor yn amlinellu ein cyfrifoldebau'n fanylach. Cafodd y rhain eu cymeradwyo gan Fwrdd y BBC ym mis Mehefin 2017 a chânt eu hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor. Maent ar gael ar ein gwefan: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc

Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw:

Simon Burke (Cadeirydd)
Tom Ilube
Ashley Steel

Mae gan Simon Burke, cadeirydd y Pwyllgor, brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. At hynny, mae pob aelod o'r Pwyllgor yn unigolion sy'n dal neu sydd wedi dal uwch swyddi mewn sefydliadau o faint tebyg ac sy'n meddu ar y profiad a'r sgiliau i gyflawni eu cyfrifoldebau'n briodol. Lle y bo'n briodol, ategir sgiliau a phrofiadau aelodau gan gyngor gan weithwyr proffesiynol mewnol ac allanol – er enghraifft ar faterion megis datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Cwnsler Cyfreithiol y BBC, y Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd, ac uwch gynrychiolwyr Archwilio Mewnol, Rheoli Risg, Cyllid a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilydd statudol y BBC, hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat hefyd, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, gyda'r Archwilydd Mewnol a'r archwilydd, yn rheolaidd.

Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2017/18, ar adegau allweddol yn y calendr adrodd ac archwilio.

Mae cofnodion o'r cyfarfodydd ar gael i'r Bwrdd a chyhoeddir cofnodion cryno ar wefan y BBC: bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc. At hynny, mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle mae angen cymryd camau neu wella perfformiad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn rhoi ei farn ar uniondeb y datganiadau ariannol cyn i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd cyfan.

Treuliodd y Pwyllgor amser ar y meysydd canlynol yn y flwyddyn ddiwethaf.

Cywirdeb adroddiadau ariannol

Adolygodd y Pwyllgor gywirdeb datganiadau ariannol y BBC. Wrth wneud hynny, gwnaeth y canlynol:

- drwy drafodaethau â rheolwyr a'r archwilydd allanol, nododd risgiau allweddol o ran camdatganiadau yn natganiadau ariannol y BBC, gan gynnwys y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol ac sydd wedi dylanwadu ar y datganiadau ariannol;
- trafodwyd y risgiau hyn gyda'r archwilydd fel rhan o gytundeb cynllun archwilio'r archwilydd allanol a hefyd ar ddiwedd yr archwiliad o'r datganiadau ariannol;
- adolygodd a heriodd bapurau manwl a gyflwynwyd gan reolwyr ar y meysydd hynny lle'r oedd angen llunio barn ariannol arwyddocaol, gan ystyried barn yr archwilydd.

Isod nodir y prif feysydd o farn a sut y gwnaeth y Pwyllgor fynd i'r afael â hwy:

Maes llunio barn	Ymateb y Pwyllgor
<p>Cynllun pensiwn – tybiaethau sy'n effeithio ar y diffyg pensiwn cyfrifyddu Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys diffyg sylweddol o £510.2 miliwn ar y fantolen ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig y BBC.</p> <p>Mae'n ofynnol llunio barn ynglŷn â'r tybiaethau sylfaenol a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid wrth gyfrifo diffyg y pensiwn. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn arwain at newid mawr yn y ffigurau terfynol a ddatgelir</p>	<p>Cafodd y Pwyllgor gyngor gan actiwariaid annibynnol ynglŷn â phriodoldeb y tybiaethau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys sut mae'r rhain yn cymharu â'r rhai a ddefnyddir gan sefydliadau eraill. Canolbwyntiodd gwaith craffu yn benodol ar y tybiaethau a ddefnyddiwyd o ran cyfraddau disgowntio, cyfraddau chwyddiant a disgwyliad marwolaethau/oes a sut y byddai newidiadau yn y tybiaethau hyn yn effeithio ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys unrhyw symudiadau yn y rhain o gymharu â blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y datganiadau ariannol yn rhesymol, yn briodol i'r BBC ac yn cael eu cefnogi gan arbenigwyr actiwariaid annibynnol.</p>
<p>Eiddo – triniaeth gyfrifyddu adeiladau'r BBC ac ailgyllido'r Ganolfan Ddarlledu Newydd Mae'r BBC yn dal portffolio eiddo sylweddol, sy'n parhau i gael ei resymoli er mwyn lleihau costau. Mae'r ystad yn cynnwys eiddo rhydd-ddaliadol yn ogystal ag eiddo a ddelir o dan brydlesau cyllid a phrydlesau gweithredu. Mae adeiladau sydd wedi cael eu his-osod neu sydd ar gael i'w his-osod wedi'u dosbarthu'n eiddo buddsoddi. Mae barn yn ymwneud â'r bwriadau ar gyfer unrhyw adeiladau gwag yn y dyfodol a therfynau amser cysylltiedig. Gall hyn newid y driniaeth gyfrifyddu briodol ac effeithio ar werth cario'r eiddo ar y fantolen. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, ailgyllidwyd strwythur prydesu sylfaenol y Ganolfan Ddarlledu, gan gynnwys opsiwn i sicrhau ailgaffael y rhydd-ddaliad sylfaenol gan y BBC. Drwy'r trafodyn, llwyddodd y BBC i ddileu anwadalrwydd chwyddiant a chyflawni budd llif arian parod tan 2033. Gofynnodd y trafodyn am gyfres o gofnodion cyfrifyddu newydd (gan gynnwys cyfrif am yr asedau a rhwymedigaethau deilliannol o'r trafodion). Mae'r asedau a'r rhwymedigaethau deilliannol yn agored i sensitifrwydd data'r farchnad yn ogystal ag addasu'r gyfradd ddisgownt er mwyn cyfrif am risg. O ganlyniad, cydnabuwyd rhwymedigaethau net o £98.3 miliwn mewn perthynas â'r trefniant hwn. Gweithredwyd y trafodyn mewn modd a oedd yn cyfyngu ar unrhyw gynnydd yn amlygiad credyd y BBC i'r gwrth-bartion deilliannol dan sylw.</p> <p>Rhoddir cyfrif am y cyfrwng diben arbennig a sefydlwyd i ailddatblygu'r Ganolfan Ddarlledu, Daunus Limited, fel cyd-fenter yn dilyn asesu rheolaeth. Mae budd y BBC yn yr endid ar gost, ac ni nodwyd unrhyw ddangosyddion o leihad mewn gwerth.</p>	<p>Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau gan reolwyr a esboniodd y driniaeth ar gyfer yr adeiladau pwysicaf, gan gynnwys y terfynau amser a ragwelir ar gyfer gweithgarwch yn y dyfodol a'r rhesymeg dros y driniaeth. Ystyriodd hefyd farn yr archwilyr ar y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer yr adeiladau hyn. Parhawyd i fonitro'r ymdriniaeth fanwl o'r trafodyn drwy gydol y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y ffordd y caiff yr adeiladau hyn eu trin yn y datganiadau ariannol yn gyson â bwriad rheolwyr ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.</p>
<p>Prosiectau cyfalaf Mae'r BBC yn ymgymryd â sawl prosiect cyfalaf ar unrhyw adeg benodol, sy'n cyfrannu at strategaeth gyffredinol y BBC. Mae angen asesu priodoldeb cyfalafu, ynghyd â phrisio unrhyw ased a gyfalafir.</p> <p>Os nad oes modd cwblhau prosiect cyfalaf perthnasol ar amser, neu os na fydd y BBC yn cael budd ohono yn y dyfodol, gallai hyn ysgogi tâl lleihad mewn gwerth.</p>	<p>Adolygwyd adroddiadau gan reolwyr a esboniodd statws prosiectau cyfalaf mawr a'r ffordd yr asesydd p'un a oedd angen tâl lleihad mewn gwerth ai peidio. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr asesiadau o leihad mewn gwerth a gynhaliwyd gan y rheolwyr yn briodol ac yn unol â safonau adrodd ariannol rhyngwladol.</p>
<p>Cydnabod refereniw Mae risg ariannol annatod yn gysylltiedig â chydnabod refereniw sy'n ymwneud ag amseriad cydnabod refereniw. Mae natur y risg yn amrywio rhwng refereniw ffi'r drwydded yn y gwasanaeth cyhoeddus a'r incwm masnachol. Ymdrinnir â refereniw ffi'r drwydded fel swm sy'n ddyledus gan adran berthnasol y Llywodraeth, sef yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn bennaf, ar sail y ffaith y caiff symiau a dderbynnir gan dalwyr ffi'r drwydded eu talu drosodd.</p>	<p>Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai systemau rheolaeth ariannol presennol y BBC sicrhau y caiff incwm ei drin yn briodol yn y datganiadau ariannol. Hyderir bod rheolwyr yn deall y risgiau yn y maes hwn a bod ganddynt reolaethau addas ar waith.</p>
<p>Darpariaethau cyflogaeth a rhwymedigaethau wrth gefn Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys darpariaethau o £17.3 miliwn fel rhan o raglen ailstrwythuro'r BBC. Mae barnau yn y maes hwn yn ymwneud yn bennaf ag amseriad cydnabod y darpariaethau hyn, y swm i'w gydnabod a'r swm a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Mae nifer o ddarpariaethau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn bodoli mewn achosion lle mae gan y BBC rhwymedigaeth o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n debygol ac y gellir ei fesur yn ddibynadwy. Mae'r BBC hefyd yn cydnabod nifer o rhwymedigaethau wrth gefn sy'n ymwneud â'r un mater. Cydnabyddir rhwymedigaeth wrth gefn lle mae ansicrwydd ynghylch tebygolrwydd, amseriad neu swm unrhyw rhwymedigaeth bresennol.</p>	<p>Cafodd y Pwyllgor wybod am faterion yn ymwneud â chyflogaeth a allai arwain at gydnabod rhwymedigaethau posibl cyn wedyn adolygu a thrafod y lefel o ddarpariaethau gyda'r rheolwyr. Roedd hyn yn cynnwys ystyried darpariaethau newydd ac unrhyw ddarpariaethau presennol a gafodd eu rhyddhau a'u defnyddio. Cadarnhaodd y rheolwyr eu bod wedi defnyddio dull cyson o nodi, cydnabod a rhyddhau darpariaethau ym mhob rhan o grŵp y BBC. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn fodlon ar lefel y darpariaethau a gariwyd a'r hyn a ddatgelir mewn perthynas â'r darpariaethau hynny.</p>

Cadarnhaodd y rheolwyr wrth y Pwyllgor nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau sylweddol na chamddatganiadau nad oeddent yn sylweddol a wnaed yn fwiadol er mwyn rhoi darlun penodol. Nododd yr archwilwyr unrhyw gamddatganiadau yr oeddent wedi dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith ac nad oedd unrhyw symiau sylweddol nas addaswyd o hyd. Gall y Pwyllgor gadarnhau ei fod yn fodlon bod yr archwilwyr allanol wedi cyflawni eu cyfrifoldebau gyda diwydrwydd ac amheuaeth broffesiynol.

Ar ôl adolygu'r cyflwyniadau a'r adroddiadau gan reolwyr ac ymgynghori, lle bo angen, â'r archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn ymdrin yn briodol â'r dyfarniadau beirniadol a'r amcangyfrifon allweddol (o ran y symiau a nodwyd a'r datgeliadau). Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i bennu gwerth asedau a rhwymedigaethau wedi bod yn destun prosesau craffu a herio priodol, a'u bod yn ddigon cadarn.

Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y grŵp a'u lle yn yr Adroddiad Blynyddol ehangach. Er mwyn cynorthwyo'r adolygiad hwn, ystyriwyd adroddiadau gan y rheolwyr a chan yr archwilwyr mewnlol ac allanol a gwmpasodd:

- ansawdd a derbynioldeb polisiau cyfrifyddu, gan gynnwys cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu;
- cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoliadau;
- eglurder datgeliadau a'u cydymffurfiaeth â gofynion adrodd perthnasol;
- a yw'r Adroddiad Blynyddol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac a yw'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu perfformiad a strategaeth y BBC.

Effeithiolrwydd rheolaethau mewnlol a'r fframwaith rheoli risg

Sicrwydd rheolaethau mewnlol

Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnlol, gan ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilwyr mewnlol ac allanol a gweithgarwch arall ynglŷn â sicrwydd, gan ystyried nifer o feysydd penodol yn ystod y flwyddyn:

- y tueddiadau a'r themâu yn deillio o weithgarwch Archwilio Mewnlol, a holwyd cynrychiolwyr Archwilio Mewnlol ynglŷn â chanlyniadau eu gwaith. Cafodd crynodeb o bob Archwilio Mewnlol, gan gynnwys canfyddiadau allweddol a graddau sicrwydd, ei adolygu gan y Pwyllgor;
- caiff camau gweithredu sy'n deillio o weithgarwch annibynnol ynglŷn â sicrwydd, gan gynnwys gwaith archwilio mewnlol ac allanol ac adolygiadau Gwerth am Arian SAG, eu

monitro gan y Pwyllgor er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau. Mae hwn yn faes rydym yn rhoi ystyriaeth ddilynol iddo ym mhob cyfarfod er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o ran unrhyw wendidau a nodwyd;

- o ran meysydd a ystyrir yn rhai proffil uchel neu a fu'n destun canfyddiadau sicrwydd critigol, mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod gwaith dilynol a gwaith craffu addas ynglŷn â chwblhau unrhyw gynlluniau gwella neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt;
- cymeradwyodd y Pwyllgor ddatganiad Caethwasiaeth Fodern y BBC ac adolygodd y dull o sicrhau cydymffurfiaeth;
- adroddiadau chwythu'r chwiban rheolaidd a'r diweddaraf am lefelau o dwyll a dwyn, ynghyd â'r systemau sydd ar waith i'w gostwng a'u hatal;
- cafodd canfyddiadau a hynt camau gweithredu sy'n deillio o archwiliadau o is-gwmniau masnachol y BBC eu hystyried. Daeth Prif Swyddog Cyllid BBC Worldwide a Phrif Swyddog Gweithredol BBC Studios i'r Pwyllgor er mwyn rhoi sicrwydd am amgylchedd rheolaeth a dulliau rheoli risg yn yr is-gwmniau hyn.

Rheoli risg

Ystyriodd y Pwyllgor y prosesau ar gyfer rheoli risgiau sylweddol yn y BBC. Dylanwadir ar y gwaith hwn gan yr asesiad o brif risgiau'r BBC (a nodir ar dudalen 113). Mae agenda'r Pwyllgor yn cynnwys eitem reolaidd pan gaiff newidiadau i'r proffil risg eu hadolygu a phan gaiff effeithiolrwydd y broses rheoli risg ei asesu.

Eleni, canolbwyntiodd y Pwyllgor gryn dipyn ar wella system rheoli risg gyffredinol y BBC, gan gyflwyno adroddiadau risg manylach a sicrhau bod camau lliniaru a champau gweithredu yn gyson ag amcanion strategol a gweithredol allweddol y Gorfforaeth. Bydd mwy o ddefnydd o fetrigau a mesurau risg yn galluogi'r Pwyllgor i adolygu risg yn fanylach yn y flwyddyn i ddod.

Effeithiolrwydd Archwilwyr Mewnlol

Cafodd gwaith Archwilio Mewnlol ei oruchwylio gan y Pwyllgor. Mae hyn yn eitem reolaidd ym mhob cyfarfod a fynychir gan y Pennaeth Archwilio Mewnlol hefyd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Pwyllgor y canlynol:

- cymeradwywyd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan sicrhau ei fod yn seiliedig ar risg ac yn taro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd ynglŷn â phrosesau busnes craidd a meysydd o risg strategol sy'n dod i'r amlwg;
- ystyriwyd canfyddiadau archwiliadau, gan ganolbwyntio ar unrhyw archwiliadau â chanlyniadau

anfodddhaol a chynlluniau rheolwyr i fynd i'r afael â'r rhain;

- ystyriwyd gofynion yr Archwilwyr Mewnlol o ran eu hadnoddau a'u gallu.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro strwythur y swyddogaeth Archwilio Mewnlol a gweithrediad y model adnoddau presennol, gyda chyfran o'r archwiliadau yn cael eu cynnal gan bartner allanol. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y trefniant hwn yn gweithio'n dda.

Hefyd cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor â'r Cyfarwyddwr Ansawdd, Risg a Sicrwydd cyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, heb fod unrhyw reolwyr yn bresennol, er mwyn cael trafodaeth agored.

Annibyniaeth ac effeithiolrwydd ein harchwilwyr allanol

Penodi ein harchwilwyr allanol

O dan Siarter a Chytundeb 2016, penodwyd SAG yn archwilydd statudol y BBC am gyfnod y Siarter.

Y berthynas â'r archwilwyr allanol

Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas â SAG, gan gynnwys cwmpas ei gwaith a'i dulliau gweithredu. Ymhlith y meysydd penodol y canolbwyntiwyd arnynt eleni mae:

- nodi risgiau archwilio a chysoni hyn ag asesiadau risg rheolwyr;
- deall yr elfennau o'r broses archwilio, gan gynnwys yr hyn y disgwylir i'r BBC ei wneud o dan farn am reoleidd-dra ac ystyried priodoleb;
- cynnal trafodaethau preifat gyda'r archwilwyr heb fod rheolwyr yn bresennol.

Gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio

Fel un o'r mesurau i ddiogelu annibyniaeth yr archwilwyr allanol, mae'r Pwyllgor wedi datblygu polisi'r BBC ynglŷn â chomisiynu'r archwilwyr i ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio, ac yn ei oruchwylio.

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r mathau o wasanaethau y gall ac na all yr archwilwyr allanol eu darparu. At hynny, mae'n cynnwys trothwyon lle mae'n rhaid i waith nad yw'n waith archwilio y cynigir y dylai'r archwilwyr allanol ei wneud, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pwyllgor. Mae hefyd yn pennu pryd y mae'n rhaid i waith fod yn destun tendr cystadleuol.

Nid yw SAG wedi cyflawni unrhyw waith ychwanegol nad yw'n waith archwilio yn ystod y flwyddyn. Ni chaiff SAG ei hystyried ar gyfer gwaith a allai beryglu ei gallu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn recriwtio unrhyw un o SAG i unrhyw swydd uwch reolwr yn y BBC.

Risgiau a Chyfleoedd

Mae risgiau a chyfleoedd yn effeithio ar allu'r BBC i gyflawni rhwymedigaethau ei Siarter a'i ddibenion cyhoeddus. Mae angen i'r ffordd rydym yn ymdrin â risg adlewyrchu natur unigryw'r BBC.

Ein dull o reoli risg

Mewn amgylchedd cyfryngau sy'n newid yn gyflym, rhaid i'r BBC allu rheoli'n hyderus risgiau strategol a gweithredol, gan sicrhau y gall barhau i gyflawni ein dibenion cyhoeddus a rhoi gwerth i'n holl gynulleidfaoedd. Mae'n rhaid i ni hefyd gymryd ein cyfrifoldebau rheoleiddio a statudol o ddifrif. Yn yr un modd ag y mae cymryd risgiau wrth wradd y broses o gyflawni ein dibenion a'n huchelgeisiau strategol, mae asesiadau risg trylwyr a mesurau lliniaru risg yn sail i'r broses o gyflawni'r hyn a wnawn.

Mae'r BBC yn cydnabod yr heriau o ran anghenion cynulleidfaoedd, yn ogystal â'r chyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig dros y blynyddoedd i ddod. Drwy bob rhan o'r Gorfforaeth, mae ystyriaeth ofalus o risgiau a chyfleoedd yn cyfrannu at ansawdd ein rhaglenni, rhagoriaeth y gwasanaeth a ddarparwn, a'n gallu i wasanaethu ein cynulleidfaoedd.

Datblygu ein dull o reoli risg

Yn ystod 2017/18, gwnaethom atgyfnerthu ein prosesau rheoli risg, gan fireinio ein risgiau strategol yn fanwl. Ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau strategol, gwnaethom gadarnhau'r risgiau allweddol i'w cyflawni'n llwyddiannus, yn ogystal â'r hyn a allai eu hachosi a'r gweithgareddau lliniaru sydd ar waith. Hefyd, gwnaethom edrych o'r newydd ar y risg weithredol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y risgiau hynny a allai gael yr effaith fwyaf ar y BBC, petaent yn dwyn ffrwyth, unwaith eto gan nodi achosion posibl a chymau lliniaru. Gwnaethom hefyd gyflwyno metrigau risg yn erbyn y risgiau allweddol, er mwyn cynnig gwell dealltwriaeth o'r ffordd y rheolir y risgiau hynny, a helpu i wneud gwell penderfyniadau'n seiliedig ar risg ar draws y BBC.

Gwnaeth y gwelliannau hyn ddarparu llwyfan i ddatblygu ein dull o reoli risg ymhellach yn ystod 2018/19. Un maes ffocws allweddol fydd sicrhau bod data dibynadwy ar gael ar gyfer yr holl fetrigau diffiniedig, y bydd eu cyflawni yn gysylltiedig â nifer o brosiectau strategol. Ymhlith y meysydd eraill i'w datblygu mae: diffinio ein goddefiant i risgiau penodol yn fwy ffurfiol er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o fonitro effeithiolrwydd rheoli risg drwy gyrff llywodraethu amrywiol y BBC; ac ailystyried y meini prawf a ddefnyddiwn i asesu tebygolrwydd ac effaith risgiau allweddol, a digonolrwydd ein parodrwydd i wynebu risg.

Nodir ein prif risgiau a chyfleoedd strategol a gweithredol drosodd.

Allwedd i newidiadau risg: newid yn y risg a ragwelir dros y 12 mis nesaf

- ▲ Risg yn cynyddu
- Dim newid yn y risg
- ▼ Risg yn lleihau

Dibenion cyhoeddus

- 1 Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch
- 2 Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran
- 3 Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a nodedig, o'r ansawdd gorau
- 4 Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ac, wrth wneud hynny, gefnogi'r economi creadigol ledled y DU
- 5 Adlewyrchu'r DU, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd

Risgiau a chyfleoedd strategol

Noder: Caiff risgiau a chyfleoedd strategol eu mapio i'r Dibenion Cyhoeddus (1-5) isod.

Prif risgiau a chyfleoedd	Camau lliniaru allweddol
<p>1. Sicrhau bod pawb yn cael gwerth o'r BBC Mae risg, wrth i ymddygiad defnyddwyr newid ac wrth i fodolau busnes ar-lein ddatblygu, nad yw'r BBC yn parhau i ddarparu cynnwys a gwasanaethau perthnasol, o ansawdd uchel i holl dalwyr ffi'r drwydded. Hefyd, mae risg, wrth addasu i'r heriau hyn, na chedwir cynulleidfaoedd ar lwyfannau traddodiadol. Hefyd, efallai na fyddwn yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol, gan gynnwys pobl ifanc, y Gwledydd a'r Rhanbarthau a BAME.</p> <p>1 2 3 4 5 ></p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mwy o fuddsoddiad mewn cynnwys i blant, gydag arlwy aml-lwyfan a mwy o ffocws ar ddigidol. - Ffocws parhaus ar sicrhau ein bod yn cynnal amrywiaeth o gynnwys o ansawdd uchel ar draws pob genre. - Mentrau parhaus sy'n canolbwyntio ar brofiad y defnyddiwr ar gyfer ein cynhyrchion ar-lein, i'r rheini sy'n gyfarwydd â thechnoleg newydd a'r rheini nad ydynt. - Ffocws ar y genhedlaeth nesaf ac amrywiaeth er mwyn helpu i sicrhau bod y BBC yn parhau i ddiwallu anghenion ein holl gynulleidfaoedd, gyda phaneli cynulleidfaoedd ac amrywiol a sefydlir er mwyn dod yn agosach at ein grwpiau cynulleidfaoedd nas cynrychiolir yn ddigonol. - Ffocws ar y Gwledydd a'r Rhanbarthau, gan gynnwys lansiad arfaethedig sianel deledu benodedig newydd yn yr Alban a chanolfannau cynnwys traws-genre penodedig presennol ar gyfer cynhyrchu drama yng Nghaerdydd, Glasgow, Belfast, Salford, Bryste, Birmingham a Llundain. - Monitro metrigau cynulleidfaoedd, gan gynnwys cyrhaeddiad, yr amser a dreulir gyda'r BBC, demograffeg cynulleidfaoedd ac adborth cynulleidfaoedd, er mwyn llywio penderfyniadau gwybodus. - Adolygiad rheolaidd o amcanion, perfformiad a thueddiadau cynulleidfaoedd yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol. - Pwyllgor y Genhedlaeth Nesaf a Grŵp Llywio Amrywiaeth ar waith, sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol. - Ffocws ar fuddsoddiadau digidol er mwyn mynd i'r afael â chystadleuaeth a chynnyg mwy o bersonoli, gan gynnwys cyflwyno mewngofnodi. - Targedau amrywiaeth ar yr awyr ac oddi ar yr awyr heriol ar waith er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o leisiau ar draws y BBC.
<p>2. Creadigrwydd o'r radd flaenaf Mae cystadleuaeth gan ddarlledwyr eraill o ran cynnwys a thalent yn parhau i gynyddu; mewn amgylchedd allanol o chwyddiant cost, mae risg nad ydym yn sicrhau'r cyflenwad o gynnwys o'r ansawdd gorau. Mae risg hefyd nad ydym yn cyflawni amrywiaeth ddilys o ran cynnwys rhaglenni na thalent ar yr awyr, neu nad yw hyn wedi'i gydbwyso â'n hymrwymiad i gyflwyno adroddiadau diduedd.</p> <p>2 3 4 5 ^</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mae uno BBC Studios a BBC Worldwide yn dod â chynnwys a gwerthiannau ynghyd, gan olygu ein bod mewn sefyllfa well i reoli cyflenwad rhaglenni mewn marchnad newidiol. - Ffocws ar fuddsoddi mewn ystod eang o genres a chynnwys. - Ffocws ar ddenu a chadw'r dalent greadigol orau, a ategir gan strategaeth wobrwyo gystadluelol yn y farchnad. - Targedau amrywiaeth rhaglenni a thalent ar yr awyr ar waith, gydag adnoddau mesur gwell. - Polisi golygyddol sefydledig, gyda monitro helaeth ac adolygiad Bwrdd a Phwyllgor Gweithredol o eithriadau. - Prosesau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol Ofcom, a ategir hefyd gan adroddiadau a gwaith monitro.
<p>3. Cyrhaeddiad byd-eang Gall yr amgylchedd marchnad fwyfwy heriol effeithio ar ein uchelgais i dyfu cyrhaeddiad byd-eang (gyda defnyddwyr yn cael mwy o ddewis a defnydd yn troi at y cyfryngau cymdeithasol), yn enwedig lle mae gorddibyniaeth ar y newyddion diweddaraf (yn hytrach na dadansoddiadau a newyddiaduraeth wreiddiol). Mae risg nad yw cynnwys a ddatblygir gan BBC Studios yn apelio'n fyd-eang, neu nad yw Worldwide yn sicrhau hawliau dosbarthu. Mae dibyniaeth World Service ar syndicetio yn peri risg na fydd cynulleidfaoedd yn cysylltu cynnwys â'r BBC.</p> <p>1 3 5 v</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ffocws parhaus ar gynlluniau golygyddol er mwyn sicrhau rhaglennu cystadleuol. - Buddsoddiad newydd wedi'i ariannu gan y Llywodraeth yn BBC World Service, gan ein galluogi i wella gwasanaethau presennol a lansio gwasanaethau newydd (gan gynnwys tiriogaethau newydd). - Buddsoddi mewn marchnata ac arloesi technegol er mwyn gwella'r broses o fesur cynulleidfaoedd a pherfformiad. - Mynd i'r afael â'r broses o briodoli mwy o gynnwys i'r BBC (gan cynulleidfaoedd) drwy waith brandio gwell a chynnwys nodedig. - Ffocws sefydliadol ar ddigidol (yn enwedig a berchenogir), dros deledu trydydd parti, wedi'i syndicetio.
<p>4. Sefydlogrwydd ariannol Mae risg nad ydym yn mynd ati'n effeithiol i reoli a/neu wrthbwyso cost gynyddol caffael eiddo deallusol a hawliau, mewn amgylchedd fwyfwy cystadleuol, gyda phrisiau cynnwys uwch a mwy o brinder hawliau yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio a ffocws ar reoli costau. Byddai cynnydd yng nghyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded, neu gost casglu uwch, yn rhoi pwysau ar ein model ariannol. Mae risg y bydd endiadau masnachol y BBC yn tanberfformio, neu'n methu ag ymateb i heriau'r farchnad, gan leihau enillion ariannol. Mae newidiadau andwyol i brisiadau actiwaraidd y cynllun pensiwn yn peri risg. Byddai gostyngiad yn statws credyd y BBC yn cynyddu cost cyllido.</p> <p>1 2 3 4 5 ></p>	<ul style="list-style-type: none"> - Caiff targedau arbedion aml-fwydd eu diffinio, wedi'u hategu gan gynlluniau manwl, gyda blynyddoedd allanol yn mynd rhagddynt. 94% o wariant rheoladwy wedi'i gwmpasu gan feincnodi (gan fodloni meini prawf Cystadlu neu Gymharu). - Ffi'r drwydded i gynyddu yn unol â chwyddiant tan 2021/22. Cost casglu yn cael ei monitro'n agos, gyda chymau ar waith i ostwng cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded. - Bydd uno BBC Studios a BBC Worldwide yn golygu ein bod mewn sefyllfa well i gystadlu â'r farchnad a gwella perfformiad masnachol. - Eglurder o ran costau pensiwn tan y prisiad nesaf yn 2019, a chynlluniau ar waith i ddileu'r lleihad mewn gwerth a gwneud y cynllun yn hunangynhaliol erbyn 2028. - Adolygiadau busnes gweithredol a dichonoldeb blynyddol i asesu sefydlogrwydd ariannol parhaus
<p>5. Gwneud y BBC yn lle gwell fyth i weithio ynddo Mae graddau'r newid gweithredol, sefydliadol a diwylliannol sydd ar waith yn peri risg y caiff y sefydliad ei roi dan bwysau sylweddol. Mae risg na allwn gadw cyflogoion mewn meysydd allweddol oherwydd heriau cyflog. Gallai methu â chyflawni ein targedau amrywiaeth a chynhwysiant effeithio ar forâl cyflogoion. Petai'r risgiau hyn yn dod i'r amlwg, gallem gollu talent allweddol a/neu weld cynnydd mewn trosiant staff, mwy o risg o gwynion cyflogaeth a'r bygythiad o weithredu diwydiannol.</p> <p>4 5 ^</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Grŵp Ffyrdd o Weithio yn sicrhau bod newid busnes yn cael ei weithredu mewn ffordd gyson a gyd-gysylltir. Cysylltu â staff yn helaeth, gan fonitro lefelau ymgysylltu drwy grwpiau ffocws ac arolwg cyflogoion a gynhelir bob dwy flynedd. - Targedau amrywiaeth clir ar waith, gydag adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd. Sefydlu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer talent amrywiol a Chod Ymarfer Comisiynu Amrywiaeth ar waith er mwyn sicrhau gwerthoedd ac ymrwymiadau a rennir. - Cryn sylw gan y Bwrdd i heriau cyflog cyfartal a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu, gydag ymrwymiad i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiâu erbyn 2020 a chyflwyno egwyddorion cyflog newydd. - Darparu strwythurau gyrfa cliriach drwy gyflwyno Fframwaith Llwybr Gyrfar'r BBC. - Adolygu a moderneiddio telerau ac amodau gyda'r Cyd-undebau.

Risgiau a chyfleoedd gweithredol

Prif risgiau a chyfleoedd	Camau lliniaru allweddol
<p>1. Iechyd a diogelwch</p> <p>Mae risg na chyflawnir ein cyfrifoldeb corfforaethol i ddiogelu staff ac ymwelwyr â'r BBC gartref a thramor, gan arwain at fygythiadau neu niwed, neu y torrir mesurau diogelwch gan arwain at golli asedau neu amharu ar wasanaethau. Mae'r risg o ymosodiadau terfysgol yn cynyddu, gan gynyddu'r risg hon yn gyffredinol. Byddai methiant i amddiffyn plant, neu bobl eraill sy'n agored i niwed, ar safleoedd y BBC, neu wrth gymryd rhan yng ngweithgareddau'r BBC, yn niweidio enw da'r BBC ac yn arwain at golli ymddiriedaeth. Gallai methiannau iechyd a diogelwch hefyd arwain at anafiadau neu farwolaeth, dirwyon neu gamau gorfodi eraill.</p> <p>▲</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Hyfforddiant arbenigol ar gael i staff mewn rolau risg uchel (a'u rheolwyr) a phob rôl yn destun asesiad risg trylwyr. - Rheolaethau amddiffyn plant yn cynnwys gwiriadau cefndir gorfodol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, a gefnogir gan hyfforddiant gorfodol a pholisïau a monitro cydymffurfiaeth. - Adolygiadau parhaus o ddiogelwch ar safleoedd y BBC a lleoliadau darlledu allanol, a chysylltiadau agos ag awdurdodau diogelwch y DU a fforymau diogelwch traws-sector. - Proses asesu risg lechyd a Diogelwch ar waith, a gefnogir gan archwiliadau monitro diogelwch a hyfforddiant. Ymchwilio i bob digwyddiad a gofnodir er mwyn nodi unrhyw gamau cywirol sydd eu hangen.
<p>2. Rheoli busnes a newid</p> <p>Gallai methu â chyflawni targedau arbedion, cynnydd yng nghyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded neu is-gwmnïau masnachol ddim yn cyflawni'r enillion disgwylidiedig effeithio ar berfformiad ariannol cyffredinol. Gall hyn, yn ei dro, ein hatal rhag cyflawni ein huchelgeisiau strategol. Mae risg na wnaiff ein prosiectau hanfodol gyflawni'r buddiannau disgwylidiedig i gefnogi ein strategaeth, neu na chânt eu cyflawni ar amser, yn unol â'r gyllideb ac i'r safon ofynnol. Gall dewis cyflenwyr amhriodol, contractau annigonol neu reoli cyflenwyr yn wael ein hatal rhag cyflawni gwerth am arian. Gellir amharu ymhellach os na roddir cynlluniau parhad priodol ar waith neu os na ddiffinnir blaenoriaethau adfer. Gellir colli asedau yn sgil dwyn a cholli neu systemau rheoli gwael, a all hefyd niweidio enw da.</p> <p>▶</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mae cynlluniau manwl yn ategu targedau arbedion a chamau gweithredu er mwyn gostwng cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded. Mae uno BBC Studios a BBC Worldwide yn cefnogi perfformiad ariannol. - Monitro hynt prosiectau hanfodol yn barhaus gan y Swyddfa Rheoli Prosiect, gan hysbysu'r Bwrdd am statws, gan gynnwys hyder o ran cyflawni buddiannau. Cynlluniau sicrwydd integredig ar waith ar gyfer prosiectau mawr. - Gwario ar fonitro systemau caffael er mwyn sicrhau bod contractau ar waith gyda chyflenwyr, ac er mwyn asesu digonolrwydd y broses o reoli cyflenwyr er mwyn cyflawni gwerth am arian. - Cynlluniau parhad busnes a phrosesau rheoli mewn argyfwng ar waith, gan gyflawni ymarferion yn rheolaidd. - Asesiad risg o dwyll manwl wedi'i gwblhau, gyda chwmpas sy'n cynnwys risgiau llwgrwobrwy, camddefnyddio asedau, gwrthdaro buddiannau, treuliau, cyflogres, caffael a phrosesau talu.
<p>3. Cydymffurfiaeth</p> <p>Gallai methiannau ym maes cydymffurfiaeth reoleiddiol arwain at niweidio enw da, colli ymddiriedaeth, camau cyfreithiol, dirwyon neu gosbau eraill. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â rheoliadau Ofcom, darpariaethau cytundebol a chyfreithiau sy'n llywodraethu rhyddid gwybodaeth, diogelu data, treth, cyfle cyfartal ac ati. Rhydd gweithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ym mis Mai 2018 fwy o ofynion cydymffurfio a chosbau uwch am dorri rheolau, gan gynyddu'r risg hon yn gyffredinol. Gall methiant o ran cydymffurfiaeth olygyddol hefyd arwain at niweidio enw da a cholli ymddiriedaeth yn y BBC, a gallai ei wneud yn agored i achos cyfreithiol.</p> <p>▲</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Polisiau ar waith, sy'n bodloni gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, a ategir gan hyfforddiant, cyngor gan arbenigwyr pwnc, a gwaith monitro ac adrodd manwl. - Cydymffurfiaeth â Rheoliad 2018 yn cael ei rheoli drwy swyddfa brosiect benodedig. - Polisi golygyddol sefydledig ar waith, a gaiff ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben. - Prosesau adrodd newydd Ofcom wedi'u cyflwyno yn 2017/18, gyda chwynion yn cael eu monitro, cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Gweithredol, a chyflwyno adroddiadau misol i'r Bwrdd. Timau arbenigol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth.
<p>4. Technoleg</p> <p>Gallai methu â chynnal systemau cadarn, neu ddiffyg cynlluniau adfer digonol, amharu ar wasanaethau. Mae'r risg o seiberdrosedd yn cynyddu o ran nifer yr achosion a'u difrifoldeb, gyda bygythiadau'n datblygu ac yn dod yn fwy cymhleth, gan gynyddu'r risg hon yn gyffredinol. Ar yr un pryd, mae ein gweithgareddau digidol a'n dibyniaeth ar ddata yn tyfu. Gallai ymosodiad seiber allanol neu fewnol amharu ar wasanaethau. Byddai mynediad diawdurdod at ddata cwsmeriaid yn effeithio ar ein henw da ac ymddiriedaeth cwsmeriaid yn y BBC, a gallai arwain at gamau gorfodi rheoleiddiol, gan gynnwys dirwyon sylweddol. Byddai methu â hyfforddi ein cyflogeion yn ddigonol na chodi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad yn cynyddu'r risg hon.</p> <p>▲</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Nodi pwyntiau methu unigol a chymryd camau fel sy'n briodol. Cynlluniau adfer ar waith ac wedi'u profi. Monitro toriadau a glynu wrth amcanion amser adfer yn agos er mwyn sicrhau bod cyn lleied o amharu â phosibl ar wasanaethau darlledu. - Polisiau a gweithdrefnau helaeth ar waith er mwyn atal/canfod bygythiadau seiber a chydweithio â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol er mwyn darparu cuddwybodaeth am seiber-risgiau. - Hyfforddiant gorfodol, cyfredol ar Ddiogelwch Data a Seiberddiogelwch wedi'i gyflwyno.

Noder: Nid yw'r risgiau a restrir yn cwmpasu pob un sy'n gysylltiedig â'r BBC ac nid yw'r rhifau cyfeirnod yn dynodi trefn blaenoriaeth. Gall risgiau ac ansicrwydd ychwanegol nad ydynt yn hysbys i'r rheolwyr ar hyn o bryd, neu nas ystyrir yn berthnasol ar hyn o bryd, hefyd gael effaith andwyol ar y Gofforaeth. Cedwir golwg ar y risgiau llai perthnasol hyn rhag ofn iddynt ddod yn fwy tebygol neu gael mwy o effaith.

Fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae proses y BBC o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol yn gyson â Chanllawiau'r Cyngor Adrodd Ariannol ar Reoli Risg, Rheolaeth Fewnol ac Adroddiad Busnes ac Ariannol Cysylltiedig. Ymgorfforir systemau rheoli risg o fewn pob is-adran, gyda phroses gydgyssylltu ganolog er mwyn nodi, uwchgyfeirio a rheoli risgiau ar draws y BBC.

Asesu effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol

Defnyddiodd y Bwrdd nifer o ddulliau i'w helpu i asesu effeithiolrwydd y system rheoli risg a rheolaeth fewnol ar draws y BBC:

Goruchwyllo risg: Dirprwyodd y Bwrdd gyfrifoldeb am adolygu prosesau risg a rheolaeth yn benodol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn rheolaidd i gyflawni swyddogaethau craffu a goruchwyllo mewn perthynas ag effeithiolrwydd rheolaethau a rheoli risgiau (rhoddir rhagor o wybodaeth ar dudalen 109).

Archwilwyr Mewnol: Cynhaliodd y swyddogaeth Archwilio Mewnol ei llinell adrodd annibynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a chynhaliodd raglen o archwiliadau, yn unol â'r prif risgiau a wynebwr gan y BBC. Cyflwynwyd adroddiadau ar ganfyddiadau'r archwiliadau hyn i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff camau adferol eu holrhain i'w cwblhau.

Archwiliadau Allanol: Mae canfyddiadau gwaith archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi'u hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, a chaiff unrhyw gamau gweithredu a argymhellir eu holrhain i'w cwblhau. Hefyd, parhaodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol â'i rhaglen o archwiliadau Gwerth am Arian.

Chwythu'r chwiban: Mae polisi datgelu gwarchoddedig ar waith, a ategir gan linell gymorth 'chwythu'r chwiban', a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol er mwyn sicrhau y gellir codi mater yn ddiennw. Cafodd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ei enwi yn y polisi fel y cyswllt ar gyfer codi'r pryderon mwyaf difrifol.

Datganiad ynghylch Hyfywedd

Yn unol â darpariaeth C2.2 o ddiwygiad 2014 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU, mae Bwrdd y BBC wedi asesu rhagolygon y Gorfforaeth dros gyfnod hwy na'r 12 mis sy'n ofynnol o dan y ddarpariaeth 'busnes gweithredol'. Mae Bwrdd y BBC yn ystyried cynllun tair blynedd treigl ar gyfer y BBC yn flynyddol.

Ystyriodd Bwrdd y BBC y cynllun tair blynedd diweddaraf ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021 ym mis Mawrth 2018. Ystyrir bod gorwel tair blynedd yn briodol gan fod hyn yn unol â phroses gyllidebu a chynllunio'r BBC. Mae'r cynllun tair blynedd yn ystyried llifau arian parod yn ogystal â'r cyfamodau ariannol a chyfleusterau credyd.

Y prif dybiaethau sy'n sail i'r cynllun tair blynedd, a'r rhagamcan llif arian parod cysylltiedig, yw setliad ffi'r drwydded a bennodd baramedrau ariannol y BBC rhwng 2017/18 a 2021/22, a'n dogfen o 2015 sef Balch Beiddgar Creadigol a nododd weledigaeth y BBC, ei nodau strategol a'i arlwy i'r cyhoedd.

Cynhaliwyd asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gorfforaeth, fel y'u disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar dudalen 109, gan gynnwys y rhai a fyddai'n peryglu ei model busnes, perfformiad yn y dyfodol, solfedd neu hylifedd. Cymhwysir dadansoddiad sensitifrwydd at y llif arian parod er mwyn modelu'r effeithiau posibl pe bai prif risgiau'n codi mewn gwirionedd, yn unigol neu ar y cyd. Cyfrifwyd y gofyniad benthyca uchaf drwy foddelu cyfuniad o risgiau difrifol ond credadwy, ond, a chan gynnwys mesurau lliniaru, arhosodd y llifau arian parod o fewn y terfyn benthyca drwy gydol y cyfnod tair blynedd.

Gan ystyried sefyllfa bresennol grŵp y BBC, prif risgiau a'r dadansoddiad sensitifrwydd a nodir uchod, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol y bydd y Gorfforaeth yn gallu parhau i weithredu a bodloni ei rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros gyfnod tair blynedd yr asesiad.

Adroddiad y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Aelodaeth a chylch gwaith y Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol

Mae'r Pwyllgor Canllawiau a Safonau Golygyddol yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â Chanllawiau Golygyddol y BBC. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol ac un cyfarwyddwr gweithredol: Ian Hargreaves (cadeirydd), Tanni Grey-Thompson, Nicholas Serota a Tony Hall. Mae'r Cyfarwyddwr Safonau Golygyddol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor fel Prif Gyngorydd y Pwyllgor.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor mae:


- goruchwyllo'r broses o ddatblygu Canllawiau Golygyddol y BBC a chydymffurfio â nhw
- sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i fframwaith cwynion
- adolygu canfyddiadau a chyfarwyddiadau Ofcom mewn perthynas â materion golygyddol, a chydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom

Un o dasgau cyntaf y Pwyllgor oedd goruchwyllo'r broses o gyhoeddi'r Fframwaith Cwynion newydd. Daeth yn weithredol ar 3 Hydref 2017, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus. O dan y fframwaith newydd, ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o gwynion yng Ngham 1 a Cham 2 o'r broses gwynion o fewn y terfynau amser a ddatganwyd: 10 diwrnod ar gyfer cwynion Cam 1; 20 diwrnod ar gyfer cwynion Cam 2 safonol a 35 diwrnod ar gyfer cwynion Cam 2 cymhleth. Lle bydd yr amseroedd ymateb islaw'r targedau a benwyd gan y Bwrdd, caiff y Bwrdd wybod y rhesymau. Mae proses 'BBC First', fel y nodir yn y Cytundeb, yn gweithio fel y bwriadwyd. Mae'r BBC, ar gais Ofcom, wedi bod yn cyhoeddi manylion achosion lle ceir mwy na 100 o gwynion ac sy'n rhan o gylch gwaith y Cod Darlledu bob pythefnos. Cyhoeddir y bwletin hyn yn: <http://www.bbc.co.uk/complaints/comp-reports/reports-archive/>.

Yn ogystal, cyhoeddir ymatebion i gwynion sylweddol, a chanfyddiadau Uned Cwynion y Pwyllgor Gweithredol (ECU – Cam 2 o'r fframwaith cwynion) ar wefan BBC Complaints: <http://www.bbc.co.uk/complaints/>.

Un o swyddogaethau allweddol eraill y Pwyllgor eleni fu sicrhau bod y BBC yn bodloni'r gofyniad yn y Cytundeb i bennu canllawiau a gynlluniwyd i sicrhau safonau priodol yng nghyd-destun Gwasanaeth Cyhoeddus y DU ac i gyhoeddi'r canllawiau hynny, eu hadolygu'n rheolaidd a chydymffurfio â nhw. Mae'r Pwyllgor wedi comisiynu Polisi Golygyddol y BBC er

Cwynion y BBC 2017/18



mwyn diwygio'r Canllawiau Golygyddol presennol. Mae'r gwaith hwn yn sylweddol ac yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Cwynion golygyddol a'r gwersi a ddysgwyd

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd mwyafrif helaeth cynnwys y BBC yn cydymffurfio â'r safonau heriol a benwyd gan Ganllawiau Golygyddol y BBC. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor yr achosion difrifol canlynol lle na lwyddodd allbwn y BBC i gyrraedd y safonau hyn

Reggie Yates: Hidden Australia – Black in the Outback

BBC Three, Ionawr 2017

Roedd y portread hwn o gymuned frodorol yn Awstralia yn cynnwys golygfa a roddodd y camargraff mai parti meddw oedd gwylnos yn dilyn angladd. O ystyried bod un o'r rhaglenni hyn wedi methu â chydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol ar gywirdeb a charmarwain cynulleidfaoedd, cymerwyd camau yn erbyn y cwmni Cynhyrchu Annibynnol, Sundog Pictures, ac ailarchwiliwyd deunydd arall a gyflenwyd gan y cwmni hwn i'r BBC. Cafwyd bod un o'r rhaglenni hyn wedi methu â chydymffurfio â'r Canllawiau Golygyddol, ac fe'i dilëwyd o'r BBC Store.

Breakfast Show

BBC Radio Leeds, 21 Mai 2017

Roedd y rhaglen yn cynnwys cystadleuaeth i ddyfalu enw llofruddiwr ardal y Moors, Ian Brady (a oedd wedi marw'n ddiweddar), drwy gyfres o gliwiau cerddorol, gan gynnwys *Suffer Little Children a Psycho Killer*. Ymddiheurodd y BBC am y

cynnwys sarhaus, a dilëwyd y deunydd perthnasol o BBC iPlayer a Facebook.

BBC Soir

BBC Afrique, 31 Ionawr 2018

Darllenwyd datganiad ar ran cyflogion BBC Afrique, am eu hanghydfod diwydiannol â rheolwyr y BBC, ar yr awyr, gan dorri'r Canllawiau Golygyddol ar ddiueddrwydd a gwrthdaro buddiannau. Gofynnwyd i'r Polisi Golygyddol ddarparu hyfforddiant penodol er mwyn atal unrhyw achosion o'r fath rhag codi yn y dyfodol.

BBC Asian Network Reports

Mewn cyfweiliad byw am dreial, defnyddiodd gohebydd enw go iawn dioddefwr, yn hytrach na ffugenw, yn anfwriadol, yn groes i ddeddfwriaeth Troseddau Rhywiol. Cymerwyd camau cyflym er mwyn atal yr adroddiad rhag ymddangos ar BBC iPlayer a dilynwyd cyngor cyfreithiol.

Yn ogystal â'r achosion uchod, nododd Uned Cwynion y Pwyllgor Gweithredol gyfanswm o 41 o achosion o dorri safonau golygyddol yn ystod y flwyddyn ariannol hon (gan gynnwys naw achos lle roedd y gŵyn wedi'i datrys drwy gamau gan yr is-adran berthnasol cyn uwchgyfeirio'r gŵyn i'r Uned). Cafodd y Pwyllgor wybod am yr achosion hyn, ynghyd â gwybodaeth am y camau a gymerwyd.

Ian Hargreaves CBE Cadeirydd

21 Mehefin 2018

Adroddiadau Pwyllgorau'r Gwledydd

Cymru

Yn ystod y flwyddyn, bu'n fraint cael dod yn Gadeirydd Pwyllgor newydd Cymru. Ei gylch gwaith yw sicrhau bod y BBC yn darparu allbwn a wasanaethau sy'n diwallu anghenion Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn adlewyrchu'r Bwrdd Unedol newydd, gyda chymysgedd o gyfarwyddwyr anweithredol a gweithredol. Ymunodd y Cyfarwyddwr anweithredol Ian Hargreaves, Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau Ken MacQuarrie a Chyfarwyddwr BBC Cymru, Rhodri Talfan Davies â mi ar y Pwyllgor. Mynychodd aelodau eraill o staff gweithredol ac arbenigwyr allanol ar gyfer eitemau unigol a thrafododd aelodau'r gynulleidfa eu barn am y BBC.

Bu'n flwyddyn dda iawn i BBC Cymru a gofnododd ei gynulleidfaedd uchaf ar gyfer cyfresi ffeithiol a drama ers dros ddegawd. Mae hyn yn dilyn cefnogaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol i fuddsoddi mwy. Trafododd y Pwyllgor y cynlluniau buddsoddi ar gyfer y tair blynedd nesaf, y dewisiadau strategol sy'n wynebu Radio Wales a phartneriaeth y BBC ag S4C. Roedd darparu ar gyfer gwlad sy'n newid yn ieithyddol ar deledu, radio ac ar-lein yn parhau'n fater byw. Roedd y ddrama lwyddiannus *Keeping Faith* yn enghraifft o waith a ddarlledwyd yn wreiddiol yn Gymraeg ar S4C, wedyn yn Saesneg ar BBC One Wales, ac a berfformiodd yn dda iawn wedi hynny ledled y DU ar iPlayer. Croesawodd y Pwyllgor hefyd y dewis a gynigir i wrandawyr gan wasanaeth newydd Radio Cymru 2.

Edrychodd y Pwyllgor ar effeithiau Cwotâu 'Y Tu Allan i Lundain' Ofcom ar gynrychiadau rhwydwaith yng Nghymru a nododd y wybodaeth ddiweddaraf am ganolfan ddarlledu newydd sbon BBC Cymru yn Sgwâr Canolog, Caerdydd – y disgwylir iddi fod yn weithredol yn ystod pedwerydd chwarter 2019. Nododd y Pwyllgor hefyd fod amrywiaeth a newyddion yn feysydd i'w trafod yn fanylach yn ystod y flwyddyn nesaf.

Ceir rhagor o wybodaeth am berfformiad y BBC yng Nghymru ar dudalennau 44 i 45 a 151 i 154 o'r adroddiad hwn.

Elan Closs Stephens CBE
Cadeirydd Pwyllgor Cymru
21 Mehefin 2018

Yr Alban

Mae'n bleser gennyf gadeirio Pwyllgor yr Alban y Bwrdd. Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf fis Medi diwethaf yn Glasgow, lle y gwnaethom drafod amrywiaeth o fusnes, gan gynnwys y sianel newydd arfaethedig BBC Scotland. Treuliyd rhywfaint o amser hefyd yn trafod gwahanol safbwyntiau ac agweddau'r gynulleidfa yn yr Alban ac ymunodd nifer o aelodau o'r gynulleidfa â ni mewn sesiwn adborth.

Fy nghyd-aelodau ar y Pwyllgor yw Cadeirydd y BBC, David Clementi, Ken MacQuarrie (Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau) a Donalda MacKinnon (Cyfarwyddwr yr Alban).

Bu'n flwyddyn ardderchog i gynnwys o'r Alban. Dychwelodd y ddrama glodwiw *Shetland* a chafodd gwylwyr eu tywys i ganol Coedwig Galloway yn *The Forest*. Parhaodd comedi BBC Scotland i berfformio'n eithriadol o dda, gyda *Mrs Brown's Boys* yn denu'r cynulleidfaedd uchaf erioed, *Still Game* yn dychwelyd gyda'i chyfran uchaf erioed o'r gynulleidfa, sef 57%, a *Two Doors Down* yn parhau i ddiddanu miliynau. Dangosodd *The Social* gan BBC Scotland waith a doniau pobl ifanc o bob cwr o'r Alban, ac roedd yr uchafbwyntiau yn cynnwys *Kilted Yoga*, sydd wedi cyrraedd cynulleidfa fyd-eang o dros 64 miliwn o wylwyr.

Wrth i Radio Scotland baratoi i ddathlu ei phen-blwydd yn 40 oed ym mis Tachwedd, cefais fy atgoffa pa mor hanfodol yw'r gwasanaethau i gynulleidfaedd, a ddarperir gan Radio Scotland a Radio nan Gàidheal, yn ystod darllediadau am y Dihyrn o'r Dwyrain – rhybudd tywydd coch cyntaf erioed yr Alban o ganlyniad i eira. Ac fel rhan o'n partneriaeth ag MG ALBA, bydd BBC ALBA yn dathlu dengmlwyddiant nodedig ym mis Medi. Ymwelais â BBC Inverness yn ystod y flwyddyn a gwyliais y ddrama Aeleg, *Bannan*, yn cael ei ffilmio ar gyfer BBC ALBA ar ynyr Skye.

Y flwyddyn nesaf, caiff sianel newydd BBC Scotland ei lansio, sydd bellach wedi derbyn cymeradwyaeth amodol gan Ofcom. Rwyf yn hyderus y bydd yn cynnig safbwynt newydd i gynulleidfaedd yn yr Alban ar draws amrywiaeth o genres cynnwys, ac y bydd hefyd yn cyflwyno cynnwys gorau BBC Scotland i gynulleidfaedd rhwydwaith. Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae Pwyllgor yr Alban yn edrych ymlaen at ystyried cynnwys a chynlluniau lansio sianel BBC Scotland ac at ddathlu achlysur lansio'r sianel honno.

Ceir rhagor o wybodaeth am wariant a pherfformiad ariannol y BBC yn yr Alban ar dudalennau 155 i 158 o'r adroddiad hwn.

Steve Morrison
Cadeirydd Pwyllgor yr Alban
21 Mehefin 2018

Gogledd Iwerddon

Bu'n bleser gennyf gadeirio Pwyllgor Gogledd Iwerddon y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i ni aros i benodi aelod Gwledydd dros Ogledd Iwerddon i Fwrdd y BBC.

Mae'r BBC wedi darparu arlwy gynhwysfawr ar wleidyddiaeth Gogledd Iwerddon drwy gydol y flwyddyn. Fel y nodir gennym ar dudalennau 48 i 49 o'r Adroddiad Blynyddol hwn, mae defnyddwyr y BBC yng Ngogledd Iwerddon ymhlith yr unigolion sy'n defnyddio BBC Newyddion fwyaf ar bob llwyfan. Un o rolau craidd Pwyllgor Gogledd Iwerddon yw monitro perfformiad y BBC ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn, a sicrhau hefyd ein bod yn cyflawni ein cenhadaeth a'n dibenion cyhoeddus ar eu rhan.

Yn ystod y flwyddyn, ymunodd yr aelodau anweithredol David Clementi ac Elan Closs Stephens, a'r aelodau gweithredol Anne Bulford (Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol) a Peter Johnston (Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon) â mi ar y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn cynnal ei gyfarfodydd yn Belfast ac yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Yn ein dau gyfarfod, ymunodd aelodau'r gynulleidfa â ni er mwyn i ni glywed ganddynt am berfformiad y BBC – bu'r sesiynau hyn yn heriol, yn agored ac yn addysgiadol iawn. Maent wedi helpu i lywio gwaith y BBC yng Ngogledd Iwerddon a rhoi ffocws iddo.

Yn ystod ein cyfarfodydd, gwnaethom ganolbwyntio hefyd ar broffil y gynulleidfa a darpariaeth leol gref yng Ngogledd Iwerddon, er mwyn deall y materion sy'n berthnasol i'n cynulleidfaoedd yno. Mae radio lleol, er enghraifft, yn gryfder arbennig yng Ngogledd Iwerddon, lle mae Radio Ulster ymhlith y gorsafoedd radio â'r perfformiad gorau ym mhorthffolio'r BBC. Nodwyd hefyd y cynigion i adnewyddu Canolfan Ddarlledu Belfast, a gymeradwywyd gan y Bwrdd, a thrafodwyd y bartneriaeth lwyddiannus sydd ar waith rhwng y BBC a Northern Ireland Screen.

Ceir rhagor o wybodaeth am wariant a pherfformiad ariannol y BBC yng Ngogledd Iwerddon ar dudalennau 48 i 49 a 159 i 162 o'r adroddiad hwn. Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn edrych ymlaen at barhau i wella cydberthynas y BBC â chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid yng Ngogledd Iwerddon a byddwn yn parhau i sicrhau bod y BBC yn atebol am berfformiad yn erbyn y targedau a bennwyd gennym ac am gyflawni ein dibenion cyhoeddus.

Ken MacQuarrie

Cadeirydd Pwyllgor Gogledd Iwerddon
21 Mehefin 2018

Lloegr

Mae'n bleser gennyf ymgymryd â rôl Cadeirydd Pwyllgor Lloegr a diolch i Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC, am gadeirio'r Pwyllgor yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Bu'r flwyddyn yn gyfnod hollbwysig o ran pennu rôl holl Bwyllgorau'r Gwledydd a sicrhau bod pob un yn bodloni'r gofynion fel y'u nodir yn y Siarter Frenhinol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymunodd yr aelod anweithredol Tom llube a'r cyfarwyddwyr gweithredol Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau, Alice Webb, Cyfarwyddwr Gogledd Lloegr, Joe Godwin, Cyfarwyddwr Canolbarth Lloegr, Pat Connor, Cyfarwyddwr De-orllewin Lloegr a David Holdsworth, Rheolwr Rhanbarthau Lloegr â mi ar y Pwyllgor.

Mae asesu i ba raddau y mae'r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn rhanbarthau Lloegr yn rhan bwysig o rôl y Pwyllgor. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, cyfarfu'r Pwyllgor ym Mryste lle y trafodwyd data cynulleidfaoedd, cafwyd adroddiadau gan arweinwyr rhanbarthol y BBC a chyfle i gyfarfod â chynrychiolwyr o'n cynulleidfa ledled yr ardal leol. Ceir rhagor o fanylion am gyflawniadau'r BBC yn Lloegr ar dudalennau 50 i 51 a 163 i 166 o'r adroddiad hwn. Dylid nodi'r ymrwymiad a wnaed gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Tony Hall i ddarparu buddsoddiad ychwanegol mewn radio a newyddion lleol er mwyn helpu i ddod â chymunedau ynghyd a chydabod y pwysigrwydd y mae ein cynulleidfa yn ei roi ar frogarwch.

Hefyd, fel y cyfarwyddwr anweithredol dros Loegr, yn 2017 arweiniais drafodaethau gyda'r gynulleidfa ar safleoedd cyflogwyr ym Mryste, Caerfaddon a Newcastle ac mewn ysgolion yng Ngwlad yr Haf. Cyfarfûm hefyd â staff y BBC yn Salford, Newcastle, Birmingham, Bryste, Caergrawnt, Cofentri a Llundain.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal ein cyfarfodydd yn y dyfodol yn y rhanbarthau, a bwriedir cynnal cyfarfodydd yn Leeds, Caerlŷr a De-ddwyrain Lloegr yn 2018. Ym mhob cyfarfod, byddwn yn cyfarfod â chynulleidfaoedd mewn amrywiaeth o leoliadau, boed, er enghraifft, yn weithleoedd, yn ysgolion neu'n ganolfannau cymunedol.

Dr Ashley Steel

Cadeirydd Pwyllgor Lloegr
21 Mehefin 2018

Adroddiad Masnachu Teg

Datganiad Cadeirydd y Pwyllgor Masnachu Teg

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn o drawsnewid i'r BBC, gyda Siarter newydd a fframwaith rheoleiddio newydd yn cael eu sefydlu. O ganlyniad, newidiwyd dull gweithredu sefydledig y BBC mewn perthynas â Masnachu Teg, sy'n llywodraethu'r rhaniad rhwng y Gwasanaeth Cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y Gorfforaeth. O dan y rheolau newydd hyn, mae gennym bellach Bwyllgor Masnachu Teg newydd ar waith fel rhan o'r Bwrdd ac, fel Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad Masnachu Teg cyntaf hwn ar ein gwaith.

Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a griennir gan ffrîr drwydded, mae gan y BBC gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn masnachu'n deg ac yn ystyried effaith ei weithgareddau ar y farchnad ehangach. Mae'r fframwaith a'r prosesau goruchwyllo newydd y mae'r BBC wedi'u rhoi ar waith er mwyn goruchwyllo'r broses hon yn seiliedig ar y gofynion a nodwyd gan Ofcom, o dan ei reolau masnachu a gwahanu. Mae'r rheolau hyn wedi datblygu drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos ag Ofcom wrth roi ei fframwaith newydd ar waith.

Mae'r rheolau a'r fframweithiau a bennwyd gan y BBC yr un mor bwysig ag erioed, yn arbennig o ystyried bod y gorfforaeth yn parhau i ehangu a datblygu ei gweithgareddau masnachol, er enghraifft, drwy greu BBC Studios ar ei ffurf newydd unedig. Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Masnachu Teg er mwyn goruchwyllo'r rheolau masnachu a gwahanu ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â meini prawf Ofcom.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu'r Pwyllgor yn sefydlu ei rôl graidd ac yn meithrin cydberthnasau gwaith cynhyrchiol ag Ofcom a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae aelodaeth y Pwyllgor yn gryf, ac mae'r grŵp yn meddu ar set eang o sgiliau a phrofiadau. Caiff gwaith y Pwyllgor ei gefnogi gan dimau polisi, rheoleiddio, cyfreithiol a chyllid canolog, sy'n rhoi cyngor i'r Pwyllgor a'r sefydliad ehangach ar faterion a meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt. Roedd yn galonogol clywed eleni, gan ein harchwilwyr Masnachu Teg, bod diwylliant cryf o roi cyngor ac atgyfeirio yn bodoli yn y BBC, gan weithredu fel cam rheoli er mwyn sicrhau y gweithredir ar unrhyw bryderon posibl yn gynnar wrth ddatblygu polisiau.

Un o ofynion craidd eraill y Pwyllgor fu adolygu, cymeradwyo a goruchwyllo'r trefniadau masnachu a gwahanu ar gyfer pob un o is-gwmnïau masnachol y BBC. Rydym wedi edrych yn ofalus ar lawlyfrau masnachu grŵp pob is-gwmni (sy'n nodi'n glir pa wasanaethau a gaiff eu masnachu rhwng yr is-gwmni masnachol a'r gwasanaeth cyhoeddus, a sut y cyfrifir y prisiau ar gyfer y gwasanaethau hyn) ac wedi'u cymeradwyo i'w cyhoeddi. Rydym hefyd wedi trafod ac wedi cymeradwyo proses ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ariannol dryloyw a manwl am yr is-gwmnïau i Ofcom – rydym yn croesawu'r drafodaeth barhaus sy'n mynd rhagddi gydag ef ar y broses adrodd hon, a'r gydberthynas gadarnhaol rydym yn ei meithrin rhwng ein sefydliadau.

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ar faterion masnachu a gwahanu, ac rydym yn parhau i fonitro'r rhaglen hyfforddi sydd ar waith i bob aelod o staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg.

Yn olaf, mae'n bleser gennym dderbyn archwiliad Masnachu Teg eleni, a gynhaliwyd gan Deloitte, ac i weld bod prosesau da ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'n gofynion, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn i'w groesawu ar ddiwedd blwyddyn lle na fu'r fframwaith yn gadarn. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd yr archwiliad yn ymdrin â'r flwyddyn lawn, er mwyn asesu sut mae'r prosesau hyn yn ymsefydlu.

Rwyf yn edrych ymlaen at ddatblygu gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn nesaf, yn arbennig gan fod y BBC yn wynebu heriau cystadleuol cynyddol gan farchnadoedd cyflym, gartref a thramor

Tom Ilube CBE
Cadeirydd
21 Mehefin 2018

Aelodaeth a chylch gwaith y Pwyllgor Masnachu Teg

Sefydlwyd y Pwyllgor Masnachu Teg gan y Bwrdd fel ffordd o fonitro a sicrhau rhaniad priodol rhwng gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC, yn unol â'r fframweithiau perthnasol ar gyfer gweithgareddau masnachol, fel y'u pennir gan Ofcom. Sefydlwyd y Pwyllgor yn wirfoddol gan y Bwrdd, er mwyn cydnabod y pwysigrwydd y mae'r BBC yn ei roi ar dryloywder ac effeithlonrwydd masnachol wrth weithredu ei is-gwmnïau masnachol.

Swyddogaeth allweddol y Pwyllgor yw goruchwyllo cydymffurfiaeth y BBC â'n rhwymedigaethau rheoleiddiol ar gyfer masnachu a gwahanu'r gwasanaeth cyhoeddus a'r is-gwmnïau masnachol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar cyfarwyddwr anweithredol: Tom Ilube (Cadeirydd), Elan Closs Stephens, Ian Hargreaves a Steve Morrison. Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Polisi a'r Pennaeth Rheoleiddio ac Economeg hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Cynhaliodd y Pwyllgor dri chyfarfod yn ystod y flwyddyn, gyda phapurau hefyd yn cael eu cymeradwyo all-lein lle yr oedd angen. Gweler tudalen 108 am dabl presenoldeb y Pwyllgor.

Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor mae:

- ystyried adroddiadau ar y graddau y mae gweithgareddau'r BBC yn gyson â gofynion masnachu a gwahanu Ofcom;
- cynnal adolygiadau parhaus o gydymffurfiaeth y BBC â gofynion rheoleiddiol Ofcom o ran masnachu a gwahanu;
- comisiynu'r archwiliad annibynnol blynyddol o reolaethau cydymffurfio;
- ystyried methodolegau budd-dal pris trosglwyddo'r BBC a'u cymeradwyo i'w cyhoeddi;
- sicrhau y caiff methodolegau budd-dal pris trosglwyddo'r BBC eu hadolygu'n rheolaidd.

Dyma'r flwyddyn gyntaf lle y gweithredodd y BBC o dan ofynion Fframwaith Gweithredu Ofcom, sy'n rheoleiddio rhyngweithio'r BBC â'r farchnad drwy ei weithgareddau Gwasanaeth Cyhoeddus a gweithgareddau ei gangen fasnachol. Cyhoeddodd Ofcom ei ofynion newydd i ddechrau ym mis Mawrth 2017, a chyhoeddodd ofynion pellach ym mis Gorffennaf a mis Hydref 2017.

Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau'r canlynol:

- mai is-gwmnïau masnachol sy'n ymgymryd â'r holl weithgareddau masnachol;
- bod yn rhaid i unrhyw is-gwmnïau gael eu gwahanu ar sail weithredol o Wasanaeth Cyhoeddus y BBC;
- ei fod yn darparu nwyddau a gwasanaethau i is-gwmnïau masnachol ar delerau masnachol hyd braich;
- bod yr is-gwmnïau yn sicrhau cyfradd adenillion fasnachol;
- ei fod yn sicrhau tryloywder, trefniadau monitro a threfniadau adrodd priodol mewn perthynas â gweithgareddau'r is-gwmnïau.

Fel rhan o'r fframwaith cydymffurfio, mae'r tîm polisi yn rheoli rhaglen hyfforddi wedi'i thargedu at staff sy'n debygol o ddod ar draws materion Masnachu Teg. O ganlyniad i'r fframwaith rheoleiddio newydd, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r rhaglen hyfforddi hon ac fe'i hail-lansiwyd. Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg wedi goruchwyllo'r prosesau hyn ac wedi monitro cydymffurfiaeth â nhw.

Caiff y Pwyllgor hefyd wybodaeth am gwynion rheoleiddio a chwynion Masnachu Teg perthnasol a geir ac yr ymdrinnir â nhw gan y BBC. Nodir manylion amdanynt ar dudalen 123 o'r Adroddiad Blynyddol, er i'r Pwyllgor nodi na chafwyd unrhyw gwynion penodol am Fasnachu Teg yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn ategu'r fframwaith, a sicrhau dull gweithredu'r BBC mewn perthynas â rheoleidd-dra a defnyddio arian cyhoeddus, mae'r BBC yn parhau i fod yn destun archwiliad blynyddol gan archwilwyr annibynnol ac fe'i hachredwyd ar wahân â safon ansawdd ISO 9001:2008. Nodir adroddiad yr archwilydd isod.

Ar ôl cael adroddiadau gan yr uwch reolwyr perthnasol, ac ar ôl ystyried canfyddiadau'r Archwiliad Masnachu Teg, mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn fodlon bod gan y BBC bolisiau a prosesau digonol ar waith, a bod yr holl wasanaethau masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR MASNACHU TEG ANNIBYNNOL I'R BBC AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

Yn ein rôl fel archwilwyr masnachu teg y BBC, rydym wedi archwilio'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r BBC ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar 31 Mawrth 2018.

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr ymrwymiad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith sydd i'w wneud, â Phwyllgor Masnachu Teg y BBC, sef un o is-bwyllgorau Bwrdd y BBC. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylai ein harchwiliad gael ei gynnal yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymrwymadau Sicrwydd (ISAE) 3000, cytundeb ynglŷn â therfyn ein hatebolrwydd o ran y gwaith hwn a chytundeb mai i'r BBC yn unig y mae arnodd dyletswydd gofal o ran y gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod cwmpas ein harchwiliad y cytunwyd arno yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

Priod gyfrifoldebau Bwrdd y BBC a'r archwilwyr masnachu teg

Mae dyletswydd ar y Bwrdd i sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Fframwaith Gweithredu Ofcom, gan gynnwys y gofynion Masnachu a Gwahanu. Fel rhan o'r broses o gyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Pwyllgor Masnachu Teg oruchwyllo'r maes hwn, gan gynnwys nodi ac asesu risgiau a allai fygwth masnachu teg rhwng gwasanaeth cyhoeddus y BBC a'i is-gwmnïau masnachol a chynllunio a gweithredu ymatebion i'r cyfryw risgiau.

Fel archwilwyr masnachu teg y BBC, rydym yn gyfrifol am lunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, ynglŷn â'r graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar 31 Mawrth 2018. Dim ond i'r graddau ag sy'n angenrheidiol i lunio barn ar y ffordd y cymhwysir y system o reolaethau mewnol rydym wedi adolygu penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC mewn perthynas â materion masnachu teg o'r fath.

Paratowyd ein barn i'r BBC ac i'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor Masnachu Teg ar ran y BBC. Wrth roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall nac i unrhyw berson arall ac eithrio'r rheini o fewn y BBC y dangosir yr adroddiad hwn iddynt neu y mae'n cael ei roi iddynt, ac ni fydd hawl gan unrhyw berson arall i ddibynnu ar ein barn, oni chytunnu i hynny'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

Ein dull gweithredu

Rydym wedi mynd ati i gyflawni ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y diffinnir yn ISAE 3000. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw cynnal y cyfryw weithdrefnau er mwyn cael gwybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i roi tystiolaeth briodol ddigonol i ni lunio casgliad ar gydymffurfiaeth y BBC â gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar 31 Mawrth 2018.

Roedd ein gwaith yn cynnwys ymchwiliad a phroffion i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Cynhaliwyd dadansoddiad seiliedig ar risg gennym er mwyn nodi'r agweddau hynny ar reolaethau masnachu a gwahanu'r BBC sy'n peri'r risg fwyaf, gan ganolbwyntio ein profion manwl ar y meysydd hynny. Dewiswyd achosion unigol o gofnod masnachu teg y BBC i'w hadolygu. Ym mhob achos, archwiliwyd cofnodion ysgrifenedig gennym a chyfwelwyd â phartïon perthnasol er mwyn i ni gael sicrwydd rhesymol bod y system o reolaethau mewnol wedi cael ei chymhwyso. Roedd yr achosion a archwiliwyd, a'r meysydd o risg sylweddol yr oedd y gwaith yn seiliedig arnynt, yn cynnwys archwilio trefniadau budd-dal pris trosglwyddo a threfniadau gwahanu, defnyddio brand y BBC a thalu am ei ddefnyddio, a chymhwyso gofynion y Siarter Frenhinol nad yw ei weithgareddau masnachol, o ganlyniad i'w cydberthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau neu weithgareddau masnachu, yn amharu ar y farchnad nac yn creu mantais gystadleuol annheg. Yn ystod ein gwaith, nodwyd diwylliant o ymgynghori ac atgyfeirio mewn perthynas â materion masnachu teg.

Cyfyngiadau annatod

Fel yn achos unrhyw system reoli, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau nac achosion o afreoleidd-dra wedi digwydd heb gael eu canfod. Cynlluniwyd ein gwaith archwilio i roi sicrwydd rhesymol i'r Pwyllgor ynglŷn â digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac yn cael ei chymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar 31 Mawrth 2018. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei phrofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Masnachu a Gwahanu Ofcom ar 31 Mawrth 2018.

Deloitte LLP

Llundain, Y DU
21 Mehefin 2018

Adroddiad Rheoleiddio

Ar 3 Ebrill 2017, trosglwyddodd y cyfrifoldeb am reoleiddio'r BBC o Ymddiriedolaeth y BBC i Ofcom. Er bod rhannau o fframwaith rheoleiddio newydd Ofcom wedi'u cyflwyno cyn dechrau 2017/18, cyhoeddwyd y rhan fwyaf ohono yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Felly, bu'n flwyddyn o ddeall y rheoliadau newydd, datblygu fframweithiau ac ymsefydlu polisiau newydd.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi ymgysylltu ag Ofcom wrth ddatblygu'r Fframwaith Gweithredu. Mae'r fframwaith yn ymdrin â gwerthuso perfformiad y BBC, rheoleiddio effaith y farchnad ar Wasanaeth Cyhoeddus y BBC, sut mae'r BBC yn cynnal ei weithgareddau masnachol, a dosbarthiad y Gwasanaeth Cyhoeddus.

Trwydded gweithredu

Cyhoeddodd Ofcom Drwydded Gweithredu gyntaf y BBC ar 13 Hydref 2017. Mae'r Drwydded Gweithredu yn disodli Trwyddedau Gwasanaeth blaenorol Ymddiriedolaeth y BBC, ac yn nodi amodau rheoleiddio ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU megis cwotâu ar gyfer newyddion a materion cyfoes, lefelau cynrychiadau gwreiddiol, cynrychiadau teledu o'r gwledydd a'r rhanbarthau, ac amrywiaeth. Ni ddaeth y rhan fwyaf o'r amodau i rym tan naill ai 1 Ionawr neu 1 Ebrill 2018.

Daeth ein Cod Ymarfer newydd ar Gomisiynu Amrywiaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan Ofcom ar 28 Mawrth 2018. Mae'r Cod newydd hwn yn rhan o ymrwymiad y BBC i gynyddu amrywiaeth ar yr awyr ac oddi ar yr awyr – ar deledu, radio ac ar-lein – er mwyn adlewyrchu a chynrychioli'r DU sydd ohoni.

Newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i'r BBC asesu p'un a yw newidiadau i Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol. Os bydd y newidiadau yn sylweddol, mae'n ofynnol i ni gynnal Prawf Budd y Cyhoedd. Rydym wedi disgrifio sut y gwneir hyn yn y polisi a gyhoeddwyd gennym ar newidiadau sylweddol i weithgareddau Gwasanaeth Cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC.

Yn ystod 2017/18, cynhaliwyd saith asesiad manwl gennym ynghylch pa mor sylweddol yw newidiadau. O'u plith, nad oedd chwech ohonynt yn sylweddol:

- buddsoddiad uwch mewn cynnwys ar-lein i blant
- buddsoddiad uwch yng Nghymru
- buddsoddiad newydd yn BBC Northern Ireland er mwyn hybu cynnwys lleol
- ffrydio chwaraeon niche yn fyw
- menter BBC Ideas
- newidiadau i gynhyrchion BBC iPlayer Radio a BBC Music

Roedd y cynnig arfaethedig i lansio sianel BBC Scotland, fel sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd, yn newid sylweddol. Felly, cynhaliodd y BBC Prawf Budd y Cyhoedd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ac a gyflwynwyd i Ofcom i'w ystyried ym mis Tachwedd 2017. Ar 20 Ebrill 2018, cyhoeddodd Ofcom ei benderfyniad amodol i gymeradwyo'r cynnig i lansio'r sianel newydd. Nododd y byddai'n cyhoeddi ei benderfyniad terfynol erbyn mis Gorffennaf 2018.

Newidiadau i weithgareddau masnachol y BBC

O dan y Siarter a'r Cytundeb, mae'n rhaid i'r BBC asesu p'un a yw newidiadau i'w weithgareddau masnachol yn sylweddol. Yn ystod 2017, gwnaethom asesu p'un a oedd y cynnig i uno BBC Studios a BBC Worldwide yn sylweddol. Daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad er ei fod yn bwysig i'r BBC, nad oedd yn newid sylweddol. Fodd bynnag, o ystyried ymrwymiad y BBC i atebolrwydd a thryloywder, rydym wedi cyhoeddi rhai ymrwymiadau gwirfoddol er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch y ffordd bydd y BBC Studios newydd yn gweithio.

Mae'r BBC hefyd wedi cyhoeddi ei fethodolegau ar gyfer budd-dal pris trosglwyddo a ffioedd brand ar gyfer yr holl nwyddau a gwasanaethau a gaiff eu masnachu'n fewnol, yn unol â gofynion Ofcom ar Fasnachu a Gwahanu. Ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyn, rydym yn cyhoeddi manylion am berfformiad ariannol cangen masnachol y BBC, gan fodloni un o ofynion eraill Ofcom.

Cwynion rheoleiddio

O dan y Cytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol, mae'r BBC yn gyfrifol am ymdrin â chwynion, gan ddilyn dull gweithredu BBC First. Eleni, cawsom ddwy gŵyn. Yn y ddau achos, cafwyd gennym na thorwyd unrhyw rai o rwymedigaethau'r BBC.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC baratoi adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon archwiledig.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn ei gyfrifoldeb am baratoi adroddiad strategol, datganiadau o gydymffurfiaeth â chodau a rheoliadau cymwys (gan gynnwys adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd) a'r datganiad o gyfrifon y bwriedir iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BBC a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') a'r incwm a'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae'r Bwrdd wedi paratoi'r cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. Ni chaiff y Bwrdd gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon (neu'r 'datganiadau ariannol') oni fydd yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau a sefyllfa ariannol y Grŵp a'r gwarged neu'r diffyg yn y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson.
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbobus.
- nodi p'un a gawsant eu paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE.
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, am ei fod o'r farn y bydd y BBC yn parhau i weithredu.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y BBC a datgelu sefyllfa ariannol y Grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'i alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol ac adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd yn cydymffurfio â'r Siarter. Hefyd mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol i gymryd y cyfryw gamau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu asedau'r BBC ac atal a chanfod unrhyw dwyll ac anghysondebau eraill.

Nodir cyfrifoldebau'r Bwrdd o ran sicrhau bod y BBC yn stiwardio arian cyhoeddus mewn ffordd drylwyr, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra trefniadau rheoli adnoddau'r BBC, yn erthygl 16 o'r Siarter.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gynnal gwefan y BBC a sicrhau ei bod yn gywir. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, y caiff eu henwau a'u swyddogaethau eu rhestru yn adran Llywodraethu'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred:

- fod y datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE, yn rhoi darlun gwir a theg o asedau, rhwymedigaethau, sefyllfa ariannol a diffyg y Grŵp.
- bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys adolygiad teg o ddatblygiad a pherfformiad y busnes a sefyllfa'r Grŵp, ynghyd â disgrifiad o'r prif risgiau ac ansicrwydd a wynebir ganddo.
- bod yr Adroddiad Blynyddol, yn ei gyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar dalwyr ffi'r drwydded i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp.

Datganiad datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau'r Bwrdd a oedd mewn swydd ar adeg cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y BBC yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn dod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y BBC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi rhagamcanion llif arian parod am gyfnod y tu hwnt i flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn, ac maent wedi adolygu'r rhagamcanion hyn, ynghyd â'r materion sensitif a'r ffactorau lliniarol yng nghyd-destun yr arian sydd ar gael.

Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y BBC mewn sefyllfa dda i reoli'r risgiau a bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. O ganlyniad, mabwysiadwyd sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cafodd y datganiad hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Syr David Clementi Cadeirydd

21 Mehefin 2018

Perfformiad yn erbyn ymrwymïadau cyhoeddus

Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd tuag at wahanol ymrwymïadau cyhoeddus. Daw'r ymrwymïadau hyn o'r Siarter, y Cytundeb, ein rhwymedigaethau o ran y Drwydded ac ymrwymïadau a wnaed gennym i gyflenwi gwasanaethau i'n cynulleidfaoedd

t.141

Dyletswyddau Cyffredinol

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei genhadaeth a'i ddibenion cyhoeddus fel y'u nodir yn y Siarter.

t.150

Pecynnau data'r Gwledydd

Data manwl ar berfformiad yn ôl gwasanaeth yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Golygydd Cyfryngau'r BBC, Amol Rajan, yn gohebu y tu allan i Ganolfan Ddarlledu Newydd y BBC yn Llundain

Cydymffurfiaeth reoleiddiol

Mae'r adran hon yn amlinellu perfformiad y BBC yn erbyn ei ymrwymadau yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU. Cafodd Amodau Trwydded Gwasanaeth hen Ymddiriedolaeth y BBC eu dirwyn i ben ar 1 Ionawr 2018, pan ddaeth trwydded Gweithredu Ofcom i rym. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder, rydym wedi adrodd yn erbyn Amodau Trwydded Gwasanaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn. Bydd y rhan fwyaf o'r amodau yn Nhrwydded Gweithredu Ofcom yn gymwys am y tro cyntaf naill ai ym Mlwyddyn Galendr 2018 neu ym Mlwyddyn Ariannol 2018/19. Byddwn yn adrodd yn erbyn yr amodau hynny yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y flwyddyn nesaf. Mae rhai o Amodau Trwydded Gweithredu Ofcom yn barhaus (h.y. ni chânt eu mesur dros gyfnod penodol) ac rydym wedi parhau i adrodd yn erbyn y rhain isod. Trefnir yr ymrwymadau yn ôl diben cyhoeddus.

Diben Un: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiuedd er mwyn helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u hamgylch

	Cwota	2017/18
Rhaglenni newyddion a materion cyfoes		
Oriau o newyddion ar BBC One	1,380	1,677
Oriau o newyddion ar BBC One yn ystod oriau brig	275	313
Oriau o faterion cyfoes ar BBC One a BBC Two	365	603
Oriau o faterion cyfoes ar BBC One a BBC Two yn ystod oriau brig	105	120
Materion cyfoes ar BBC One yn ystod oriau brig	40	58
Newyddion ar adegau penodol drwy gydol y dydd	✓	✓
CBBC		
Oriau o newyddion	85	91
Oriau o raglennu ffeithiol	550	1,255
Newyddion ar adegau penodol drwy gydol y dydd	✓	✓
BBC Radio 1		
Newyddion yn ystod y dydd	✓	✓
Oriau o newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos, yn cynnwys dau fwletin estynedig	1 awr	1 awr 3 mun
Bwletinâu rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau	✓	✓
BBC Radio 1XTRA		
Newyddion yn ystod y dydd	✓	✓
Oriau o newyddion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos, yn cynnwys dau fwletin estynedig	1	1
Bwletinâu rheolaidd yn ystod y dydd ar benwythnosau	✓	✓
BBC Radio 2		
Newyddion ar adegau penodol drwy gydol y dydd	✓	✓
Oriau wythnosol o newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys bwletinâu newyddion rheolaidd	17 (3 yn ystod oriau brig)	18 (3.5 yn ystod oriau brig)
BBC Radio 3		
Newyddion ar adegau penodol drwy gydol y dydd	✓	✓
BBC Radio 4		
Oriau o raglenni newyddion a materion cyfoes	2,500	3,334
Adroddiadau dyddiol o drafodion y Senedd pan fo'r Senedd yn eistedd	✓	✓
BBC Radio 5 Live		
% yr allbwn sy'n ddarllediadau newyddion	c.75	76
Sylw helaeth i etholiadau lleol a chyffredinol, ac etholiadau siambrau datganoledig y Deyrnas Unedig, yn ogystal â sylw rheolaidd i wleidyddiaeth Ewropeaidd a rhyngwladol	✓	✓
BBC Radio 6 Music		
Oriau wythnosol o newyddion	6	6
BBC Radio Asian Network		
Oriau o newyddion a materion cyfoes bob wythnos	24 awr	24 awr 4 mun
Sianel BBC News		
Mwy o newyddion rhyngwladol na phrif sianel(au) newyddion parhaus eraill yn y DU	✓	✓
Mwy o newyddion a safbwyntiau lleol/rhanbarthol na phrif sianel(au) newyddion eraill yn y DU	✓	✓
Newyddion chwaraeon drwy gydol y dydd, gan gynnwys crynodeb gyda'r nos	✓	✓
Oriau o newyddion chwaraeon	100	291
BBC Parliament		
Oriau o raglennu (gan gynnwys ailddarllediadau) o Frwsel a Strasbwrg	100	211
BBC Ar-lein		
Darparu dolenni digonol i ddeunydd trydydd partion	✓	✓

Diben Dau: Cefnogi dysgu i bobl o bob oedran

	Nodyn	Ymrwymiad	2017/18
BBC One			
Oriau o gelfyddyd a cherddoriaeth		40	56
Oriau o raglenni crefyddol	1	110	146
BBC Two			
Oriau o gelfyddyd a cherddoriaeth		150	224
CBeebies			
Amrywiaeth o gynnwys sy'n helpu plant cyn oedran ysgol i ddysgu		✓	✓
BBC Radio 1			
Nifer y rhaglenni dogfen newydd		40	41
BBC Radio 1XTRA			
Nifer y rhaglenni dogfen		40	42
BBC Radio 2			
Oriau o raglenni cerddoriaeth arbenigol		1,100	1,130
Oriau o raglennu celfyddydol		100	122
Oriau o raglenni dogfen newydd		130	153
Oriau o allbwn crefyddol gan gwmpasu ystod eang o ffydd		170	201
BBC Radio 3			
Nifer y rhaglenni dogfen newydd ar y celfyddydau a phynciau diwylliannol (heb gynnwys ailddarllediadau)		30	41
BBC Radio 4			
Oriau o raglenni dogfen gwreiddiol (heb gynnwys ailddarllediadau)		350	388
Oriau o raglennu crefyddol gwreiddiol (heb gynnwys ailddarllediadau)		200	226
BBC ALBA			
Oriau'r wythnos sy'n targedu dysgwyr Gaeleg (rhaglenni gwreiddiol yn unig)		5	14
Erbyn diwedd mis Hydref 2017, byddwn yn cyflwyno ein hadroddiadau ariannol chwarterol cyntaf i Ofcom ar y gweithgareddau masnachol. Ar yr un pryd â'n Hadroddiad Blynyddol, byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ariannol blynyddol y gweithgareddau masnachol, yn ôl llinell busnes	CYFLAWNWYD
Byddwn yn cyhoeddi nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau ynghylch cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran gweithgareddau masnachol o dan y Siarter a'r Cytundeb neu yn Fframwaith Gweithredu Ofcom, a'n hymateb i gwynion o'r fath	0
Byddwn yn cyhoeddi nifer y camau gorfodi gan Ofcom mewn perthynas â chydymffurfio â Fframwaith Gweithredu Ofcom	0

Partneriaethau a mentrau cydweithredol

Mae'r adran hon yn rhoi cipolwg ar weithgareddau partneriaeth yn 2017/18. Mae gan y BBC tua 240* o bartneriaethau a mentrau cydweithredol, yn rhai bach a mawr, sy'n canolbwyntio ar weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cefnogi economi greadigol y DU. Mae tua hanner yn hanu o'r gwledydd a chanolfannau cynhyrchu rhwydwaith yn Lloegr, mae 40 yn cefnogi hyfforddiant a sgiliau ac mae 22 ar gyfer Ymchwil a Datblygu.

Mae'r BBC wedi gweithio gyda mwy na 330 o sefydliadau. Ymhlith y partneriaid mae sefydliadau diwylliannol cenedlaethol a rhanbarthol, arianwyr, gwyliau, sefydliadau masnach ac aelodaeth, prifysgolion, sefydliadau hyfforddi, lleoliadau, cynghorau lleol, elusennau, grwpiau gwirfoddol a sefydliadau masnachol gan gynnwys darlledwyr eraill. Dywed tua 200 fod ganddynt gydbertynas barhaus â'r BBC. Mae rhai partneriaid yn sefydliadau mantell sydd â mynediad i lawer mwy ledled y DU.

Mae'r 10 o astudiaethau achos isod yn tanlinellu canlyniadau 2017/18: ffocws ar wyddoniaeth, gan uno cydbertynasau creadigol ledled y DU i ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd, ac arloesedd digidol a meithrin capasiti yn y sector creadigol.

Gyda phum partner craidd ac 17 o randdeiliaid, gwnaeth Tomorrow's World gyflawni'r ymrwymiad yn Balch Beiddgar Creadigol i gael cynulleidfaoedd prif ffrwd i ymddiddori mewn gwyddoniaeth. Mae wedi datblygu ffyrdd o gynyddu diddordeb mewn STEM drwy gynnwys sydd wedi'i greu, ei guradu a'i ddwyn ynghyd o dan frand y BBC a phartneriaid. Ymhlith yr uchafbwyntiau ar y teledu ac iPlayer roedd *Tomorrow's World Live* gydag Eric Schmidt a Brian Cox, *Britain's Greatest Invention* ac *Astronauts: Do you have what it takes?* Gwnaeth cyrhaeddiad ar y teledu ac ar-lein ragori ar y meincnodau a osodwyd gyda chynnwys digidol fel pum ffaith Tim Peake am y gofod (Grŵp yr Amgueddfa Wyddoniaeth) a gyrhaeddodd dros 85,000 o borwyr yn ei wythnos gyntaf; podlediad *Tomorrow's World* gyda mwy na 60,000 o lawrlwythiadau ynghyd â gweithgarwch cymdeithasol ar-lein; ac ar ei anterth gwnaeth bron i 40,000 o borwyr ymweld â'r Cyfrifiannell Newid Byd-eang mewn wythnos.

Partner creadigol i Brydain

Bu'r bartneriaeth â Dinas Diwylliant Hull yn uchafbwynt, gydag effaith gref ar Lannau Humber ac yn Swydd Efrog. Roedd canfyddiadau o'r BBC yn uwch ymhlith y rhai a ddaeth i gysylltiad ag arlwy'r BBC mewn perthynas â Hull (8.1 vs 7.7 ar gyfartaledd) ac ymhlith y rhai oedd yn ymwybodol o'r bartneriaeth (8.3 vs 7.7 ar gyfartaledd). Honnodd 65% o bobl ar lefel genedlaethol eu bod yn gwybod mai Hull oedd Dinas Diwylliant y DU yn 2017 (49% ymhlith pobl ifanc 16-34 oed). Arweiniwyd arlwy'r BBC mewn perthynas â Hull yn lleol gan BBC Humberside. Cynyddwyd cyrhaeddiad ar gyfer rhaglenni nodedig fel *Hull Flood* a gafodd ei darlledu ar BBC Two. Creodd y BBC ddigwyddiadau newydd fel *Contains Strong Language*, gŵyl gair llafar a daeth Big Weekend Radio 1 i Hull. Mae sgrisiau gyda Dinas Diwylliant Cofentri 2021 wedi cychwyn, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o Hull.

Mae partneriaeth CBeebies â Northern Ballet wedi cyflwyno bale plant i gynulleidfa ehangach, gan feithrin diddordeb newydd mewn dawns. Yn ogystal ag ehangu amrywiaeth cynrychiadau CBeebies, mae digwyddiadau sgrinio wedi helpu lleoliadau mewn ardaloedd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr lle ceir llai o ymgysylltu â'r celfyddydau.

Mae BBC Chwaraeon wedi ffrydio mwy na 1,000 o oriau ychwanegol o ddarllediadau chwaraeon byw, gan barhau i weithio mewn partneriaeth â chyfrif llywodraethu sy'n goruchwyltio tua 80 o sefydliadau, er mwyn eu helpu i gyflwyno a hyrwyddo cynnwys ar gyfer BBC Live ac iPlayer. Gyda mwy na 7.4 miliwn o ffrydiau yn cael eu dechrau, mae hyn wedi cynyddu ein capasiti ac wedi lleihau'r gost mynediad i bartneriaid i lwyfannau'r BBC. O ganlyniad, cynyddwyd cyrhaeddiad i ddigwyddiadau llai ac mae cynulleidfaoedd nas gwasanaethir yn ddigonol a chwaraeon merched wedi'u cynrychioli'n well.

O ran BBC Arts, datblygwyd modelau cydweithredu golygyddol newydd er mwyn ehangu'r defnydd o BBC Live i ddigwyddiadau diwylliannol, gan gynyddu amlygrwydd digidol Gŵyl Ryngwladol Caeredin, Gŵyl Ryngwladol Manceinion a Gŵyl y Gelli. Gwnaeth *Opera Passion* gyda ROH a'r V&A ddod â chwmnïau opera yn y DU ynghyd am y tro cyntaf am wyth awr o ffrydio byw a digwyddiadau arbennig wedi'u cefnogi gan y cyfryngau cymdeithasol, gan feithrin capasiti yn y sector ac anelu at apelio at gynulleidfaoedd newydd yn ogystal â'r rheini sy'n hen law ar opera. Gallai pob partner ddefnyddio gweithdai.

Yn sgil cyfres nodedig BBC Two *Civilisations*, a wnaed mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored, sefydlwyd Gŵyl Civilisations, gyda mwy na 300 o amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd ac archifau yn cydweithredu i daflu goleuni ar gasgliadau yn y DU ac ysgogi trafodaeth drwy gynnal dros 260 o ddigwyddiadau cyhoeddus. Cynyddwyd cyrhaeddiad drwy ddarllediadau ar y cyfryngau cymdeithasol ledled y DU, gan gynnwys 11 o ffilmiau wedi'u comisiynu'n arbennig yn rhanbarthau Lloegr. Mae BBC R&D wedi cynnig mynediad i dechnoleg ddigidol i bartneriaid, gyda 93 o sefydliadau yn dod i weithdai. Mae 28 wedi rhoi cynnwys yn yr ap realiti estynedig. Gwnaed 800 o ddarnau o archif y BBC ar gael i bartneriaid. Dyfarnodd Art Fund 21 o grantiau i sefydliadau a oedd yn cymryd rhan. Roedd partneriaid yn yr ŵyl hefyd yn cynnwys Culture 24, Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cyngor Cyfarwyddwyr yr Amgueddfeydd Cenedlaethol, Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol a Chyngor Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yr Alban.

Gwnaeth y bartneriaeth rhwng Radio 4 a'r Amgueddfa Brydeinig gyrraedd 3.5 miliwn o wrandawyr wythnosol gyda Living With The Gods, cyfres 30 pennod newydd gyda Neil MacGregor. Ceisiodd gwrthrychau a straeon yn ymwneud ag Islam, Hindŵaeth, Siciaeth, Bwdhaeth, Iddewiaeth, yn ogystal â Christnogaeth, geisio adlewyrchu cynulleidfaoedd amrywiol. Drwy animeiddio chwe phennod, a gafodd eu syndicetio drwy gyfryngau digidol a chymdeithasol a chyda mwy na miliwn o lawrlwythiadau podlediad hyd yn hyn, mae wedi ymestyn cyrhaeddiad Radio 4 i gynulleidfaodd iau.

Gwaddol barhaol

Mae BBC Cymru wedi cymryd camau sylweddol tuag at greu Archif Darlledu Cenedlaethol ar gyfer Cymru gyda'r Llyfrgell Genedlaethol, gan sicrhau cyllid Cam 1 oddi wrth gronfa'r Loteri Dreftadaeth. Y nod yw sicrhau bod archifau Cymru, gan gynnwys treftadaeth ddarlledu, ar gael i bawb ac ymgysylltu â chymunedau a sicrhau bod asedau'r BBC yn cael eu diogelu yn yr hirdymor.

Fel un o bartneriaid sylfaen Get Creative, mae'r BBC yn parhau i gefnogi gŵyl yr ymgyrch, ac eleni gwelwyd mwy na 1,400 o ddiwyddiadau creadigol a chyfranogol ledled y DU. Cynyddodd lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad gyda'r ymgyrch yn cael ei gweld bron i 10 miliwn o weithiau ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a 500,000 o ymweliadau â thudalennau ar wefan Get Creative, lle gall cynulleidfaoedd ddod o hyd i ddolenni i fap sy'n rhestru digwyddiadau creadigol fel rhan o'r ŵyl.

Yn sgil diwedd Make It Digital, sefydlwyd sefydliad nid er elw gyda phartneriaid allweddol er mwyn sicrhau gwaddol parhaol i micro: bit. Mae Sefydliad Addysgol Micro:bit wedi canolbwyntio ar ddiddordebau byd-eang. Mae'r micro:bit bellach ar gael mewn 50 o wledydd, a chaiff ei gyflwyno'n genedlaethol yng Ngwlad yr Iâ, Croatia a Singapôr hyd yn hyn. Mae Micro:bit ar gael mewn 13 o ieithoedd a cheir ecosystem partneriaeth fyd-eang o 132 o bartneriaid, sy'n cynyddu.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi braslun o'r prif fentrau cydweithredol a phartneriaethau creadigol ar draws gwasanaeth cyhoeddus y BBC ym mis Mawrth 2018.

Maes y BBC*	Nifer y Partneriaethau/mentrau cydweithredol
Archif	11
Celfyddydau/Arts North	18
Academy (Birmingham)	19
Plant (BBC North)	4
Cynnwys/Teledu	16
Dysgu (BBC North)	15
Chwaraeon (BBC North)	14
Newyddion	5
Cerddoriaeth	14
Radio	44
R&D	22
Canolfannau Rhwydwaith Lloegr	14
Yr Alban	12
Cymru	28
Gogledd Iwerddon	7
Cyfanswm	243*

* Mae hyn yn cynnwys is-adranau gwneud rhaglenni, R&D a Hyfforddiant mewn canolfannau cynhyrchu rhwydwaith ledled y DU.
 ** Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys World Service na gweithgarwch byd-eang, partneriaethau masnachol o fewn WW/ Studios, cyd-gynrychiadau na threfniadau dosbarthu.

Gwasanaethau mynediad

Mae'r tabl canlynol yn nodi amlygrwydd gwasanaethau mynediad ar draws sianelau teledu rhwydwaith y BBC.

Sain

	Oriau disgrifiadau sain		Cyfanswm oriau		Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2017/18	2016/17	2017/18	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	
BBC One	1,966	1,896	8,736	22.5	21.7	20.0	20.0	
BBC Two	2,526	2,408	8,736	28.9	27.6	20.0	20.0	
BBC Four	1,257	1,205	3,165	39.7	36.6	20.0	20.0	
CBBC	1,850	1,771	5,083	36.4	35.0	20.0	20.0	
CBeebies	1,443	1,320	4,704	30.7	28.0	20.0	20.0	
Cyfanswm	9,042	8,600	30,424					

Dehongli arwyddion

	Oriau dehongli arwyddion		Cyfanswm oriau		Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2017/18	2016/17	2017/18	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	
BBC One	462	460	8,736	5.3	5.3	5.0	5.0	
BBC Two	458	453	8,736	5.2	5.2	5.0	5.0	
BBC Four	198	177	3,165	6.2	5.4	5.0	5.0	
CBBC	297	261	5,083	5.8	5.2	5.0	5.0	
CBeebies	253	244	4,704	5.4	5.2	5.0	5.0	
BBC News	506	514	8,736	5.8	5.9	5.0	5.0	
Cyfanswm	2,174	2,109	39,160					

Isdeitlau

	Oriau isdeitlo		Cyfanswm oriau		Oriau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn (%)		Targed ar gyfer y flwyddyn (%)	
	2017/18	2016/17	2017/18	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	
BBC One	14,268	14,213	14,283	99.9	99.9	100	100	
BBC Two	9,542	9,634	9,552	99.9	99.9	100	100	
BBC Four	3,165	3,294	3,165	100	100	100	100	
CBBC	5,080	5,062	5,083	100	100	100	100	
CBeebies	4,704	4,706	4,704	100	100	100	100	
BBC Parliament	1,390	1,379	8,736	15.9	15.8	-	100	
BBC News	8,733	8,733	8,736	100	100	100	100	
Cyfanswm	46,882	47,021	54,260					

Gwariant fesul genre

Mae'r Siarter yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC adrodd ar wariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU fesul genre (fel y'i diffinnir yn unol â safonau'r diwydiant). Rhydd y tabl isod y wybodaeth hon.

	£ miliynau
Newyddion a Materion Cyfoes	318.5
Ffeithiol a Dysgu	294.1
Ffilm a Drama	339.9
Adloniant a Chomedi	177.2
Cynyrchiadau Chwaraeon	65.1
Plant	88.8
Cyfanswm gwariant genre	1,283.6
Gwariant arall ar gynnwys	294.9
Cyfanswm cost cynnwys	1,578.5

Elfen o gystadleuaeth

O dan y Cytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i'r BBC sicrhau cystadleuaeth rhwng cynhyrchwyr y BBC a chynhyrchwyr allanol, boed hwy'n gynhyrchwyr annibynnol ai peidio, ar gyfer cynyrchiadau teledu, radio ac ar-lein.

Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau, ar gyfer rhaglenni teledu perthnasol, fod o leiaf 40% o'r warant fewnol flaenorol ar gyfer drama, comedi, adloniant, a ffeithiol ar agor i gystadleuaeth erbyn 31 Rhagfyr 2018. Ar 31 Mawrth 2018, roedd y BBC wedi agor i fyny 24% o'r warant fewnol drwy gyhoeddi proses dendro gystadleuol ar gyfer nifer o gyfresi (*Holby City*, *Songs of Praise*, *Question of Sport*, *Doctors a Bargain Hunt*), drwy estyn gwahoddiad i gyflwyno syniadau (*Horizon*) a thrwy gynnig amrywiaeth o gyfleoedd eraill ar gyfer rhaglennu newydd. Mae'r BBC ar y trywydd iawn i gyflawni'r gofyniad o 40% erbyn diwedd 2018.

	Targed (%) oriau perthnasol	% yr oriau ag elfen o gystadleuaeth
Teledu	Erbyn 31 Rhag 2018	
— Gwarant drama, comedi, adloniant, a ffeithiol mewnol ^{1,2}	40	24
	Erbyn 31 Rhag 2022	
Radio Rhwydwaith ³	60	20
	Erbyn 31 Rhag 2027	
Cynnwys ar-lein ^{4,5}	100	Roedd 30.9 o wariant ar-lein yn allanol ⁶

Nodiadau

- Mae rhaglenni teledu perthnasol yn cynnwys pob rhaglen deledu sydd wedi'i chynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU heblaw am: (a) rhaglenni a gedwir i gynyrchiadau annibynnol; (b) rhaglenni newyddion a materion cyfoes sy'n gysylltiedig â newyddion; (c) unrhyw raglen lle nad yw'r BBC o'r farn y byddai cyflawni ei rwymedigaeth yn sicrhau gwerth am arian.
- Ystyr 'gwarant fewnol' yw sicrhau dyraniad amser ar yr awyrgyfer ar gyfer rhaglenni a wneir gan y BBC o dan gymal 56 o Gytundeb 2006.
- Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau, ar gyfer rhaglenni radio perthnasol, ei fod yn sicrhau cystadleuaeth ar gyfer o leiaf 60% o amser darlledu perthnasol erbyn diwedd 2022. Ystyr rhaglenni radio perthnasol yw pob rhaglen radio rhwydwaith sydd wedi'i chynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU heblaw am-(a) rhaglenni newyddion; a (b) ailddarllediadau, cyswllt, cyd-ddarllediadau, deunydd EBU a cherddoriaeth a awtochwarair.
- Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC sicrhau cystadleuaeth ar gyfer 100% o'r deunydd ar-lein perthnasol erbyn diwedd 2027. Mae deunydd ar-lein perthnasol yn cwmpasu'r holl ddeunydd ar-lein sydd wedi'i gynnwys yng Ngwasanaethau Cyhoeddus y DU heblaw am: (a) rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Rhaglenni Ar Alw Cyhoeddus y DU; (b) deunydd newyddion a materion cyfoes sy'n gysylltiedig â newyddion; ac (c) unrhyw ddeunydd lle nad yw'r BBC o'r farn y byddai cyflawni ei rwymedigaeth yn sicrhau gwerth am arian.
- O ystyried yr amrywiaeth o gynnwys sy'n bodloni deunydd ar-lein perthnasol mae'r BBC yn dal i ystyried y metrig mwyaf priodol i olrhain perfformiad yn erbyn yr ymrwymiad hwn.
- Mae blwyddyn lawn yn amcangyfrif yn seiliedig ar dri chwarter cyntaf y flwyddyn.

Cyflenwad teledu rhwydwaith

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfran oriau teledu rhwydwaith y BBC a gynhyrchwyd gan wahanol fathau o gyflenwyr.

	Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr Annibynnol Cymhwysol ar gyfer teledu'r BBC (%)			Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr Annibynnol Anghymhwysol ar gyfer teledu'r BBC (%)			Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan PSB mewnol ar gyfer teledu'r BBC (%)			Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan BBC Studios ar gyfer teledu'r BBC (%)*		
	2017/18	2016/17	% newid	2017/18	2016/17	% newid	2017/18	2016/17	% newid	2017/18	2016/17	% newid
Drama	25	24	+1	19	12	+7	0	65	-65	56	0	Dd/G
Adloniant	26	29	-3	40	38	+2	0	33	-33	34	0	Dd/G
Comedi	39	46	-7	20	19	+2	0	36	-36	41	0	Dd/G
Ffeithiol	30	26	+5	11	16	-5	5	58	-53	53	0	Dd/G
Yn ystod y dydd	40	39	+1	27	28	-1	0	33	-33	33	0	Dd/G
Chwaraeon	23	27	-4	0	0	0	77	73	+4	0	0	Dd/G
Plant	35	32	+3	19	12	+7	45	56	-11	1	0	Dd/G
Cyfanswm	31	30	+1	17	15	+1	23	55	-32	30	0	Dd/G

Mae'r ffigurau yn seiliedig ar raglenni cymhwysol (fel y'u diffinnir yn y Gorchymyn Cynrychiadau Annibynnol) a gyflawnwyd ym mhob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn cynnwys ailddarllediadau na chaffaeliadau. Mae data ond yn cynnwys oriau rhwydwaith a gyflawnwyd yn y flwyddyn berthnasol.

* Daeth BBC Studios yn is-gwmni masnachol o'r BBC ar 1 Ebrill 2017 ac felly ar wahân i PSB mewnol. Felly, ni ellir cymharu â 2016/17.

Cyflenwad radio rhwydwaith

Mae'r tabl canlynol yn dangos lefelau oriau radio rhwydwaith y BBC gan wahanol gyflenwyr.

	Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr Annibynnol ar gyfer Radio Rhwydwaith y BBC (%)		Cyfran yr holl oriau a gynhyrchwyd gan gynhyrchwyr PSB mewnol ar gyfer Radio Rhwydwaith y BBC (%)	
	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17
Radio 1	15.9	15.1	84.1	84.9
1 Xtra	12.6	15.0	87.4	85.0
Radio 2	24.5	13.3	75.5	86.7
Radio 3	15.7	25.1	84.3	74.9
Radio 4	18.4	14.5	81.6	85.5
Radio 4 Extra	50.4	24.3	49.6	75.7
Radio 5 live a 5 live sports extra	21.8	24.8	78.2	75.2
6 Music	25.0	23.1	75.0	76.9
Asian Network	15.0	16.0	85.0	84.0
Cyfanswm	18.8	18.1	81.2	81.9

Nodiadau:

Nid yw'r data sydd wedi'u cyflwyno yn cynnwys ailddarllediadau, cyd-ddarllediadau, newyddion craidd, addysg/gweithredu cymdeithasol, cyflwyno, allbwn EBU, World Service na darllediadau byw Radio 5 live ar Asian Network dros nos.

Dosbarthu

Mae dosbarthu cynnwys y BBC yn allweddol i gyflawni ein cenhadaeth a'r dibenion cyhoeddus. Noda'r Siarter fod yn rhaid i'r BBC adrodd ar y ffordd y mae wedi sicrhau bod ei allbwn a'i wasanaethau ar gael i'r cyhoedd. Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynnydd eleni.

Sut rydym yn dosbarthu ein gwasanaethau

<h1>98.5%</h1> <p>Teledu Daeareol Digidol (TDD) mewn cartrefi yn y DU</p>	<h1>99%</h1> <p>Signal AM/FM mewn cartrefi yn y DU</p>	<h1>97.5%</h1> <p>Signal DAB mewn cartrefi yn y DU</p>
<h1>98%</h1> <p>Gwasanaethau drwy loeren i gartrefi yn y DU</p>	<p>Mae BBC iPlayer ar gael ar</p> <h1>>2,500</h1> <p>o fathau o ddyfeisiau teledu</p>	<p>Mae BBC iPlayer ar gael ar</p> <h1>>15,000</h1> <p>o fathau o ddyfeisiau yn gyffredinol</p>

Mae'r ffigurau rhywydwaith darlledu yn ymwneud â'r rhywydwaith darlledu a weithredir gan y BBC. Hefyd, mae'r BBC yn sicrhau bod ei wasanaethau ar gael drwy rwydweithiau darlledu trydydd parti – mae'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau Teledu a Radio ar gael drwy loeren yn achos 98% o gartrefi'r DU, mae rhai o'n gwasanaethau HD ar gael drwy amblecs TDD masnachol ac mae gwasanaethau radio'r gwledydd a'r rhanbarthau ar gael drwy rwydwaith DAB masnachol.

Nod gweithgarwch dosbarthu'r BBC yw sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar yr holl wasanaethau sy'n berthnasol iddynt yn llawn ac mewn ffordd gyfleus. I'r perwyl hwn, yn 2017/18 gwnaethom sicrhau'r canlynol:

- bod ein gwasanaethau Teledu a Radio llinol yn cyrraedd cynifer o gartrefi ag sy'n economaidd ymarferol
- bod gwasanaeth fideo ar alw'r BBC ar gael ar fwy o ddyfeisiau defnyddwyr (o setiau teledu deallus, i gonsolau gemau, i lechi) nag unrhyw wasanaeth arall o'r fath yn y DU drwy ateb poblogaidd, hawdd ei integreiddio
- bod y BBC wedi creu cynnwys i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr ar lwyfannau cymdeithasol poblogaidd, fel Facebook, Twitter a YouTube

Yn ogystal ag argaeledd eang, bodlonodd y BBC yn llwyddiannus saith amod dosbarthu sy'n hanfodol er mwyn iddo barhau i gyflawni ei genhadaeth gyhoeddus:

- **Rheolaeth olygyddol** – fel rhan o'r holl drefniadau dosbarthu ar gyfer ei raglenni Teledu a Radio, ceisiodd y BBC ymarfer rheolaeth olygyddol dros ddethol a threfnu ei raglenni llinol ac ar alw lle bynnag y cawsant eu dosbarthu, gan guradu gwasanaethau er mwyn tynnu sylw at raglenni llai amlwg a pherlau gwasanaeth cyhoeddus nodedig, a gwneud cynulleidfaoedd yn ymwybodol ohonynt. Mae BBC iPlayer wedi dod yn fwyfwy effeithiol wrth gyflawni'r amcan hwn. Dengys ein hymchwil, ar gyfartaledd, fod cynnwys y fath raglenni ar hafa'n BBC iPlayer yn dyblu eu defnydd ar alw, a bod cynulleidfaoedd yn ymatebol iawn i argymhellion 'gwylio nesaf' y BBC: ac mae ffofws BBC iPlayer yn 2017/18 ar

gynnig gwasanaeth mwy personol wedi gwella hyn.

- **Data** – er mwyn gallu curadu'n fwy effeithiol (uchod) a chynnig profiad mwy personol o wasanaethau'r BBC, yn ogystal â monitro a gwella perfformiad, mae'r BBC wedi parhau i weithio gyda'i bartneriaid dosbarthu er mwyn sicrhau y gall gael gafael ar ddata amserol, cywir a gronynnog ar y defnydd o'i wasanaethau. Cafodd yr angen i negodi'n effeithiol â llwyfannau trydydd parti ar gyfer y fath ddata ei danlinellu yn adroddiad diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sef 'The BBC's Understanding of its Audiences and Users'.
- **Amlygrwydd** – drwy gydol 2017/18, mae'r BBC wedi parhau i sicrhau bod ei gynnwys a'i wasanaethau yn cael amlygrwydd o fewn rhyngwynebau'r llwyfannau y mae arnynt, ac mae wedi gweithio gyda llwyfannau er mwyn sicrhau bod modd dod o hyd i'w gynnwys mewn rhyngwynebau newydd arloesol fel apiau cyfuno symudol (e.e. Virgin TV Anywhere) a chynorthwyr llais (e.e. Amazon Alexa) a meysydd darganfod llwyfannau (e.e. Samsung).
- **Priodoli** – mae'n bwysig bod talwyr ffi'r drwydded yn gallu adnabod pryd maent yn dod ar draws rhaglenni sydd wedi'u darparu gan y BBC, ac felly mae'r BBC wedi parhau i gymryd camau i sicrhau bod ei wasanaethau yn cael eu brandio'n amlwg a bod modd eu priodoli'n hawdd lle bynnag maent ar gael.
- **Ansawdd** – mae'r BBC wedi parhau i sicrhau y gall cynulleidfaoedd gael gafael ar wasanaethau'r BBC yn ddibynadwy mewn ansawdd uchel. Hefyd, mae'r BBC wedi sicrhau bod y nodweddion a ddatblygwyd er mwyn gwella ei wasanaethau (fel y gallu i

aildechrau rhaglen fyw neu fynd yn ôl o fewn BBC iPlayer wrth iddi gael ei darlledu) ar gael mor eang â phosibl.

- **Gwerth am arian** – mae'r BBC yn ceisio lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â dosbarthu ei gynnwys, er mwyn sicrhau bod cyfran mor fawr â phosibl o ffi'r drwydded yn cael ei gwario ar raglennu. Mae hyn wedi parhau i lywio'r technolegau dosbarthu y mae'r BBC yn buddsoddi ynddynt, yn ogystal â'n dull nodweddiadol o ddsbarthu cynnyrch BBC iPlayer safonol a all gael ei rannu'n helaeth am gostau ymylol bach iawn.
- **Am ddim** – mae'r BBC wedi parhau i sicrhau nad yw cynulleidfaoedd yn talu cost gynyddrannol i ddefnyddwyr ddefnyddio gwasanaethau'r BBC: mae ein gwasanaethau ar gael ar haen lefel mynediad unrhyw wasanaeth tanysgrifio, ac nid oes unrhyw hysbysebu.



























Caiff yr amodau hyn eu hadlewyrchu ym Mholisi Dosbarthu'r BBC yr ymgynghorwyd arno eleni.

Drwy gydol 2017/18 mae'r BBC wedi parhau i chwarae rôl arweiniol wrth gynllunio i glirio gwasanaethau teledu o fand 700MHz sbectrwm darlledu. Caiff y sbectrwm hwn ei ddefnyddio gan wasanaethau band eang symudol yn y dyfodol. Mae'r prosiect wedi datblygu o'r cam cynllunio i'r cam cyflawni ac mae'r BBC yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod ein cynulleidfaoedd yn cael eu cefnogi a bod yr effaith ar ein gwasanaethau mor fach â phosibl. Mae'r BBC hefyd wedi bod ar flaen y gad wrth baratoi ar gyfer safonau symudol 5G yn y DU, ac mae cynigion ganddo wedi'u derbyn ar gyfer treialon wedi'u cefnogi gan y Llywodraeth i gyflenwi radio a chynnig profiadau ymdrwythol drwy 5G fel rhan o ddau gonsortia diwydiant.

Hyrwyddo Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC

Mae'r Cytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yn rhaid i'r BBC sicrhau bod hyrwyddo unrhyw allbwn Gwasanaeth Cyhoeddus y DU neu unrhyw wasanaeth o'r fath o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn canolbwyntio ar allbwn sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gyflawni cenhadaeth y dibenion cyhoeddus a'u hyrwyddo. Rhaid i'r BBC gyhoeddi gwybodaeth am y fath hyrwyddo, gan gynnwys:

- nifer y munudau o hyrwyddo ym mhob Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU;
- amser o'r dydd y fath hyrwyddo;
- unrhyw wybodaeth arall a fyddai, yn ei farn ef, o fudd i'r cyhoedd i'w chyhoeddi.

Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC	Cyfanswm munudau o hyrwyddo	Cyfran yr amser ar yr awyr	Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC	Cyfanswm munudau o hyrwyddo	Cyfran yr amser ar yr awyr
	9,008	1.7%		3,754	0.7%
	7,543	1.2%		7,474	1.4%
	3,468	1.8%		Dd/G	Dd/G
	5,105	1.7%		8,690	1.7%
	4,555	1.6%		Dd/G	Dd/G
	13,870	2.6%		10,463	2.0%
	Dd/G	Dd/G		7,483	1.5%
	Dd/G	Dd/G		6,155	1.5%
	Dd/G	Dd/G		Dd/G	Dd/G
	7,483	1.5%		5,125	1.2%
	6,327	1.2%		4,590	1.1%
	11,332	2.2%		3,952	1.0%
					
				6,769	1.5%

Hyrwyddir ar adegau penodol drwy gydol y dydd.

Ni chaiff unrhyw hyrwyddo ar BBC ALBA, Parliament, Radio 4 Extra na 5 live sports extra ei olrhain oherwydd nifer ac amllder isel iawn. Nid oes data ar gael ar gyfer hyrwyddo ar y Botwm Coch.

Pecynnau data'r Gwledydd

t.151

Cymru

t.155

Yr Alban

t.159

Gogledd
Iwerddon

t.163

Lloegr

Y BBC yng Nghymru

Yn ystod 2017/18, gwariodd y BBC £176.2 miliwn yng Nghymru ar bob gwasanaeth a llwyfan, o gymharu â £185.9 miliwn yn 2016/17.

Roedd rhaglenni teledu rhwydwaith a wnaed yng Nghymru yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 yn cynnwys *Doctor Who*, *Casualty*, *Bargain Hunt*, *Requiem*, *Only Connect* a rhannau ar gyfer *The One Show*. Roedd gwariant Ar-lein a Botwm Coch yn 2016/17 yn cynnwys y darllediad cyntaf o ddrama BBC Three *Class*. Mae lefel cynhyrchu teledu rhwydwaith yng Nghymru yn gryf o hyd – ar fesur blwyddyn galendr Ofcom. Yn 2017, cyfrannodd Cymru 6.7% (2016: 5.8%) o wariant cymwys y BBC ar deledu rhwydwaith.

Mae'r cynnwys lleol yn adlewyrchu'r buddsoddiad ychwanegol mewn teledu Saesneg i gynulleidfaoedd Cymreig gyda theitlau drama mawr megis *Keeping Faith* a *Hinterland*.

Nid yw nifer y staff yn 2017/18 bellach yn cynnwys staff BBC Studios yng Nghymru.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi rhagor o fanylion am berfformiad y BBC yng Nghymru, gan gynnwys incwm, gwariant lefel uchel a pherfformiad ar draws gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru.

Incwm

Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn ar gyfer pob gwlad ac fe'u cyfrifwyd drwy gymhwysu cyfran y safleoedd trwyddedig at gyfanswm y trwyddedau sydd mewn grym. Mae union nifer y trwyddedau sydd mewn grym yn amrywio o ddydd i ddydd. Mae nifer y safleoedd trwyddedig yn wahanol i nifer y trwyddedau sydd mewn grym oherwydd, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen mwy nag un drwydded ar safle. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys trwyddedau consesiynol i'r rhai sy'n byw mewn gofal preswyl.

	2018 £m	2017 £m
Incwm amcangyfrifedig		
Y DU	3,830.2	3,787.2
Cymru	190.9	188.5

Gwariant fesul gwasanaeth

Gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â rhaglenni a gynhyrchwyd yn y wlad.

	2018 £m	2017 £m
Cynnwys rhwydwaith		
Teledu (gan gynnwys chwaraeon a phlant)*	49.8	54.8
Radio	3.0	3.3
Ar-lein a Botwm Coch	1.4	5.3
Cyfanswm gwariant ar gynnwys rhwydwaith	54.2	63.4
Cynnwys lleol		
Teledu – BBC One	25.5	22.5
Teledu – BBC Two	9.6	8.7
Radio Wales	14.6	14.2
Radio Cymru	13.5	13.6
Ar-lein a Botwm Coch	7.9	7.5
Cyfanswm gwariant ar gynnwys lleol	71.1	66.5
Cerddorfa Genedlaethol Cymru	4.6	4.7
S4C**	25.6	29.2
Datblygu	0.2	1.4
Dosbarthu	20.5	20.7
Cyfanswm	176.2	185.9

* Caiff cynnwys rhwydwaith ei briodoli ar sail Ofcom, nad yw'n cynnwys cynrychiadau tramor.

** Mae hyn yn cynrychioli'r rhaglenni teledu a gafodd eu comisiynu a'u cynhyrchu gan BBC Cymru a'u cyflenwi i S4C (nid yw'n cynnwys rhaglenni y gwnaeth S4C eu comisiynu'n uniongyrchol gan gynhyrchwyr eraill).

Oriau teledu

Oriau dewisol lleol[^] (gan gynnwys ailddarllediadau) ar BBC One a BBC Two

	2018 Oriau	2017 Oriau
Drama, comedi, adloniant, cerddoriaeth a'r celfyddydau	37	22
Newyddion a materion cyfoes dyddiol, wythnosol	383	392
Chwaraeon a hamdden	144	141
Addysg, ffeithiol a chrefydd	98	108
Cyfanswm	662	663

[^] Cynnwys teledu a gomisiynwyd yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yn y wlad.

S4C*

	2018 Oriau	2017 Oriau**
Drama, comedi, adloniant, cerddoriaeth a'r celfyddydau*	256	270
Newyddion a materion cyfoes dyddiol, wythnosol	264	273
Chwaraeon a hamdden	134	168
Addysg, ffeithiol a chrefydd	5	8
Plant	11	17
Cyfanswm	670	736

* Mae hyn yn cynrychioli'r rhaglenni teledu a gafodd eu comisiynu, eu cynhyrchu a'u hariannu gan BBC Cymru a'u cyflenwi i S4C (nid yw'n cynnwys rhaglenni y gwnaeth S4C eu comisiynu'n uniongyrchol gan gynhyrchwyr eraill). Mae cyfanswm yr oriau ar gyfer 2018 yn cynnwys 135 awr o aildarllediadau (2017: 187 awr). Mae hyn yn cynnwys aildarllediadau lle codwyd tâl ar BBC Cymru mewn perthynas â darlledu'r rhaglenni.

** Ailddatganwyd ffigurau 2017 i gynnwys holl aildarllediadau BBC Cymru a gyflenwyd i S4C. Mewn blynyddoedd blaenorol, dim ond lle y codwyd tâl ar BBC Cymru mewn perthynas â'r oriau a aildarlledwyd y cynhwyswyd aildarllediadau.

Oriau Radio

BBC Radio Wales

	2018 Oriau	2017 Oriau
Newyddion a materion cyfoes	1,789	1,868
Cyffredinol	5,685	5,725
Cyfanswm	7,474	7,593

BBC Radio Cymru

	2018 Oriau	2017 Oriau
Newyddion a materion cyfoes	1,295	1,335
Cyffredinol	5,763	5,927
Cyfanswm	7,058	7,262






Nifer y staff

Mae nifer gyfartalog y staff yn cynrychioli'r unigolion hynny a gyflogir i gefnogi'r gwasanaethau a gynhyrchir yng Nghymru yn uniongyrchol.



	2018 Nifer	2017 Nifer
Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn	950	1,187

Nifer gyfartalog yr unigolion yng Nghymru ar draws pob gwasanaeth gan gynnwys swyddogaethau cefnogi.











	2018 Nifer	2017 Nifer
Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn	1,208	1,418

Perfformiad Cymru fesul gwasanaeth – Teledu		Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £84.9 miliwn ar y gwasanaethau hyn y llynedd yng Nghymru	Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth Cymru sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliodd yn gwylio sianel bob wythnos (oo:mm) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin yng Nghymru gyda'r sianel bob wythnos
	BBC One yw ein prif wasanaeth a sianel deledu fwyaf poblogaidd y DU. Mae'n uno ac yn ysbrydoli'r genedl gyda rhaglenni o safon ar draws amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi, adloniant a ffeithiol.	£71.5m 2016/17: £72.1m	72.7% 2016/17: 76.6%	08:21 2016/17: 08:34
	Mae BBC Two yn sianel genre cymysg sydd â rhaglenni treiddgar o sylwedd. Mae'n cynnwys y swm a'r amrywiaeth fwyaf o raglenni sy'n meithrin gwybodaeth ar y BBC, ynghyd â rhaglenni comedi, drama a chelfyddydol nodedig.	£12.2m 2016/17: £11.3m	48.7% 2016/17: 50.4%	03:18 2016/17: 03:20
	Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddorol, diwylliannol a ffeithiol o'r DU a thu hwnt.	£1.1m 2016/17: £2.6m	12.4% 2016/17: 13.6%	01:43 2016/17: 01:44
	Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant rhwng 6 a 12 oed, gan ddarparu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a dymunol.	– 2016/17: –	3.7% 2016/17: 3.7%	02:17 2016/17: 02:37
	Mae CBeebies yn cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.	£0.1m 2016/17: –	5.6% 2016/17: 6.3%	04:06 2016/17: 03:52

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol ar gyfer pob sianel a gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed (teledu).
 Ffynhonnell: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser fesul gwylwr – mae pob sianel yn cynnwys ei sianel cyd-ddarlledu HD lle y bo'n berthnasol).
 D.S. Dim ond achosion o wyllo set deledu a fesurir gan ddata BARB ar hyn o bryd, sy'n golygu na chaiff achosion o wyllo iPlayer ar ddyfeisiau eraill eu cynnwys yn unrhyw un o'r ffigurau cyrhaeddiad ac amser. Mae'r defnydd o iPlayer yn tyfu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu plant a phobl ifanc fel CBeebies a CBBC.

Perfformiad Cymru fesul gwasanaeth – Newyddion		Cynnwys (£m) Ni wnaethom wario unrhyw arian ar y gwasanaethau hyn y llynedd yng Nghymru	Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth Cymru sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliodd yn gwylio neu'n gwrandao ar wasanaeth bob wythnos (oo:mm) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin yng Nghymru gyda'r gwasanaeth bob wythnos
	Mae sianel BBC News yn wasanaeth newyddion diduedd ac annibynnol 24 awr y dydd sy'n cynnig y newyddion diweddaraf, dadansoddiadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddiwyddiadau lleol, rhai yn y DU a rhai rhyngwladol wrth iddynt ddiwydd.	– 2016/17: –	11.0% 2016/17: 11.7%	03:07 2016/17: 02:59
	BBC Parliament yw unig sianel y DU sy'n ymroddedig i wleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg yn ogystal â rhaglenni gwleidyddol o bob cwr o'r DU.	– 2016/17: –	0.8% 2016/17: 0.9%	01:38 2016/17: 01:40

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed.
 Ffynhonnell: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser fesul gwylwr).
 Byddai cyrhaeddiad tri munud ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament – yn unol â safonau'r diwydiant – yn 15.0% ac 1.5% yn y drefn honno (17.1% ac 1.7% ymhlith y boblogaeth 16+ oed).

Perfformiad Cymru fesul gwasanaeth – Radio		Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £3.0 miliwn ar y gwasanaethau hyn y llynedd yng Nghymru	Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth Cymru sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliwyd yn gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oo:mm) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin yng Nghymru gyda'r gwasanaeth bob wythnos
	Mae BBC Radio 1 yn darlledu cymysgedd nodedig o gerddoriaeth newydd ac adloniant i bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed ac yn cynnig newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori wedi'u teilwra i oedolion ifanc.	– 2016/17: –	23.5% ^{**} 2016/17: 21.9%	06:17 2016/17: 07:16
	Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd.	– 2016/17: –	2.0% ⁺ 2016/17: 1.8%	02:46 2016/17: 05:47
	Mae BBC Radio 2 yn darlledu cymysgedd unigryw o gerddoriaeth a rhaglenni llafar sy'n cwmpasu cymysgedd eang o allbwn pop a roc byw, comedi, rhaglenni dogfen a chrefyddol amrywiol, ac yn cynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i dros 14 miliwn o wrandawyr.	– 2016/17: –	36.8% [^] 2016/17: 37.1%	12:36 2016/17: 12:45
	Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, gan ddarparu sbectrw m eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama. Ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol ledled y DU.	£2.0m 2016/17: £2.3m	3.6% 2016/17: 3.3%	05:25 2016/17: 05:54
	Mae BBC Radio 4 yn orsaf radio sy'n cynnig gwasanaeth llafar cymysg, gyda newyddion a materion cyfoes treiddgar ac ystod eang o raglenni llafar eraill gan gynnwys drama, darlenniadau, comedi, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni cylchgrawn.	£1.0m 2016/17: £1.0m	18.5% 2016/17: 16.7%	12:05 2016/17: 12:02
	Lansiwyd yr orsaf yn wreiddiol yn 2002 fel BBC 7, a chafodd ei hail-lansio ym mis Ebrill 2011 fel BBC Radio 4 extra. Y rhwydwaith digidol yn unig yw'r prif gyfrwng ar gyfer archif y BBC o adloniant llafar, yn cynnwys comedi, drama a darlenniadau.	– 2016/17: –	3.5% 2016/17: 3.0%	06:34 2016/17: 07:41
	Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw yn barhaus, gan gyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon mawr i'w gwrandawyr wrth iddynt ddigwydd, a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth eang.	– 2016/17: –	8.4% 2016/17: 8.5%	07:34 2016/17: 07:44
	Mae BBC Radio 5 live sports extra yn cynnig dewis ehangach o chwaraeon byw i wrandawyr drwy ymestyn y darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon amrywiol.	– 2016/17: –	2.3% 2016/17: 1.6%	03:11 2016/17: 02:38
	Mae BBC 6 Music yn orsaf radio ddigidol sy'n diddanu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd gyda gwasanaeth sy'n dathlu ysbryd amgen cerddoriaeth boblogaidd o'r 60au hyd heddiw, ynghyd â newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.	– 2016/17: –	3.0% 2016/17: 2.8%	07:53 2016/17: 08:57
	Mae BBC Asian Network yn cynnig allbwn llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at Asiaid Prydeinig, gyda ffocws cryf ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni mewn ieithoedd eraill.	– 2016/17: –	0.4% 2016/17: 0.1%	* 2016/17: *

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob gorsaf a chynulleidfaoedd 15+ oed+.

Ffynhonnell: RAJAR (cyrhaeddiad radio a'r amser fesul gwrandawr).

Heb gynnwys y rhaglen 'Coming up on 5 live sports extra'.

** Radio 1: ymhlith ei grŵp targed o bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 49.0% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 05:57.

+ 1Xtra: ymhlith pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 6.3%. Gall y ffaith bod y sampl yn llai arwain at fwy o amrywioldeb yn y data amser fesul gwrandawr.

^ Radio 2: ymhlith ei grŵp targed o bobl 35+ oed, cafwyd cyrhaeddiad o 43.6% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 13:49.

* Mae maint y sampl ar gyfer amser fesul defnyddiwr yn rhy fach i'w chofnodi.

Y BBC yn yr Alban

Yn 2017/18, cynhyrnodd BBC Scotland amrywiaeth eang o gynnwys ar bob un o'i lwyfannau, gan gynnwys drama gymhellol, comedi boblogaidd, amrywiaeth o raglenni dogfen amrywiol a darllediadau o ddiwyddiadau i gynulleidfaoedd yn yr Alban a ledled y DU.

Yn ystod 2017/18, gwariodd y BBC £222.6 miliwn yn yr Alban ar draws pob gwasanaeth a llwyfan. Er bod hyn wedi lleihau o 2016/17 (£233.0 miliwn), cafodd y broses o gyflwyno dyddiadau darlledu fesul cam effaith ar ffigurau gwariant; felly, bydd cynnydd cymesur yn 2018/19.

Roedd gwerth cynnwys teledu rhwydwaith cymwys y BBC o'r Alban (o gymharu â holl wariant cymwys y BBC) yn uwch na tharged blwyddyn galendr Ofcom, sef 8.6%, gan gyrraedd 9.1% (2016: (10.3%)) ac roedd yn cynnwys y teitlau drama *Trust Me* a dychweliad y ddrama dirgelwch a llofruddiaeth glodwiw, *Shetland*. Ym maes rhaglenni plant, dychwelodd *Raven*.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi rhagor o fanylion am berfformiad y BBC yn yr Alban, gan gynnwys incwm, gwariant lefel uchel a pherfformiad ar draws gwasanaethau a ddarperir yn yr Alban.

Incwm

Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn ar gyfer pob gwlad ac fe'u cyfrifwyd drwy gymhwysu cyfran y safleoedd trwyddedig at gyfanswm y trwyddedau sydd mewn grym. Mae union nifer y trwyddedau sydd mewn grym yn amrywio o ddydd i ddydd. Mae nifer y safleoedd trwyddedig yn wahanol i nifer y trwyddedau sydd mewn grym oherwydd, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen mwy nag un trwydded ar safle. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys trwyddedau consesiynol i'r rhai sy'n byw mewn gofal preswyl.

	2018 £m	2017 £m
Incwm amcangyfrifedig		
Y DU	3,830.2	3,787.2
Yr Alban	323.7	321.7

Gwariant fesul gwasanaeth

Gwariant uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â rhaglenni a gynhyrwyd yn y wlad

	2018 £m	2017 £m
Cynnwys rhwydwaith		
Teledu (gan gynnwys chwaraeon a phlant)*	79.9	84.2
Radio	3.2	3.5
Ar-lein a Botwm Coch	2.5	5.5
Cyfanswm gwariant ar gynnwys rhwydwaith	85.6	93.2
Cynnwys lleol		
Teledu – BBC One	42.0	43.0
Teledu – BBC Two	12.0	17.0
Teledu – BBC ALBA	7.9	6.0
Radio Scotland	22.6	21.1
Radio nan Gàidheal	4.0	3.7
Ar-lein a Botwm Coch	8.0	6.6
Cyfanswm gwariant ar gynnwys lleol	96.5	97.4
Y Gerddorfa Genedlaethol	4.8	4.8
Datblygu	2.2	1.6
Dosbarthu	33.5	36.0
Cyfanswm	222.6	233.0

* Caiff cynnwys rhwydwaith ei briodoli ar sail Ofcom, nad yw'n cynnwys cynrychiadau tramor.

Oriau teledu

Oriau dewisol lleol[^] (gan gynnwys aildarllediadau) ar BBC One a BBC Two

	2018 Oriau	2017 Oriau
Drama, comedi, adloniant, cerddoriaeth a'r celfyddydau	129	131
Newyddion a materion cyfoes dyddiol, wythnosol	453	499
Chwaraeon a hamdden	186	196
Addysg, ffeithiol a chrefydd	113	101
Cyfanswm	881	927

[^] Cynnwys teledu a gomisiynwyd yn benodol ar gyfer cynulleidfaoedd yn y wlad.

BBC ALBA

	2018 Oriau	2017 Oriau
Drama, comedi, adloniant, cerddoriaeth a'r celfyddydau	602	659
Newyddion a materion cyfoes dyddiol, wythnosol	189	186
Chwaraeon a hamdden	220	225
Addysg, ffeithiol a chrefydd	969	884
Plant	639	700
Cyfanswm	2,619	2,654

Oriau Radio

BBC Radio Scotland

	2018 Oriau	2017 Oriau
Newyddion a materion cyfoes	3,098	3,213
Cyffredinol	5,429	5,338
Cyfanswm	8,527	8,551

BBC Radio nan Gàidheal

	2018 Oriau	2017 Oriau
Newyddion a materion cyfoes	656	663
Cyffredinol	4,241	4,258
Cyfanswm	4,897	4,921






Nifer y staff

Mae nifer gyfartalog y staff yn cynrychioli'r unigolion hynny a gyflogir i gefnogi'r gwasanaethau a gynhrychir yn yr Alban yn uniongyrchol.



	2018 Nifer	2017 Nifer
Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn	924	1,104

Nifer gyfartalog yr unigolion yn yr Alban ar draws pob gwasanaeth gan gynnwys swyddogaethau cefnogi.











	2018 Nifer	2017 Nifer
Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn	1,108	1,199

Perfformiad yn yr Alban fesul gwasanaeth – Teledu		Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £133.9 miliwn ar y gwasanaethau hyn y llynedd yn yr Alban	Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth yr Alban sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliodd yn gwyllo sianel bob wythnos (oo:mm) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin yn yr Alban gyda'r sianel bob wythnos
	BBC One yw ein prif wasanaeth a sianel deledu fwyaf poblogaidd y DU. Mae'n uno ac yn ysbrydoli'r genedl gyda rhaglenni o safon ar draws amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi, adloniant a ffeithiol.	£85.0m 2016/17: £83.8m	71.8% 2016/17: 74.0%	08:14 2016/17: 08:17
	Mae BBC Two yn sianel genre cymysg sydd â rhaglenni treiddgar o sylwedd. Mae'n cynnwys y swm a'r amrywiaeth fwyaf o raglenni sy'n meithrin gwytodaeth ar y BBC, ynghyd â rhaglenni comedi, drama a chelfyddydol nodedig.	£35.0m 2016/17: £45.6m	48.4% 2016/17: 50.0%	03:13 2016/17: 03:12
	Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau ym Mhrydain, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddorol, diwylliannol a ffeithiol o'r DU a thu hwnt.	£4.1m 2016/17: £4.4m	13.5% 2016/17: 14.0%	01:56 2016/17: 01:46
	Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant rhwng 6 a 12 oed, gan ddarparu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a dymunol.	£7.8m 2016/17: £7.7m	2.6% 2016/17: 3.4%	01:58 2016/17: 02:15
	Mae CBeebies yn cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.	£2.0m 2016/17: £2.7m	6.2% 2016/17: 5.5%	04:11 2016/17: 03:54

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud yn olynol ar gyfer pob sianel a gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed (teledu). Ffynhonnell: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser fesul gwylwr – mae pob sianel yn cynnwys ei sianel cyd-ddarlledu HD lle y bo'n berthnasol). D.S. Dim ond achosion o wyllo set deledu a fesurir gan ddata BARB ar hyn o bryd, sy'n golygu na chaiff achosion o wyllo iPlayer ar ddyfeisiau eraill eu cynnwys yn unrhyw un o'r ffigurau cyrhaeddiad ac amser. Mae'r defnydd o iPlayer yn tyfu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu plant a phobl ifanc fel CBeebies a CBBC.

Perfformiad yn yr Alban fesul gwasanaeth – Newyddion		Cynnwys (£m) Ni wnaethom wario unrhyw arian ar y gwasanaethau hyn y llynedd yn yr Alban	Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth yr Alban sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliodd yn gwyllo neu'n gwrandao ar wasanaeth bob wythnos (oo:mm) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin yn yr Alban gyda'r gwasanaeth bob wythnos
	Mae sianel BBC News yn wasanaeth newyddion diduedd ac annibynnol 24 awr y dydd sy'n cynnig y newyddion diweddaraf, dadansoddiadau a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, rhai yn y DU a rhai rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd.	– 2016/17: –	9.5% 2016/17: 9.9%	03:38 2016/17: 03:27
	BBC Parliament yw unig sianel y DU sy'n ymroddedig i wleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg yn ogystal â rhaglenni gwleidyddol o bob cwr o'r DU.	– 2016/17: –	0.8% 2016/17: 0.8%	02:05 2016/17: 02:14

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth a chynulleidfaoedd mewn cartrefi sy'n berchen ar set deledu 4+ oed. Ffynhonnell: BARB (cyrhaeddiad teledu a'r amser fesul gwylwr). Byddai cyrhaeddiad tri munud ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament – yn unol â safonau'r diwydiant – yn 13.6% ac 1.7% yn y drefn honno (15.0% ac 1.9% ymhlith y boblogaeth 16+ oed)

Perfformiad yn yr Alban fesul gwasanaeth – Radio		Cynnwys (£m) Gwnaethom wario cyfanswm o £3.2 miliwn ar y gwasanaethau hyn y llynedd yn yr Alban	Cyrhaeddiad (%) Poblogaeth yr Alban sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos	Amser a dreuliwyd yn gwrando ar wasanaeth bob wythnos (oo:mm) Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin yn yr Alban gyda'r gwasanaeth bob wythnos
	Mae BBC Radio 1 yn darlledu cymysgedd nodedig o gerddoriaeth newydd ac adloniant i bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed ac yn cynnig newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori wedi'u teilwra i oedolion ifanc.	£0.1m 2016/17: £0.1m	16.7% ^{**} 2016/17: 16.1%	06:07 2016/17: 06:45
	Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau gyda phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd.	– 2016/17: –	0.9% ⁺ 2016/17: 0.8%	05:55 2016/17: *
	Mae BBC Radio 2 yn darlledu cymysgedd unigryw o gerddoriaeth a rhaglenni llafar sy'n cwmpasu cymysgedd eang o allbwn pop a roc byw, comedi, rhaglenni dogfen a chrefyddol amrywiol, ac yn cynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i dros 14 miliwn o wrandawyr.	– 2016/17: £0.1m	27.8% [^] 2016/17: 25.6%	11:40 2016/17: 11:33
	Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, gan ddarparu sbectrw m eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama. Ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol ledled y DU.	£1.6m 2016/17: £1.8m	2.6% 2016/17: 2.7%	06:42 2016/17: 05:20
	Mae BBC Radio 4 yn orsaf radio sy'n cynnig gwasanaeth llafar cymysg, gyda newyddion a materion cyfoes treiddgar ac ystod eang o raglenni llafar eraill gan gynnwys drama, darlenniadau, comedi, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni cylchgrawn.	£1.5m 2016/17: £1.5m	14.7% 2016/17: 12.7%	09:41 2016/17: 09:30
	Lansiwyd yr orsaf yn wreiddiol yn 2002 fel BBC 7, a chafodd ei hail-lansio ym mis Ebrill 2011 fel BBC Radio 4 extra. Y rhywdaith digidol yn unig yw'r prif gyfrwng ar gyfer archif y BBC o adloniant llafar, yn cynnwys comedi, drama a darlenniadau.	– 2016/17: –	2.7% 2016/17: 1.9%	04:24 2016/17: 05:43
	Mae BBC Radio 5 live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw yn barhaus, gan gyflwyno straeon newyddion a digwyddiadau chwaraeon mawr i'w gwrandawyr wrth iddynt ddigwydd, a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth eang.	– 2016/17: –	5.8% 2016/17: 6.9%	06:25 2016/17: 06:24
	Mae BBC Radio 5 live sports extra yn cynnig dewis ehangach o chwaraeon byw i wrandawyr drwy ymestyn y darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon amrywiol.	– 2016/17: –	1.1% 2016/17: 1.2%	03:06 2016/17: 02:03
	Mae BBC 6 Music yn orsaf radio ddigidol sy'n diddanu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd gyda gwasanaeth sy'n dathlu ysbryd amgen cerddoriaeth boblogaidd o'r 60au hyd heddiw, ynghyd â newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.	– 2016/17: –	3.8% 2016/17: 3.7%	09:57 2016/17: 09:45
	Mae BBC Asian Network yn cynnig allbwn llafar a cherddoriaeth sy'n apelio at Asiaid Prydeinig, gyda ffocws cryf ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni mewn ieithoedd eraill.	– 2016/17: –	0.3% 2016/17: 0.4%	* 2016/17: *

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15+ munud ar gyfer pob gorsaf a chynulleidfaoedd 15+ oed.

Ffynhonnell: RAJAR (cyrhaeddiad radio a'r amser fesul gwrandawr).

Heb gynnwys y rhaglen 'Coming up on 5 live sports extra'.

** Radio 1: ymhlith ei grŵp targed o bobl ifanc rhwng 15 a 29 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 33.0% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 06:02.

+ 1Xtra: ymhlith pobl ifanc rhwng 15 a 24 oed, cafwyd cyrhaeddiad o 2.2%. Gall y ffaith bod y sampl yn llai arwain at fwy o amrywioldeb yn y data amser fesul gwrandawr.

^ Radio 2: ymhlith ei grŵp targed o bobl 35+ oed, cafwyd cyrhaeddiad o 33.5% a'r amser a dreuliwyd fesul gwrandawr oedd 12:45.

* Mae maint y sampl ar gyfer amser fesul defnyddiwr yn rhy fach i'w chofnodi.

Y BBC yng Ngogledd Iwerddon

Gostyngodd y buddsoddiad mewn gwariant ar gynnwys yng Ngogledd Iwerddon o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer gwasanaethau rhwydwaith ond cynyddodd ar gyfer gwasanaethau lleol. Roedd y gostyngiad mewn gwariant rhwydwaith yn gysylltiedig â chomisiynau drama ac adloniant a gynhyrwyd yn 2016/17 na chawsant eu haildrodd yn 2017/18 (e.e. *My Mother and Other Strangers*, *The Fall 3*, *Can't Touch This!*). Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwariant, mae Gogledd Iwerddon, drwy wasanaethau rhwydwaith, wedi darparu comisiynau drama o ansawdd yn 2017/18 o hyd (e.e. *Paula*, *Come Home*, *Line of Duty 4*) a pharhaodd â'r comisiwn llwyddiannus o deitlau plant fel Pablo. Cynyddodd y gwariant ar gynnwys lleol dros £1 filiwn gan adlewyrchu haen gyntaf y cyllid a ailfuddsoddiwyd yn y Gwledydd ac fe'i targedwyd at ehangu gwasanaethau newyddion a chwaraeon digidol yn ogystal â chynyddu allbwn comedi ar BBC One.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am berfformiad y BBC yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys incwm, gwariant lefel uchel a defnydd lleol o wahanol wasanaethau'r BBC.

Incwm

Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn ar gyfer pob gwlad ac fe'u cyfrifwyd drwy gymhwysio cyfran y safleoedd trwyddedig i gyfanswm y trwyddedau sydd mewn grym. Mae union nifer y trwyddedau sydd mewn grym yn amrywio o ddydd i ddydd. Mae nifer y safleoedd trwyddedig yn wahanol i nifer y trwyddedau sydd mewn grym oherwydd, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen mwy nag un drwydded ar safle. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys trwyddedau consesiynol i'r rhai sy'n byw mewn gofal preswyl.

	2018 £m	2017 £m
Incwm amcangyfrifedig		
Y DU	3,830.2	3,787.2
Gogledd Iwerddon	101.0	99.8

Gwariant fesul gwasanaeth

